Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

# Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020–2021

HC 398
SG/2021/142

# Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Dosbarthiad Loteri Genedlaethol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

Fe'i cyflwynir i'r Senedd yn unol ag adran 34 (3) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006), a chyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag adran 35 (5) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

I'w argraffu ar 14 Gorffennaf 2021 yn unol â Gorchymyn Tŷ'r Cyffredin
Wedi'i roi gerbron Senedd yr Alban gan Weinidog yr Alban ar 14 Gorffennaf 2021
Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon ar 14 Gorffennaf 2021
Wedi'i roi gerbron Senedd Cymru ar 28 Medi 2021

HC 398
SG/2021/142

**© Hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2021**
Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yng Nghronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Mezzanine Floor
International House
1 St Katharine's Way
Llundain E1W 1UN

ISBN 978-1-5286-2734-4

CCS0621773442 07/21

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Wedi'i argraffu yn y Deyrnas Unedig gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu** | **2** |
| Adroddiad perfformiad | 2 |
| Adroddiad atebolrwydd | 18 |
| Y datganiadau ariannol | 47 |
| Datganiad incwm net cynhwysfawr | 47 |
| Datganiad newidiadau mewn ecwiti | 48 |
| Datganiad o'r sefyllfa ariannol | 49 |
| Datganiad llifoedd arian parod | 50 |
| Cysoni'r llif arian parod net â'r symudiad mewn cyllid net | 50 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 51 |
| **Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017** | **67** |
| **Cyfarwyddiadau polisi** | **68** |
| Lloegr | 79 |
| Yr Alban | 80 |
| Cymru | 81 |
| **Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn** | **82** |

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Adroddiad perfformiad

### Trosolwg

Diben – diben yr adroddiad perfformiad yw rhoi gwybodaeth am y Bwrdd Ymddiriedolwyr (y Bwrdd), prif amcanion a strategaethau'r sefydliad a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'r adran trosolwg yn rhoi gwybodaeth i'r defnyddiwr er mwyn iddo allu deall y Bwrdd, ei ddiben, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Yn yr adran dadansoddi, mae'r Bwrdd yn adrodd ar ei fesurau perfformiad pwysicaf, gan gynnwys dadansoddiad sy'n defnyddio gwybodaeth ariannol o'r datganiadau ariannol.

**Ein perfformiad yn 2020–21:**
**– datganiad gan y Prif Weithredwr**

Roedd 2020–21 yn flwyddyn ddigynsail, ac mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa) wedi cyflawni rôl allweddol ar hyd-ddi wrth warchod treftadaeth ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Ni fu'r gwerth arbennig y mae'r Gronfa yn ei ddarparu erioed yn amlycach nag yn ystod 2020–21. Mae'r pandemig COVID-19 wedi dangos pwysigrwydd treftadaeth ledled y Deyrnas Unedig a pha mor werthfawr yw eu treftadaeth i bobl a chymunedau mewn argyfwng cenedlaethol.

Mae'r Gronfa wedi gallu mynd i'r afael â'r heriau a chynorthwyo'r rhai hynny sy'n ymwneud â gofalu am dreftadaeth, gan achub prosiectau yn ogystal â diogelu swyddi, bywoliaeth a lles i gynifer o bobl.

Gwnaethom y penderfyniad anodd, yn gynnar yn yr argyfwng, i atal dros dro ein rhaglenni agored a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Er mor anodd oedd y penderfyniad, dyna oedd y peth iawn i'w wneud oherwydd:

- caniataodd i ni lansio ein Cronfa Argyfwng Treftadaeth o fewn mis o ddechrau'r argyfwng a darparu'r cymorth ariannol uniongyrchol hollbwysig yr oedd ei angen ar ein prosiectau presennol wrth iddynt wynebu effeithiau cychwynnol yr argyfwng
- rhoddodd le hanfodol i anadlu cyn i ymatebion ehangach llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel ei chynlluniau benthyciadau, ffyrlo a chymorth i fusnesau, gael eu sefydlu. Roedd hyn wedi caniatáu i ni warchod mwy na 2,500 o brosiectau yn y camau datblygu a chyflawni a oedd yn werth mwy nag £1.1biliwn
- rhoddodd gymorth penodol a thargedig i brosiectau yn y camau datblygu a chyflawni, gan roi cyngor a chymorth hyblyg i fodloni eu hanghenion, ar yr un pryd ag ystyried ein cyfrifoldebau fel cyllidwr arian cyhoeddus

Yn bwysig, roedd hefyd wedi caniatáu i'n timau ganolbwyntio ar ddarparu cyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig a ddaeth i'r amlwg yn yr haf 2020, y gwnaethom ei ddarparu trwy Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG).

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, trwy'r CGDG, gwnaethom weithio mewn partneriaeth â Historic England i ddarparu Cronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Treftadaeth. Mae'r gronfa hon, sydd bellach yn dod i gyfanswm o fwy na £2biliwn, wedi helpu'r sector diwylliannol, celfyddydau a threftadaeth ledled y Deyrnas Unedig i ddod drwy waethaf y pandemig. Mae manylion cyfrifyddu llawn wedi'u cynnwys yn adroddiad blynyddol a chyfrifon CGDG.

Mae'r buddsoddiad hwn trwy gyllid gan y Loteri Genedlaethol a chyllid y Trysorlys wedi darparu pecyn cynhwysfawr ar gyfer y sector treftadaeth ledled y Deyrnas Unedig. Mae hefyd wedi caniatáu i ni ddarparu ymyriadau eraill wedi'u seilio ar y Loteri, gan gynnwys:

- cyllid cyflenwol ar gyfer sgiliau a chydnerthedd digidol – meysydd allweddol ar gyfer sefydliadau treftadaeth yn ystod yr argyfwng a gosod sylfeini pwysig y tu hwnt i'r argyfwng COVID-19
- rhaglen cynnydd grant i helpu prosiectau presennol i ymdopi â phwysau costau o fewn eu hanghenion presennol ac yn ystod y ddwy flynedd nesaf
- rhaglen fenthyciadau benodol ar gyfraddau di-log i gynorthwyo sefydliadau sy'n gweithredu yn y sector treftadaeth

Ym mis Chwefror 2021, ailagorom ein holl raglenni agored gyda phwyslais penodol ar ganlyniadau o fewn Fframwaith Ariannu Strategol presennol y Gronfa a fydd yn cefnogi adferiad y Deyrnas Unedig ar ôl y pandemig. Mae hyn wedi dangos cryfder a hyblygrwydd y Fframwaith Ariannu Strategol a'n hagwedd seiliedig ar ganlyniadau at fuddsoddiad seiliedig ar y Loteri. Byddwn yn

dychwelyd i gyllidebau a phortffolio buddsoddi llawn y Loteri yn 2021–22.

Rydym hefyd wedi parhau i arloesi modelau cyllido a buddsoddi newydd ac mae ein gwaith Sbarduno Parciau'r Dyfodol ochr yn ochr â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chyrff partner eraill yn dangos yr awydd a'r angen am yr ymagwedd arloesol hon. Rydym wedi cytuno i ymestyn y rhaglen Sbarduno tan ddiwedd 2022 a buddsoddi mwy yn y prosiectau peilot.

Er gwaethaf yr argyfwng, roeddem wedi gallu ymroi amser, egni ac adnoddau o hyd i'n cydnerthedd a'n cynaliadwyedd sefydliadol ein hunain:

- gloywi ein gwaith cychwynnol ar brosiectau brand a phrosiectau a ddefnyddiwyd a ariannwyd gan y Gronfa i gynorthwyo gweithredwr y Loteri Genedlaethol, sef Camelot, i farchnata pwysigrwydd adenillion i achosion da
- gwella ein canllawiau, ein gwefan a'n cymorth ar-lein ar gyfer ymgeiswyr a grantïon
- cyflymu datblygiad ein System Rheoli Buddsoddiadau newydd, gan gynnwys porth newydd ar gyfer ymgeiswyr a system brosesu newydd sbon. Bydd hyn hefyd yn cynnwys mudo data o'n system rheoli grantiau bresennol. Bydd hyn yn rhoi profiad gwell o lawer i'n cwsmeriaid a phlatfform ar gyfer gwella gwasanaethau digidol yn barhaus
- mae'r dyluniad sefydliadol newydd a roddwyd ar waith ddwy flynedd yn ôl wedi dangos ei gydnerthedd yn wyneb yr argyfwng ac rydym wedi symud ymlaen i ddatblygu ein gwaith diwylliannol mewn meysydd fel fframwaith newydd ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiadau. Bydd fframweithiau recriwtio a rheoli perfformiad newydd wedi'u seilio ar ein hymddygiadau yn cael eu lansio y flwyddyn nesaf hefyd

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'n holl staff yma yn y Gronfa. Maen nhw'n gweithio gyda chryn uniondeb a phroffesiynoldeb, ac yn darparu gwasanaeth rhagorol. Rwy'n falch iawn, er gwaethaf yr holl bwysau a oedd yn gysylltiedig â gweithio gartref drwy'r flwyddyn, eu bod wedi darparu amrywiaeth o raglenni cyllido newydd ar gyfer y Gronfa a llywodraethau, yn ogystal â pharhau i gefnogi'r rhai sydd eisoes wedi derbyn grantiau.

Yn olaf, hoffwn dalu teyrnged i René Olivieri, a ymddiswyddodd fel ein Cadeirydd dros dro ym mis Mawrth 2021, a Perdita Hunt, ein Huwch Gyfarwyddwr Anweithredol, a adawodd y bwrdd eleni hefyd. Maen nhw wedi helpu i'n harwain trwy ein blwyddyn fwyaf heriol erioed ac rydym wedi gwerthfawrogi eu harweinyddiaeth a'u cyngor. Edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda'n cadeirydd newydd, Dr Simon Thurley CBE, a ymgymerodd â'r rôl ar 1 Ebrill 2021.

**Ein diben a'n gweithgareddau**

Caiff Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) ei breinio a'i gweinyddu gan gorff corfforedig o'r enw Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n cynnwys Cadeirydd ac nid mwy na 14 o aelodau eraill a benodwyd gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd CGDG ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 (Deddf 1980) mewn olyniaeth i'r Gronfa Dir Genedlaethol fel coffâd i'r rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau ar gyfer y Deyrnas Unedig. Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan y llywodraeth i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (Deddf 1993), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 (Deddf 1997) a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998 (Deddf 1998).

O dan Ddeddf 1993, daeth CGDG yn gyfrifol am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a glustnodir i dreftadaeth. Rhaid i CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer gweithredu fel dosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Treftadaeth y Loteri (CDL) ar gyfer derbyniadau o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adran 21(1) Deddf 1993, cynhelir cronfa a elwir yn Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) o dan reolaeth a goruchwyliaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Caiff pob swm a geir gan ddaliwr trwydded y Loteri Genedlaethol o dan adran 5(6) ei dalu i'r Ysgrifennydd Gwladol DCMS a'i roi ganddo neu ganddi yn CDdLG. Mae CGDG yn ymgeisio i CDdLG am gyllid i fodloni ei rhwymedigaethau am dalu grantiau'r Loteri a chostau gweinyddu.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 22 Deddf 1993, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS yn dyrannu 20% o'r swm a delir i mewn i CDdLG ar gyfer gwariant ar y dreftadaeth genedlaethol, neu wariant sy'n gysylltiedig â hi.

Mae Adran 23(3) yn sefydlu mai Ymddiriedolwyr CGDG yw dosbarthwyr y gyfran honno. Lleihawyd y dyraniad canrannol i 16⅔% ym mis Hydref 1997 ar ôl i'r Llywodraeth greu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Fe'i cynyddwyd yn ôl i 20% o 1 Ebrill 2012, ar ôl bod ar 18% drwy gydol 2011–12.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS gyda chaniatâd Trysorlys EM yn unol ag adran 35(3) Deddf 1993.

O dan adrannau 3 a 3a Deddf 1980, gall CGDG wneud grantiau a benthyciadau at ddiben caffael, cynnal neu ddiogelu:

i) unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archaeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol
ii) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol
iii) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sy'n gasgliad neu grŵp sydd yn ei gyfanrwydd o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy

Mae Adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd ar ôl hynny) yn ymestyn pwerau'r Ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a gynllunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, gall yr Ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau sy'n anelu at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac anelu at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Rhoddodd Deddf 1998 y pŵer i'r Ymddiriedolwyr ddyfarnu grantiau refeniw i ehangu mynediad i'r dreftadaeth ac i ddirprwyo penderfyniadau am grantiau'r Loteri Genedlaethol i staff a hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn Ymddiriedolwyr.

Gan ddefnyddio arian a godir drwy chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, bydd CDdLG yn ysbrydoli, arwain a darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y Deyrnas Unedig. Bydd newid cadarnhaol a pharhaol yn cael ei greu i bobl a'u cymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Mae gennym eisoes hanes cryf iawn o wneud grantiau ar gyfer treftadaeth, gyda mwy na 26 mlynedd o brofiad o ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol a thimau arbenigol wedi'u lleoli ledled y Deyrnas Unedig. Trwy ein partneriaethau a'n rhaglenni cyllido uchelgeisiol, byddwn yn:

- parhau i fuddsoddi ein hadnoddau mewn gwarchod mwy o asedau treftadaeth a chreu profiadau treftadaeth gwell ledled y Deyrnas Unedig
- dangos a hyrwyddo effaith economaidd, gymdeithasol a chymunedol treftadaeth
- dod â sefydliadau sy'n gweithio ar draws y maes treftadaeth at ei gilydd i rannu gwybodaeth ac adnoddau
- annog ac arwain mwy o arloesedd a chyfleoedd newydd i gynhyrchu incwm ar gyfer treftadaeth

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae CDdLG yn parhau i fod yn un o'r ffynonellau cyllid pwysicaf ar gyfer treftadaeth y Deyrnas Unedig.

**Ein materion a'n risgiau allweddol**

Mae ein gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi wynebu nifer o risgiau nodedig drwy gydol y flwyddyn, ac rydym wedi rheoli'r rhain yn weithredol, ac yn effeithiol, i leiafu'r effaith ar ein hymgeiswyr/grantïon a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â'r Gronfa ei hun.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y risgiau a wynebir gan y sefydliad mewn cyfarfodydd Bwrdd a thrwy'r gwaith craffu manwl a wneir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. O ganlyniad i'r argyfwng COVID-19, addasom ein trefniadau adrodd am risgiau er mwyn adrodd yn amlach ac yn fwy hyblyg i'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg ac uwch aelodau staff. Darparwyd asesiad risg lefel uchel, gyda naratif, statws a data tueddiadau drwy gydol y flwyddyn. Amlinellir y manylion yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 21.

Roedd ein prif risgiau y llynedd yn ymwneud â'r argyfwng COVID-19 a pharhaodd y rhain, er hynny ar wahanol ffurfiau, drwy gydol y flwyddyn. Dosbarthom risgiau yn ymwneud â'r argyfwng yn risgiau allanol a mewnol, gan gydnabod nad yw'r ddau grŵp hyn ar wahân a'u bod yn gorgyffwrdd.

## 1 Risgiau allanol wedi'u seilio ar yr argyfwng

Ein prif risg ar ddechrau'r argyfwng oedd rheoli unrhyw effaith niweidiol ar ein hincwm Loteri. Gweithiom gyda'n hadran noddi (DCMS), gweithredwr y Loteri (Camelot) a holl ddosbarthwyr y Loteri ledled y Deyrnas Unedig i hyrwyddo pwysigrwydd a gwerth adenillion i achosion da ar yr adeg dyngedfennol hon. Rhoddom hwb sylweddol hefyd i'n hymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu ein hunain i atgyfnerthu hyn. Mae'r ymagwedd gydlynol a chyffredinol hon wedi gweithio'n dda, ac mae incwm y Loteri yn fwy na'r amcanestyniadau cyn yr argyfwng. Fel cynlluniau wrth gefn, aethom ati hefyd i fodelu senarios 'beth os' ar gyfer incwm a'r effaith ar hylifedd tymor byr, yn ogystal â'n gallu tymor hwy i ariannu buddsoddiadau presennol a rhai newydd posibl.

Ein hail risg allanol fawr oedd yr angen am gymorth ariannol cyflym yn y sector i gefnogi prosiectau presennol yr oeddem yn eu hariannu. Roedd yn hanfodol i ni warchod ein portffolio buddsoddiadau byw presennol gwerth £1.1biliwn ar draws 2,500 o brosiectau. Er mwyn rheoli nifer o risgiau, gwnaethom y penderfyniad anodd yn gynnar yn ystod yr argyfwng i atal dros dro ein rhaglenni agored a ariennir gan y Loteri a chyfeirio ein hadnoddau cychwynnol (cyllid, staffio ac ati) at ymyrraeth frys i'r sector ar gyfer y prosiectau presennol hyn.

O fewn tair wythnos gyntaf yr argyfwng, comisiynom arolwg ar draws y sector i amlygu materion allweddol a risgiau ariannol a gweithredu i helpu i lywio'r ymateb brys hwnnw. O fewn y cyfnod hwnnw, llwyddom hefyd i drefnu pecyn cyllid brys £50miliwn ar gyfer grantiau o hyd at £50,000 i ddechrau, a estynnwyd i £250,000 wedi hynny, i roi hwb ariannol ar unwaith i grantïon i'w helpu i ymdopi â'r argyfwng. Gweithredodd ein timau cyflawni busnes lleol yn gyflym i helpu grantïon presennol i ailalinio cyllid a grantiau fel y bo'r angen a chefnogi ymgeiswyr a oedd rhan o'r ffordd drwy'r broses ymgeisio. Llwyddodd ein timau polisi a strategaeth hefyd i gasglu gwybodaeth a data ar draws y gwahanol elfennau o'r sector ac ar draws y Deyrnas Unedig i fireinio ein hymateb a'n hymdrech dargedig. Roedd y Gronfa Argyfwng Treftadaeth (CAT) hon hefyd wedi darparu ymyrraeth ar ffurf arian parod tymor byr hollbwysig cyn i gymorth arall ar gyfer prosiectau a chronfeydd eraill y Trysorlys ddechrau. Yna, o'r haf ymlaen, roeddem yn gallu gweithio ochr yn ochr â'n cyllid o'r Trysorlys i greu ymyriadau cyflenwol a ariennir gan y Loteri, fel cynyddu grantiau, benthyciadau a chyllid cydnerthedd.

Ym mis Chwefror 2021, ailagorom raglenni'r Loteri yn ffurfiol, er hynny gyda phwyslais ar ganlyniadau yn ymwneud â'r argyfwng a thu hwnt. Bwriadwn fod â chyfres o raglenni a gyllidir yn llawn ar waith yn 2021–22.

Roedd ein trydedd risg a oedd yn deillio o'r tu allan yn ymwneud â'n sefyllfa hylifedd ac argaeledd arian parod i gefnogi'r ymyriadau. O fewn pythefnos cyntaf yr argyfwng, datblygom fodel llif arian tymor byr i fonitro materion arian parod yn wythnosol, gan gynnwys mewnlif, all-lifoedd, effeithiau ar ymrwymiadau grant ac ati. Bu hyn yn amhrisiadwy wrth gefnogi ein dewisiadau cyllido ac mae wedi lleihau risg y sefyllfa hon yn nodedig.

Ein risg allanol fawr olaf oedd cydnerthedd a chapasiti yn y sector. Er y gwnaethom gydnabod yn gynnar nad oedd yn ymarferol bosibl i ni fynd i'r afael â phob risg, ym mhob rhan o'r sector, ac ar draws pob sefydliad, serch hynny rydym wedi sefydlu pecyn cyffredinol i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r risgiau hyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- ein hymyriadau cyllido a grybwyllwyd uchod
- trefniadau haws i grantïon gyflwyno adroddiadau a cheisiadau am daliadau
- cymorth i grantïon gan ein timau buddsoddi ac ymgysylltu lleol ar draws y Deyrnas Unedig
- sicrhau bod grantiau'n cael eu talu'n brydlon i grantïon
- ailgyfeirio adnoddau penodol o'n Cofrestr Gwasanaethau Arbenigol i dargedu cymorth tuag at brosiectau
- cyngor ac arweiniad i grantïon ar becynnau cymorth ac ymyrraeth

## 2 Risgiau mewnol wedi'u seilio ar yr argyfwng

Ein prif risg yn hyn o beth oedd defnyddio ein Cynllun Parhad Busnes a'r angen i ofyn i bob aelod o staff weithio o bell gartref ac mewn amgylchedd rhithwir. Llwyddom i roi'r holl fesurau hyn ar waith o fewn 48 awr o ofynion y llywodraeth.

Mae ein defnydd o ddyfeisiau symudol, a datrysiadau a chymwysiadau wedi'u seilio ar y cwmwl wedi golygu bod ein holl wasanaethau wedi bod ar gael i'r holl ymgeiswyr a grantïon. Nid oes unrhyw swyddfeydd wedi bod ar agor yn ystod y flwyddyn, ac yn lle hynny mae'r holl staff

wedi cyflawni eu dyletswyddau o bell – gyda chwsmeriaid a chyda chydweithwyr yn fewnol hefyd. Mae'r holl geisiadau, hawliadau am daliadau, a'r taliadau eu hunain wedi cael eu trin o bell. Mae hyn yn berthnasol i grantïon a'n cyflenwyr.

Cafodd y trefniadau yn ein cynllun parhad busnes ar gyfer ein Tîm Rheoli Argyfwng, ein Tîm Parhad Busnes a meysydd gwaith fel parhad TG, cyfathrebu, cymeradwyo ac ati, eu rhoi ar waith yn llawn a heb unrhyw broblemau. Darparom gyfarpar sgrin arddangos i bob aelod o staff, neu gyfarpar arbenigol ar gyfer anghenion gwaith penodol ac addasiadau i weithio gartref.

Roedd ein prif risg fewnol arall wedi cydnabod yn gynnar yn ystod yr argyfwng fod cefnogi iechyd corfforol, iechyd meddwl a lles pob tîm yn mynd i fod yn hollbwysig. Anfonom gyfres o negeseuon iechyd cyhoeddus a diogelu iechyd effeithiol ac a groesawyd, ochr yn ochr â chyfathrebu agored, i sicrhau bod yr holl dimau'n ymwybodol o ddatblygiadau yn ymwneud â chynllunio parhad busnes.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi datblygu a chyflwyno cyfres o becynnau cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles cydweithwyr, gan gynnwys:

- 25+ o fentrau Iechyd Meddwl a Lles
- Sesiynau Ioga a Tai Chi
- Sesiynau myfyrio gofalgar
- Sesiynau aros yn iach gartref
- Sesiynau ymarfer a dosbarthiadau ymarfer corff i blant
- Awgrymiadau da ar gyfer lleihau straen
- Mynediad at bigiadau ffliw

Yn ogystal, darparom absenoldeb hyblyg arbennig i aelodau staff a chanddynt gyfrifoldebau gofalu, fel plant neu berthnasau oedrannus, i'w galluogi i gymryd absenoldeb gyda thâl neu weithio oriau hyblyg i gyflawni eu rhwymedigaethau gofalu.

Gwnaethom hefyd gydnabod bod yr amgylchedd argyfwng wedi cyflwyno risgiau newydd a gwahanol ar gyfer twyll a gwallau, felly rhoddom fesurau diogelu, gwiriadau a rheolaethau helaeth ar waith i leiafu'r risgiau hyn. Rydym yn parhau i fonitro a rheoli'r rhain yn ofalus iawn.

### 3 Prif risgiau eraill

Heblaw am y risgiau seiliedig ar argyfwng, gwnaethom gydnabod risgiau eraill yn ystod y flwyddyn hefyd.

Gallai ailosod trwydded y Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf gyflwyno risgiau posibl i ni o ran incwm, gweithredwr ac ati. Rydym wedi gweithio'n agos trwy Fforwm y Loteri (o ddosbarthwyr y Loteri) i sicrhau bod DCMS a'r Comisiwn Gamblo yn ymwybodol o'r risgiau hyn ac yn deall eu heffeithiau posibl ar ein buddsoddiad. Mae'r gwaith ar baratoi ar gyfer proses dendro'r drwydded gyda'r Comisiwn Gamblo wedi bod yn enghraifft o gydweithio cryf gyda dosbarthwyr eraill y Loteri.

Drwy gydol y flwyddyn, buom yn monitro effeithiau posibl ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar y sector ac arnom ni ein hunain yn ofalus. Rheolom ein risgiau mewnol yn effeithiol yn hyn o beth (staffio, data, cadwyni cyflenwi ac ati) ac ni welsom unrhyw effaith niweidiol yn dilyn yr ymadawiad. Rydym yn parhau i fonitro'r amgylchedd ehangach, e.e. meysydd fel Cymorth Gwladwriaethol, am newidiadau.

Rydym wedi ymateb i'r risg sy'n deillio o'r argyfwng hinsawdd mewn tair ffordd. Yn gyntaf, o ran ail-lunio ein polisïau, ein hymagwedd at fuddsoddi yn ogystal ag ymgymryd â rôl arweinyddiaeth bolisi. Yn ail, o ran ein buddsoddiadau go iawn a'n partneriaethau, rydym wedi sicrhau bod cynaliadwyedd a rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn rhannau canolog o'r rhain. Yn olaf, rydym hefyd wedi sicrhau bod ein hôl troed carbon, ein harferion a'n rheolaeth fewnol yn rheoli'r risg hon yn well.

Yn 2021–22, disgwyliwn gyflwyno ein system rheoli grantiau newydd a dechrau datgomisiynu ein system rheoli grantiau bresennol. Rydym wedi cymryd camau pendant i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â datblygu'r system newydd trwy ei phrofi'n helaeth gyda chwsmeriaid a defnyddwyr mewnol, rheoli cyflenwyr a datblygwyr yn unol â hynny a chynnal rheolaeth effeithiol o gyfanrwydd, diogelwch a gwarchod y data.

Byddwn yn parhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i'r holl risgiau drwy gydol y flwyddyn ac yn sicrhau ein bod yn rheoli'r risgiau hynny'n effeithiol ar bob lefel ar draws y Gronfa.

**Ein strategaeth gorfforaethol 2018–2021**

Mae'r strategaeth gorfforaethol yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer rôl CGDG dros y tair blynedd o 2018 tan 2021. Cymerodd y strategaeth gamau

pellach tuag at sefyllfa arweinyddiaeth gryfach, gan adeiladu ar ein rôl fel y ffynhonnell benodol fwyaf o gyllid ar gyfer treftadaeth ar draws y Deyrnas Unedig. Roedd pwyslais penodol ar gyfleoedd y tu hwnt i roi grantiau yn unig. Yn gynnar yn 2020, aethom ati i adnewyddu'r strategaeth er mwyn iddi gyd-fynd yn agosach â'r Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 – gyda blaenoriaeth newydd i gefnogi treftadaeth ar hyd y pandemig COVID-19, a phwyslais cryfach ar gyfrannu at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, a sicrhau bod ystod ehangach o bobl yn cael eu cynnwys mewn treftadaeth ac yn cysylltu â hi.

Ym mis Mawrth 2020, ataliom ein gwaith arferol o roi grantiau'r Loteri Genedlaethol dros dro i ganolbwyntio ar roi cymorth brys i sefydliadau sy'n gweithio ym maes treftadaeth yr oedd y pandemig wedi effeithio arnynt. Ochr yn ochr â Chronfa Argyfwng Treftadaeth £50miliwn a mesurau eraill i gynnal sefydliadau trwy'r argyfwng, rydym wedi gwneud cynnydd cryf o ran cyflawni'r strategaeth gorfforaethol yn ystod 2020–21. Buom yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu pecynnau adfer digynsail Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig ar gyfer treftadaeth, gan ddosbarthu cyfanswm o £188miliwn o ddyfarniadau ychwanegol a ariannwyd trwy gymorth grant.

Cefnogom achos busnes DCMS ar gyfer y Trysorlys gyda thystiolaeth o effaith ariannol yr argyfwng ac rydym wedi darparu (mewn partneriaeth â Historic England) yn Lloegr: cam 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar gyfer Treftadaeth, sef pecyn £88miliwn o gymorth llif arian ar gyfer sefydliadau tan fis Hydref 2020. Yn ogystal, roedd £15miliwn ar gyfer Cronfa Sbarduno Cyfalaf Treftadaeth i alluogi prosiectau presennol a ohiriwyd gan COVID-19 i ailgychwyn, a £2filiwn i ymgodi dwy raglen cymorth busnes a sgiliau digidol bresennol yn y sector. Wrth i effaith y pandemig barhau, dilynwyd hyn gan gam 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar gyfer Treftadaeth, gyda £44miliwn o gymorth adfer parhaus, ac ym mis Mawrth 2021 cytunwyd ar becyn arall o £40miliwn i gynnal sefydliadau yr effeithiwyd arnynt gan gau a chadw pellter cymdeithasol tan fis Rhagfyr 2021. Yn rhan o'r pecyn adfer, mae DCMS wedi cyfrannu £20miliwn ychwanegol at CGDG i sicrhau dyfodol asedau treftadaeth eithriadol yn Lloegr sydd mewn perygl o ganlyniad i fethiannau sefydliadol oherwydd yr argyfwng COVID-19; mae hyn yn ychwanegol at £20miliwn a ymrwymwyd gan Ymddiriedolwyr at y diben hwn, a rhagfynegir y bydd yr angen am y cymorth hwn ledled y Deyrnas Unedig yn parhau tan o leiaf 2023.

Drwy gydol yr argyfwng, cyflwynodd sefydliadau sy'n gweithio ym meysydd tir a natur (nad oeddent yn gymwys ar gyfer cymorth trwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol), achos fod arnynt angen cyllid prosiect i gynnal cynnydd tuag at nodau hinsawdd y Deyrnas Unedig ac i alluogi sefydliadau anllywodraethol (NGOs) i barhau i weithredu. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â DEFRA i ddarparu Cronfa Her Adferiad Gwyrdd £40miliwn yn Lloegr, a lansiwyd ail gam £40miliwn ym mis Mawrth 2021. Gyda Llywodraeth Cymru, rydym wedi cyflwyno'r rhaglen Meithrin Gallu Adferiad Gwyrdd (£1filiwn) ac wedi cytuno i ddosbarthu'r Gronfa Rhwydweithiau Natur £9.8miliwn gan ddechrau yn y gwanwyn 2021, yn ogystal â chynllun grantiau 'treftadaeth 15 munud' (£680,000).

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym wedi dosbarthu'r Gronfa Adferiad Treftadaeth £5.5miliwn, yn ogystal ag £1filiwn ar gyfer y Gronfa Hanes a Rennir a £200,000 ar gyfer cronfa treftadaeth gymunedol.

Mae ein buddsoddiadau mewn dwy gronfa effaith, sef y Gronfa Effaith Treftadaeth (gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol) a Chronfa Effaith y Celfyddydau a Diwylliant (gyda Nesta ac eraill), yn parhau i gael eu darparu yn rhan o'n strategaeth i ysgogi buddsoddiad ychwanegol yn y sector ac annog sefydliadau sy'n gweithio ym maes treftadaeth i amrywiaethu eu ffrydiau incwm. Ym mis Tachwedd 2020, lansiom raglen fenthyciadau beilot Cydnerthedd ac Adfer, yn cynnig opsiwn cyllid ad-daladwy hyblyg i sefydliadau sy'n ceisio ailosod eu gweithrediadau busnes i adfer ar ôl effeithiau'r pandemig, a chytunom i wneud saith benthyciad a ddaeth i gyfanswm o £758,500, yn ad-daladwy ar gyfradd ddi-log dros gyfnod o chwe blynedd.

Yn rhan o uchelgais ein strategaeth gorfforaethol i ysbrydoli, arwain a darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth y Deyrnas Unedig, ym mis Chwefror 2020 penodom Sefydliad Young fel ein partner arloesi i ddylunio a modelu'r fframwaith arloesi mwyaf priodol ac effeithiol ar gyfer adnabod a blaenoriaethu ymyriadau a fydd yn mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd arloesi allweddol sy'n wynebu'r sectorau treftadaeth a diwylliannol wrth adfer o COVID-19. Disgwyliwn lansio cystadleuaeth

arloesi yn 2021 i gyflwyno ymyriadau a fydd yn cael effaith tymor hir ar raddfa sector a system.

Disgwyliwn barhau i ddarparu arian ar ran Llywodraethau yn ystod 2021–2022 i gefnogi adferiad y sector a lle mae ein harbenigedd o ran rhoi grantiau a'n cyrhaeddiad yn golygu ein bod mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflawni amrywiaeth eang o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer treftadaeth a chymunedau. Yn ddiweddarach yn 2021, byddwn yn datblygu strategaeth gorfforaethol newydd, a fydd yn adeiladu ar y strategaeth a adnewyddwyd yn 2020 ac yn parhau tan 2024, sef diwedd cyfnod y Fframwaith Ariannu Strategol presennol.

**Ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024**
Eleni oedd ail flwyddyn weithredu ein Fframwaith Ariannu Strategol ar gyfer ein holl grantiau Loteri Genedlaethol o 2019 tan 2024. Mae'r Fframwaith Ariannu Strategol yn amlinellu'r weledigaeth a'r egwyddorion sy'n arwain ein proses ariannu ar gyfer oes y fframwaith, gan gynnwys rhaglen agored unigol wedi'i symleiddio ac iddi dair lefel ariannu, datganoli bron pob penderfyniad am grantiau i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'n tair ardal yn Lloegr, a mwy o bwyslais ar natur a thirweddau, treftadaeth gymunedol a threftadaeth sydd mewn perygl.

O ganlyniad i'r argyfwng COVID-19 tua diwedd blwyddyn ariannol 2019–20, penderfynom gau ein rhaglenni agored wrth i ni ganolbwyntio ar helpu treftadaeth y Deyrnas Unedig drwy'r argyfwng. O fis Mawrth 2020 ymlaen, roedd ein holl ymdrechion yn canolbwyntio ar gynorthwyo treftadaeth i addasu ac ymateb i effaith uniongyrchol COVID-19. Mae ein timau gwlad ac ardal ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau treftadaeth leol i'w helpu trwy'r cyfnod anodd iawn hwn. Roedd y cyfnodau cau dilynol o ganlyniad i gyfyngiadau symud ychwanegol yn ystod y gaeaf 2020–2021 wedi dwysáu'r pwysau ariannol ar draws y sector, ac ymatebodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r rhan fwyaf o'r gweinyddiaethau datganoledig gyda phecynnau cymorth digynsail i gynnal sefydliadau trwy 2021 (gweler tudalen 9).

Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020–21, roeddem wedi dosbarthu mwy na £176miliwn i'r sector treftadaeth o ran dyfarniadau a wnaed a £315miliwn o grantiau a dalwyd. Mae hyn yn cynnwys Cronfa Argyfwng Treftadaeth £50miliwn ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, sydd wedi cynorthwyo bron 1,000 o sefydliadau, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Gwnaethom flaenoriaethu cyllid brys ar gyfer treftadaeth sy'n wynebu'r risg fwyaf, gan gynnwys diogelu'r grantiau rydym eisoes wedi'u gwneud. Gwnaethom hyn drwy barhau i gefnogi mwy na 2,000 o brosiectau sydd wrthi'n cael eu datblygu a'u cyflawni lle mae ein hymrwymiadau grant a'n rhwymedigaethau amodol cysylltiedig yn dod i gyfanswm o fwy nag £812miliwn. O ran y rhai hynny sy'n cael eu datblygu, gwnaethom barhau i wneud penderfyniadau ar grantiau cyflawni – er enghraifft, grantiau mawr ar gyfer ffowndri Cloch Loughborough a Phont Gludo Casnewydd.

O ganlyniad i'n grantiau trwy'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth, cynhaliwyd rhwng 2,422 a 3,094 o rolau treftadaeth cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol gan ein grantiau, roedd rhwng 1,422 a 1,922 o staff wedi gallu dychwelyd o ffyrlo i gynyddu'r gallu i gyflawni gweithrediadau hanfodol, a chefnogwyd rhwng 14,694 a 29,186 o rolau gwirfoddoli yn uniongyrchol.

Ym mis Tachwedd 2020, ailagorom ein cyllid prosiect ar gyfer grantiau hyd at £100,000 sy'n canolbwyntio ar ein canlyniadau cydnerthedd a chynhwysiant, gan gydnabod bod llawer o brosiectau sy'n ceisio cynyddu cynhwysiant mewn treftadaeth wedi cael eu hoedi ar ddechrau'r pandemig a bod angen cymorth ychwanegol ar lawer o sefydliadau i ailganolbwyntio eu gweithgareddau a'u cynlluniau.

Ym mis Chwefror 2021, ailagorom ein cyllid prosiect yn llawn ar gyfer grantiau hyd at £5miliwn, gan ddychwelyd i'n busnes Loteri Genedlaethol craidd – ond nid dychwelyd i ddull 'busnes fel arfer' cyn COVID-19. Wrth i ni ailadeiladu, bydd ein cyllid a'n harbenigedd yn helpu sefydliadau treftadaeth i addasu i amgylchiadau sydd wedi newid yn sylfaenol, archwilio eu modelau busnes presennol yn ofalus a datblygu ffyrdd newydd, creadigol a mwy cydnerth o weithredu. Trwy ein cyllid a'n cymorth ar gyfer treftadaeth yn y dyfodol, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau sy'n:

- hybu'r economi leol
- creu swyddi ac annog datblygu sgiliau
- cefnogi iechyd a lles lleol
- cryfhau cydnerthedd sefydliadau treftadaeth
- sicrhau bod mannau lleol a chymunedau'n gallu ffynnu

Yn hollbwysig, byddwn eisiau i'r holl bartneriaid rydym yn gweithio gyda nhw ar brosiectau ddangos cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol tymor hir yn rhan o'u cynlluniau.

Mwy na blwyddyn ers i'r pandemig ddechrau, mae'r rhagolwg ar gyfer ein hiechyd a'n heconomi'n parhau i fod yn ansicr, ond mae'r ffaith bod y brechlyn wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno'n gyflym yn rhoi gobaith. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraethau, mewn partneriaeth ag asiantaethau treftadaeth blaenllaw fel Cadw a Historic England, i ddarparu'r cymorth y mae ei angen ar dreftadaeth y Deyrnas Unedig i gyflawni adferiad parhaus yn 2021–22.

**Busnes gweithredol**

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol fel y mynnir gan safonau cyfrifyddu rhyngwladol. Nid oes gan yr ymddiriedolwyr unrhyw reswm i gredu bod gan y llywodraeth unrhyw gynlluniau i newid canran arian achosion da'r Loteri Genedlaethol a dderbynnir gan CGDG nac i newid dosbarthwyr arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol.

Dilysodd yr Adolygiad wedi'i Deilwra yn 2017 y gofyniad am rôl CGDG wrth ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol a'i gyflwyniad parhaus gan gorff cyhoeddus anadrannol ac ni wnaeth unrhyw argymhellion i newid y ganran o gyllid gan y Loteri Genedlaethol a dderbynnir gan CGDG. Hysbyswyd yr ymddiriedolwyr gan DCMS, yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth. At hynny, cododd DCMS y gyfran dreftadaeth o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012. Mae effaith y pandemig COVID-19 yn barhaus. Fodd bynnag, nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm i gredu na fydd eu prif ffynhonnell incwm – y Loteri Genedlaethol – yn parhau i gynhyrchu symiau rhesymol ar gyfer y Gronfa. Gostyngodd lefelau incwm pan roddwyd y cyfnod clo ar waith yn y lle cyntaf, ond erbyn hyn mae'r symiau wedi dychwelyd i'r lefelau arferol. Roeddem wedi aros ar agor am fusnes yn ystod y cyfnod clo ac wedi gallu darparu gwasanaeth llawn i'r sector treftadaeth. Gan hynny, nid oes gan y Bwrdd unrhyw reswm i gredu na fydd y Gronfa'n parhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

**Crynodeb o berfformiad**

Mae'r manylion yn yr adran hon a'r dangosyddion perfformiad allweddol ar dudalen 13 yn dangos ein bod wedi cyflawni neu ragori ar y mwyafrif o'n mesurau perfformiad yn 2020–21. Rhoddir manylion ein perfformiad yn erbyn ein targedau lefel gwasanaeth ar dudalen 10. O ganlyniad i'r pandemig, ataliom dros dro lawer o'n gwaith dosbarthu'r Loteri, gan ganolbwyntio ar ddyfarniadau presennol a darparu rhaglenni argyfwng a ariennir gan gymorth grant. Oherwydd hynny, nid oedd llawer o'r targedau lefel gwasanaeth yn berthnasol i'n gweithgareddau yn 2020–21, felly nid ydym wedi adrodd arnynt eleni. Ar yr adeg ysgrifennu, disgwyliwn y bydd y targedau lefel gwasanaeth hyn yn berthnasol eto yn 2021–22, felly byddwn yn eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno.

## Dadansoddiad o berfformiad

Mae CGDG yn gweithredu dwy gronfa: ei chronfa cymorth grant wreiddiol (CGDG) a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol (Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (CDLG)). Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS, mae'n ofynnol iddi gyfrif am y gweithgareddau hyn ar wahân, ac felly ni pharatoir unrhyw gyfrifon cyfunol. Dim ond gweithgareddau dosbarthu arian Loteri Genedlaethol CGDG y mae'r adolygiad hwn yn eu trafod. Diben yr adran hon yw trafod perfformiad CGDG wrth ddosbarthu arian a ddeilliodd o'r Loteri Genedlaethol yn 2020–21. Mae'r dadansoddiad isod yn trafod uchafbwyntiau'r flwyddyn, gan gynnwys symudiad sylweddol ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, yn ogystal â rhai dangosyddion perfformiad allweddol.

Mae CGDG yn cael ceisiadau am arian y Loteri Genedlaethol gan filoedd o sefydliadau ar draws holl gymunedau'r Deyrnas Unedig ac yn dyfarnu grantiau ar sail ei nodau. Ers i'r Loteri Genedlaethol ddechrau ym 1994, rydym wedi derbyn dros 58,000 o geisiadau yn gofyn am £23.7biliwn. Fodd bynnag, roedd y nifer a dderbyniwyd yn 2020–21 yn sylweddol is na blynyddoedd blaenorol. Y rheswm am hyn oedd oherwydd ein penderfyniad i atal ein gweithrediadau arferol dros dro a newid i un rhaglen argyfwng a ariennir gan y Loteri – y Gronfa Argyfwng Treftadaeth – a gweithredu nifer o raglenni a ariennir gan gymorth grant (mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhrif gyfrifon CGDG). Rydym yn falch o ddweud ein bod bellach wedi ailddechrau ein gweithgarwch Loteri safonol, er ein bod yn llwyr ymwybodol na fydd y sector

## Perfformiad targed lefel gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021

| | **Blwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2021** | Blwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| 1 Bydd penderfyniadau'n cael eu rhoi ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o fewn 20 niwrnod gwaith o gyfarfod y bwrdd. | **Gweler nodyn 1** | 32% |
| 2 Bydd taliadau grant yn cael eu gwneud i'r ymgeisydd o fewn naw diwrnod gwaith o dderbyn y cais am daliad, ar gyfartaledd. | **Gweler nodyn 2** | 63% (6 diwrnod ar gyfartaledd) |
| 3 Byddwn yn cynnal arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus ac yn ceisio sicrhau bod o leiaf 80% o'n cwsmeriaid yn fodlon â'n prosesau asesu. | **Gweler nodyn 3** | Gweler nodyn 3 |
| 4 Byddwn yn cynnal arolwg tebyg o'r rhai rydym wedi dyfarnu grantiau iddynt ac yn ceisio sicrhau bod o leiaf 85% o'n cwsmeriaid yn fodlon â'n prosesau monitro ac ôl-ddyfarnu. | **Gweler nodyn 3** | Gweler nodyn 3 |
| 5 Bydd o leiaf 87% o ymgeiswyr yn credu bod gwefan CDdLG yn hawdd ei defnyddio. | **Gweler nodyn 3** | Gweler nodyn 3 |
| 6 Byddwn yn hyrwyddo detholiad eang o'n dyfarniadau trwy'r cyfryngau, er mwyn creu ymwybyddiaeth ymhlith ymgeiswyr posibl a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. | **Wedi'i fodloni (Gweler nodyn 4)** | Wedi'i fodloni (Gweler nodyn 4) |

Nodyn 1: Nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon mwyach. At hynny, roedd newid i'n system o lanlwytho penderfyniadau i'n gwefan yn 2015–16 yn golygu na allem gyrraedd y targed a osodwyd i ni yn ein cytundeb rheoli gyda DCMS mwyach.

Nodyn 2: Fel y trafodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn, rydym ar fin newid ein holl waith prosesu grantiau i system newydd wedi'i theilwra – y System Rheoli Buddsoddiadau. Un o ganlyniadau'r newid hwn yw na allwn gynhyrchu nifer o adroddiadau ystadegol mwyach, felly nid oes data am gyflymder prosesu taliadau grant ar gael mwyach. Bwriadwn ailddechrau adrodd am y niferoedd hyn pan fydd y newid wedi'i gwblhau.

Nodyn 3: Yn 2020–21, treialodd y Gronfa ddull newydd o gael adborth gan gwsmeriaid ac mae'r ffigur hwn yn ymwneud â lefel bodlonrwydd grantïon y Gronfa Argyfwng Treftadaeth (CAT): roedd 93 y cant o'r farn bod eu profiad o'r grant CAT yn gyffredinol yn "dda iawn", ac roedd 92 y cant yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' â'r datganiad bod "y broses ymgeisio'n syml". Roedd y treial hwn wedi integreiddio adborth gan gwsmeriaid yn ein prif broses gwneud grantiau a chyfathrebu ar gyfer CAT. Bydd y dull hwn bellach yn cael ei gynnwys yn ein System Rheoli Buddsoddiadau newydd, sy'n golygu y byddwn yn gofyn am adborth gan bob ymgeisydd ar adeg y penderfyniad neu ar ddiwedd y prosiect. Disgwyliwn i hyn ddod yn rhan o'n proses safonol yn ystod 2021–22.

Nodyn 4: Yn ystod 2021–21, cyrhaeddom dros 36 miliwn o bobl trwy'r cyfryngau mewn chwarter cyffredin – 2 filiwn yn uwch fesul chwarter na 2019–20. Denodd ein gwefan 583,000 o ddefnyddwyr mewn chwarter nodweddiadol, ac roedd mwy na 195,000 o'r rheiny wedi darllen ein cynnwys newyddion a'n straeon. Cyrhaeddodd ein sianel Twitter gorfforaethol 7,056,849 o argraffiadau a 140,501 o ymgysylltiadau yn ystod y flwyddyn. Ar draws pob un o'r sianeli cyfryngau cymdeithasol rydym yn berchen arnynt, cyrhaeddom nifer gyfunol o 12,007,547 o argraffiadau a 264,511 o ymgysylltiadau a chynyddodd gyfanswm ein dilynwyr i 19,200 – sef 4,800 fesul chwarter ar gyfartaledd.

treftadaeth yn dychwelyd i weithredu'n arferol am nifer o flynyddoedd, os o gwbl.

Bu 2015–16 yn flwyddyn ysgubol o ran gwerthiannau tocynnau'r Loteri Genedlaethol, a chyrhaeddodd ein hincwm £388miliwn. Yn y tair blynedd ddilynol, roedd incwm yn sefydlog ar tua £325miliwn. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth economyddion annibynnol a gomisiynwyd gan y Comisiwn Hapchwarae ragolygon pesimistaidd am y lefel incwm debygol yn y tymor canolig.

Ein polisi hyd at yr adeg honno oedd cynyddu cyllidebau dyfarnu grantiau i'r eithaf, ond perodd y gwaith ymchwil hwn i ni deimlo bod rhaid i ni gwtogi cyllidebau er mwyn diogelu ein portffolio presennol o brosiectau byw lle'r oedd ein cronfeydd arian parod wrth gefn yn llai na thraean o'n rhwymedigaethau grant a oedd yn weddill. Roedd y gwaith ymchwil hwn, ynghyd â dechrau'r pandemig, wedi peri i ni fod yn besimistaidd am lefelau incwm. O ganlyniad, cawsom ein siomi ar yr ochr orau i dderbyn incwm o £363miliwn o'r Loteri Genedlaethol yn 2020–21. Mae'r ffigur hwn yn fwy na'r £355miliwn a gawsom y llynedd. Er bod rhybuddion yr economegwyr yn ymddangos cyn pryd, rydym yn parhau i fod yn ochelgar oherwydd sylweddolwn fod trwydded weithredu bresennol gweithredwr y Loteri Genedlaethol, sef Camelot, yn dod i ben. Fe allai ei olynydd, pwy bynnag y bo, fod yn llai llwyddiannus, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, oherwydd fe allai'r broses drosglwyddo achosi aflonyddu.

Am y tro cyntaf ers ychydig flynyddoedd, nid oedd ein taliadau grant a'n taliadau gweinyddu yn ystod y flwyddyn yn fwy na swm ein hincwm o'r Loteri. Y canlyniad terfynol yw bod ein balansau arian parod cyffredinol (arian parod yn y banc yn ogystal ag arian parod yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri

Genedlaethol – CDdLG) wedi cynyddu £21miliwn i £333miliwn. Mae hyn yn gyfystyr ag oddeutu blwyddyn o daliadau grant.

Byddwn yn parhau i fonitro patrymau incwm a thaliadau grant i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi ein rhwymedigaethau yn y tymor canolig i'r tymor hir wrth i ni geisio rhoi trefn ar gronfeydd wrth gefn, incwm a threuliau. Mae'r siart isod, sy'n manylu ar ein balans yn y CDdLG, yn dangos graddau'r gostyngiad mewn cronfeydd a oedd ar gael yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae tystiolaeth o duedd sy'n gwella. Mae amcanestyniadau llif arian yn dangos y dylai ein polisi diweddar, sef gosod cyllidebau dyfarnu grantiau ychydig yn is na'r incwm a ragwelir, achosi i'n balansau arian parod ddychwelyd i lefel fwy iach yn y tymor canolig. Rydym yn parhau i fonitro effaith argyfwng y coronafeirws yn ofalus ar incwm, taliadau a balansau arian parod.

Gostyngodd incwm buddsoddiadau a enillwyd gan y CDdLG yn sylweddol o £1.7miliwn i £212,000. Yr adenillion ar fuddsoddiadau yn y CDdLG oedd 0.1%, tra bu'n 0.72% yn 2019–20. Fel y rhagfynegwyd yn yr adroddiad blynyddol diwethaf, roedd y gostyngiad yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr tua diwedd 2019–20, ynghyd â gostyngiadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn, wedi cael effaith negyddol sylweddol.

Mae arenillion giltiau yn parhau i fod yn isel, a dyna sy'n gyfrifol am yr adenillion incwm isel o fuddsoddiadau, gan fod y CDdLG yn cael ei buddsoddi mewn ystod gul o fuddsoddiadau risg isel, arenillion isel. Nid oes gan yr ymddiriedolwyr unrhyw ddylanwad dros y polisi buddsoddi, sy'n cael ei osod gan DCMS. Rydym yn cael 20% o adenillion buddsoddiadau'r CDdLG, ni waeth beth fo balans ein cronfeydd.

Gostyngodd lefel y rhwymedigaethau grant newydd a grëwyd yn sylweddol o £252miliwn i £176miliwn. Roedd y gostyngiad yn gwbl ddisgwyliedig gan ein bod wedi rhoi'r gorau i roi grantiau yn y ffordd arferol o ganlyniad i'r pandemig. Yn lle hynny, newidiom ein pwyslais i wneud dyfarniadau argyfwng gan ddefnyddio cronfeydd a oedd yn deillio o'r Loteri Genedlaethol ac o ffynonellau ariannu eraill. Mae'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn yn perthyn i gategorïau'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth. Dyna oedd ein hymateb uniongyrchol i'r pandemig. Dyfarnom £50miliwn i dderbynyddion blaenorol ein grantiau Loteri.

Trosom lawer o'n rhwymedigaethau amodol (a adwaenir fel pas rownd un) a grëwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn ddyfarniadau llawn. Roedd hyn oddeutu £93miliwn.

Gwnaethom gyfraniadau gan y Loteri at brosiectau a ariennir trwy ein cronfeydd cymorth grant hefyd. Roedd dyfarniadau penodol o dan raglenni Cicdanio Cyfalaf, Llywodraeth Cymru a digidol wedi elwa o arian y Loteri hefyd.

Er nad ein dewis ni ydoedd, mae'r gostyngiad a orfodwyd mewn dyfarniadau wedi golygu bod ein cyllid tymor hir wedi gwella a'n bod mewn sefyllfa i gynyddu ein cyllidebau dyfarnu grantiau wrth symud ymlaen. Wedi dweud hynny, gan na wnaed unrhyw basiau rownd un yn ystod y flwyddyn, bydd lefel debygol y dyfarniadau a wneir yn 2021–22 yn gostwng gan fod llai o basiau rownd un i'w trosi'n ddyfarniadau llawn ar hyn o bryd. Balans y pasiau rownd un ar 31 Mawrth 2019 oedd £286miliwn; ddwy flynedd yn ddiweddarach, y balans yw £116miliwn.

Roedd lefel y dadymrwymiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn yn isel, sy'n foddhaol. Gostyngodd lefel y dadymrwymiadau ychydig o £9miliwn i £7miliwn. Targedom lawer o'n dyfarniadau at gynorthwyo grantïon a phrosiectau presennol, a bydd hyn wedi helpu i gadw lefel y dadymrwymiadau'n isel. Mae'n bosibl y bydd y pandemig yn parhau i gael effaith yn ystod y blynyddoedd i ddod, ond rydym wedi ymrwymo o hyd i helpu'r prosiectau treftadaeth rydym wedi'u cynorthwyo dros y blynyddoedd.

Gostyngodd falans rhwymedigaethau grant yn sylweddol o £843miliwn i £696miliwn. Y rheswm dros hyn, yn syml, oedd oherwydd bod gwerth dyfarniadau newydd net yn is o lawer na gwerth y taliadau grant. Roedd gwerth darpariaethau i ni beidio â thalu'r holl rwymedigaethau hyn yn parhau i fod yn gyson, sy'n golygu mai'r rheswm a roddwyd uchod yn unig sy'n gyfrifol am y gostyngiad cyffredinol mewn rhwymedigaethau a adroddwyd.

Rydym yn creu darpariaethau sy'n gostwng gwerth rhwymedigaethau grant sy'n weddill mewn dwy sefyllfa:

1) pan fyddwn yn gwybod na fydd y grantî yn gofyn am rywfaint o'i grant, neu'r cyfan ohono, mwyach; a
2) phan fu cyfnod hir o ddistawrwydd gan y grantî a allai fod yn arwydd bod y prosiect wedi dod i ben. Wrth gwrs, nid yw hwn yn grefft fanwl gywir, ond mae'n ymgais i sicrhau

bod y rhwymedigaeth grant a adroddir yn agosach at y swm tebygol y byddwn yn ei dalu yn y pen draw.

Gostyngodd lefel y taliadau grant oddeutu 11% – o £355miliwn i £315miliwn – er yr arhosodd yn gyson fel canran o'r balans rhwymedigaethau agoriadol. Roeddem yn falch o allu parhau i wneud taliadau grant er gwaethaf yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig. Ni effeithiwyd ar ein cyflymder wrth wneud taliadau.

Gan gymryd yr holl rwymedigaethau gwirioneddol ac amodol i ystyriaeth, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roeddem wedi ymrwymo dros £0.48biliwn, ar ôl darpariaethau (ar 31 Mawrth 2020: £0.76biliwn), yn fwy nag yr oedd gennym yn CDdLG. Mae'r lefel rhwymedigaethau a rhwymedigaethau amodol hon yn golygu bod gennym ymrwymiadau sy'n gyfwerth â 2.2 flynedd o incwm (ar 31 Mawrth 2020: 3 blynedd). Er gwaethaf yr incwm uchel a'r lefel gymharol isel o ddyfarniadau, roedd ein balans rhwymedigaethau contract yn sylweddol uwch na'n hasedau net ac roedd diffyg net ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol o £352miliwn ar 31 Mawrth 2021.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod bod monitro llifoedd arian tymor hir yn bwysig iawn gan fod y prosiectau rydym yn rhoi grantiau iddynt fel arfer yn cymryd blynyddoedd lawer i'w cwblhau. Nid oes unrhyw warant ynglŷn â'n cyllid gan DCMS na sicrwydd ynglŷn â faint o gyllid y bydd y Loteri Genedlaethol yn ei gynhyrchu ar ein cyfer. Felly, mae'r ymddiriedolwyr wedi dyfeisio cymarebau arweiniad ynglŷn â lefelau'r ymrwymiadau sy'n weddill, arian parod ac incwm disgwyliedig. Oherwydd y gwymp nad oedd modd ei rhagweld mewn incwm yn 2016–17, rhoddwyd blaenoriaeth i'r cymarebau hyn yn ein cynllunio; sefydlogodd y gwymp mewn incwm mewn blynyddoedd dilynol ac mae wedi gwrthdroi yn rhannol yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r cymarebau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i'n ffordd o weithio a'r amgylchedd allanol (gweler y tabl cymarebau isod). Mae'r rhan fwyaf o gymarebau mewn sefyllfa y teimlwn yn gyfforddus â hi; er hynny, erys ein balansau arian parod yn sylweddol islaw'r lefel yr ydym ei heisiau ac felly byddwn yn parhau â'n polisi o bennu cyllidebau dyfarniadau islaw'r lefel incwm ddisgwyliedig. Mae'r cyfeiriad y mae ein balansau arian parod yn mynd iddo yn galonogol.

Gostyngodd ein costau gweithredu'n sylweddol – sef gostyngiad o 34% – yn ystod y flwyddyn wrth i ni symud ein hymdrechion tuag at ddosbarthu gweithgarwch nad yw'n ymwneud â'r Loteri. Bu'n flwyddyn anodd i osod cyllidebau gweinyddol a gwneud rhagolygon oherwydd bod y broses o sefydlu rhaglenni ariannu argyfwng yn gyfan gwbl allan o'n rheolaeth. Oherwydd ein henw da fel rhoddwr grantiau effeithiol ac effeithlon, denom gronfeydd gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Fel arfer, roedd angen dybryd am y rhaglenni argyfwng hyn, sy'n gwbl resymol, felly teimlwyd na fyddai'n ddoeth cynnig ein cyfres safonol o raglenni Loteri yn ystod y cyfnod hwn, sy'n esbonio'r gostyngiad sylweddol yn ein gweithgarwch Loteri. Parhaom i wneud taliadau grant i'n dyfarniadau presennol a gwnaethom lefel resymol o ddyfarniadau newydd hefyd. Mae'n rhaid i ni dderbyn nad oedd eleni'n flwyddyn arferol, ac na fydd yn fuddiol iawn cymharu lefelau gwariant â blynyddoedd blaenorol a, gobeithiwn, blynyddoedd i ddod.

Trosglwyddwyd staff sydd fel arfer yn gweithio ar weithgareddau'r Loteri yn unig i weithio ar yr

| Cymhareb | Amrediad targed | **Ar 31 Mawrth 2021** | Ar 31 Mawrth 2020 | Ar 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm ymrwymiadau i incwm | Uchafswm yn yr amrediad 4.4:1 i 4.6:1 | **2.2:1** | 3.0:1 | 3.8:1 |
| Ymrwymiadau net i incwm (h.y. cyfanswm ymrwymiadau llai arian parod) | Uchafswm yn yr amrediad 3.0:1 i 3.2:1 | **1.3:1** | 2.1:1 | 2.8:1 |
| Ymrwymiadau caled i arian parod | Uchafswm yn yr amrediad 2.3:1 i 2.5:1 | **2.1:1** | 2.7:1 | 2.8:1 |
| Arian parod yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | Yn yr amrediad £400miliwn i £500miliwn | **£329miliwn** | £309miliwn | £338miliwn |

amryw raglenni cymorth grant, ar yr un pryd â chynnal eu portffolio o brosiectau Loteri gweithredol. O ganlyniad, gweithiodd ein staff rheng flaen ar waith y Loteri a gwaith nad oedd yn ymwneud â'r Loteri a bu'n rhaid i ni sefydlu system i gofnodi'r amser hwn, cyfrifo ffigur gorbenion cysylltiedig ac ailgodi'r gost am y rhaglenni cymorth grant. Ar rai adegau, pan oedd y llwyth gwaith ar ei drymaf, bu'n rhaid i ni gyflogi contractwyr o'r tu allan i helpu i brosesu ceisiadau.

Gwelir tystiolaeth sy'n dangos bod eleni'n wahanol i'r blynyddoedd diwethaf yn y siart o'r teitl "Costau gweithredu gwirioneddol o gymharu â chostau chwyddedig 2003–04 fesul blwyddyn" a thrwy'r ffaith ein bod wedi cyrraedd y targed effeithlonrwydd a osodwyd gan DCMS yn rhwydd (gweler tudalen 15 am fwy o wybodaeth). Wrth i ni ddychwelyd i normalrwydd, bydd y targedau hyn yn fwy heriol o lawer.

Roedd nifer y prosiectau sy'n destun monitro (prosiectau heb eu cwblhau sydd wedi derbyn dyfarniadau) wedi codi'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r nifer wedi gostwng yn ddiweddar wrth i'n cyllideb dyfarnu grantiau leihau. Nifer y prosiectau byw ar 31 Mawrth 2021 oedd ychydig dros ddwy fil, ond bydd y ffigur hwn yn codi yn y blynyddoedd i ddod wrth i'n cyllidebau grant gynyddu.

Yn ogystal ag ailgodi costau ar ein gweithgareddau cymorth grant yn ystod y flwyddyn, roedd ein costau gweithredu hefyd wedi elwa o gyfraniad gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol tuag at gost cynnal y rhaglen Parciau i Bobl, y mae'n cyfrannu rhywfaint o arian grant ati hefyd. Gostyngodd ei chyfraniad ychydig o £234,000 i £201,000. Nid yw'r rhaglen yn derbyn ceisiadau newydd mwyach, ond mae pum deg chwech o brosiectau byw o hyd. Bydd y cyfraniad yn gostwng yn y blynyddoedd i ddod a rhagwelwn y bydd y grant terfynol yn cael ei dalu yn ystod 2025–26.

### Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae gan CGDG enw da fel dosbarthwr arian Loteri effeithlon. Mae'r llinell ddu ar y siart isod yn amlinellu ein costau gweithredu ym mhob un o'r blynyddoedd diwethaf. Mae'r llinell lwyd yn dangos gwerth costau gweithredu yn ystod ein blwyddyn sylfaen (2003–04) – y flwyddyn lawn gyntaf pan wnaethom weithredu o ystod lawn o swyddfeydd wedi'u gwasgaru ar draws gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig – mae'r swm yn cynyddu yn unol â datchwyddydd cynnyrch domestig gros (GDP) Trysorlys EM, sef amcangyfrif o'r lefel chwyddiant gyffredinol yn economi'r Deyrnas Unedig. Mae'r gostyngiad mawr yn ein costau gweithredu ynghyd â pherfformiad gwael yr economi yn ystod y pandemig wedi arwain at welliant enfawr ac artiffisial yn ein ffigurau. Disgwyliwn y bydd lefel y costau'n adfer yn 2021–22.

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae newid gweithgareddau o fod yn ddosbarthwr arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol bron yn gyfan gwbl i ddosbarthu lefelau sylweddol o gymorth grant wedi golygu bod ein costau dosbarthu'r Loteri wedi gostwng. Mae hyn yn arbennig o amlwg o gymharu â'r llynedd, pan oedd ein costau'n uwch oherwydd cost ad-drefnu mewnol o dan nawdd ein strategaeth gorfforaethol. Mae'r tabl isod yn dangos canran ein costau yn erbyn incwm y Loteri ac yn datgelu gostyngiad sylweddol am y rhesymau a roddwyd.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod na ddylai dosbarthu arian y Loteri yn effeithlon fod ar draul gwasanaeth i'n cwsmeriaid. Maen nhw'n falch o adrodd ein bod yn parhau i gyflawni llawer o'n targedau er gwaethaf yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig COVID-19. Sylweddolwn nad yw llawer o'r targedau hyn wedi newid am nifer o flynyddoedd ac rydym yn archwilio a fyddai dangosyddion eraill yn fwy priodol i'w datgelu yn y dyfodol, yn enwedig rhai wedi'u trefnu o amgylch ein strategaeth gorfforaethol a'n fframwaith ariannu strategol. Mae rhagor o wybodaeth am ein targedau lefel gwasanaeth ar gael ar dudalen 10.


### Symiau taladwy

Mae CGDG yn glynu wrth y safon llywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, sy'n datgan y dylai pob bil dilys gael ei dalu o fewn 30 niwrnod. Yn 2020–21,


Yn 2020–21, roedd ein costau gweithredu fel cyfran o'n hincwm fel a ganlyn:

| | Targed | Gwirioneddol 2020–21 | Gwirioneddol 2019–20 | Gwirioneddol 2018–19 | Gwirioneddol 2017–18 | Gwirioneddol 2016–17 | Gwirioneddol 2015–16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant gweithredu fel cyfran o gyfanswm yr incwm | **8%** | **5.0%** | 7.7% | 6.9% | 6.6% | 6.9% | 5.2% |


Balans ein cronfeydd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn ôl blwyddyn (£miliwn)





Gwerth taliadau grant yn ôl blwyddyn (£miliwn)




Prosiectau sy'n cael eu monitro yn ôl blwyddyn (nifer)



## Costau gweithredu gwirioneddol o gymharu â chostau chwyddedig 2003–04 yn ôl blwyddyn (£miliwn)




oedran cyfartalog anfonebau a dalwyd oedd deng niwrnod gwaith (2019–20: naw niwrnod gwaith). Talwyd dros 92% o anfonebau o fewn 30 niwrnod calendr (2019 –20: 91%).

Ffordd arall o fesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr yw'r gymhareb diwrnodau credydwr – cymhareb y symiau taladwy masnachol ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth y pwrcasiadau yn y flwyddyn wedi'i mynegi yn nhermau diwrnodau calendr. Ar 31 Mawrth 2021, y ffigur oedd 30 niwrnod (2019–20: 41 diwrnod). Mae'r ffigur diwrnodau credydwr yn llawer uwch ar ddiwedd y flwyddyn nag ar adegau eraill oherwydd ein bod yn annog cyflenwyr i gyflwyno eu hanfonebau cyn i'r flwyddyn ddod i ben, ac mae hyn yn golygu y ceir ymchwydd yn nifer yr anfonebau a dderbynnir ar ddechrau mis Ebrill.

### Polisïau amgylcheddol ac adrodd ar gynaliadwyedd

#### Cyflwyniad

Mae cynaliadwyedd wedi bod yn rhan annatod o weithrediadau ac ymagwedd y Gronfa ers blynyddoedd lawer. Mae Fframwaith Ariannu Strategol y Loteri Genedlaethol yn amlinellu ein hymrwymiad i fynnu bod pob ymgeisydd am arian y Loteri yn dangos effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, a "Chwarae ein rhan i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd" yw un o ganlyniadau allweddol ein strategaeth gorfforaethol.

Rydym wedi mabwysiadu Datganiad ar y Cyd y Sector Treftadaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd, gan ymrwymo i gyrraedd allyriadau sero-net erbyn 2050. O ran ein gweithrediadau ein hunain, rydym wedi ymrwymo i gyrraedd sero-net erbyn 2030. I'n helpu ar y daith hon, rydym wedi penodi Rheolwr Newid Hinsawdd, datblygu cynllun ymgysylltu â staff a chynnwys cynaliadwyedd yn ein ffordd o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r dychweliad arfaethedig i swyddfeydd.

Yn 2020–21, mae'r Gronfa wedi cynorthwyo'r llywodraeth ganolog i ddosbarthu £40miliwn o gyllid yn rhan o'r Gronfa Her Adferiad Gwyrdd. Yng Nghymru, rydym wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddosbarthu arian i 27 o brosiectau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Mae hyn yn ogystal â phedwar grant Coetir Cymunedol; gan ymestyn ein cyrhaeddiad a'n cefnogaeth ymhellach i wella a chynyddu ein hamgylcheddau naturiol.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gweld llawer o werth dyrannu adroddiadau cynaliadwyedd rhwng eu gweithgareddau cymorth grant a'u gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol. O ganlyniad, mae'r wybodaeth isod yn cwmpasu holl weithgareddau CGDG.

Mae ein defnydd o gyfleustodau a'n teithiau busnes wedi lleihau'n aruthrol eleni o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Nid ydym wedi meddiannu ein lle swyddfa yn ystod blwyddyn

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| | | **2020–21** | 2019–20 | 2018–19 |
|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Allyriadau cwmpas 1 ($tCO_2e$) | **14** | 50 | 148 |
| | Allyriadau cwmpas 2 ($tCO_2e$) | **36** | 203 | 73 |
| | Allyriadau cwmpas 3 ($tCO_2e$) | **9** | 167 | 142 |
| | Cyfanswm allyriadau gros ($tCO_2e$) | **59** | 420 | 363 |
| Defnydd o ynni a dŵr | Trydan (kWh) | **58,301** | 794,149 | 257,464 |
| | Nwy (kWh) | **76,429** | 270,794 | 805,341 |
| | Dŵr ($m^3$) | **2,434** | 4,820 | 3,455 |
| Gwariant (£'000oedd) | Cyfleustodau (gan gynnwys taliadau gwasanaeth) | **278** | 589 | 476 |
| | Teithio busnes (gan gynnwys llety) | **2** | 486 | 535 |

Sylwer: mae'r ffigurau ar gyfer 2018–19 a 2019–20 wedi cael eu hailddatgan yn unol â'r fethodoleg isod. Nid yw hyn yn effeithio ar ddata ariannol.

## Lleihau a rheoli gwastraff

| | | **2020–21** | 2019–20 | 2018–19 |
|---|---|---|---|---|
| Gwastraff (tunelli) | Peryglus – gan gynnwys WEEE* | **0.3** | – | – |
| | Tirlenwi | **–** | 124 | 23 |
| | Ynni o wastraff | **1.4** | – | – |
| | Ailgylchu cymysg | **0.3** | 26 | – |
| | Cyfanswm gwastraff | **2** | 150 | 23 |
| Gwariant ar wastraff (£'000oedd) | Cyfanswm gwastraff (gan gynnwys glanhau ar gyfer 2020–21) | **19** | 48 | 24 |

* WEEE = cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff

## Defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt

| | | **2020–21** | 2019–20 | 2018–19 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau y mae pen draw iddynt | Dŵr ($m^3$) | **2,434** | 4,820 | 3,455 |
| | Defnydd o bapur (dalenni) | **–** | 172,500 | 500,000 |
| | Defnydd o bapur ($tCO_2e$) | **–** | 0.8 | 2.4 |

ariannol 2020–21 ac mae teithio ar gyfer ymweliadau safle a gofynion busnes eraill wedi cael ei gyfyngu'n llym, yn unol â chanllawiau ehangach y llywodraeth. Yr ynni canlyniadol yw defnydd sylfaenol ein swyddfeydd. Rydym wedi addasu ein methodoleg ac, fel y cyfryw, wedi darparu allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi'u hailddatgan ar gyfer blynyddoedd blaenorol i allu cymharu o flwyddyn i flwyddyn.

Diweddarwyd ein dull mesur ac adrodd i ddarparu llinell sylfaen fwy cywir a gwella tryloywder data. Lle y bo'n bosibl ac yn berthnasol, rydym wedi cynnwys defnydd o ynni wedi'i ddosrannu mewn lle swyddfa cymunedol. Yn ogystal, rydym wedi cynnwys data o arosiadau mewn gwestai, defnydd o ddŵr a gwaredu gwastraff yn ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr cwmpas 3.

Mae ein data wedi'i gyfyngu gan y wybodaeth a ddarperir gan landlordiaid. Lle mae llai o hyder yn y wybodaeth, rydym wedi dewis dibynnu ar ddata allyriadau ac ynni a roddwyd yn y tystysgrifau perfformiad ynni. Defnyddiwyd data go iawn ar gyfer ein swyddfeydd yn Leeds, Caergrawnt, Caerdydd, Belfast a Nottingham. Defnyddiwyd

amcangyfrifon wedi'u seilio ar dystysgrifau perfformiad ynni ar gyfer Caeredin, Caerwysg, Manceinion a Birmingham. Yn yr un modd, mae gwybodaeth am gostau ein defnydd o ynni wedi'i chyfyngu gan faint o ddata a dyfnder y data a ddarperir gan landlordiaid. O ganlyniad, mae'r costau gwariant yn y tabl wedi cael eu cyfuno'n un gwerth. Mae'r un peth yn wir am yr hyn sy'n digwydd i'n gwastraff; ein landlordiaid sy'n gyfrifol am waredu, felly ni allwn roi dadansoddiad manwl o'r hyn a ddigwyddodd iddo.

Ychydig iawn o'n lleoedd swyddfa sy'n defnyddio nwy naturiol ar gyfer gwresogi. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio trydan ar gyfer gwresogi ac oeri. O ran y swyddfeydd hynny sydd wedi darparu data go iawn, ein swyddfa yn Llundain yw'r unig un sy'n defnyddio nwy ar gyfer gwresogi.

Mae llawer o'n swyddfeydd yn gweithredu trwy gytundeb swyddfa a wasanaethir. Mae hyn yn fuddiol o ran ein heffaith ar yr amgylchedd, gan ganiatáu i ni gynyddu a lleihau ein lle wedi'i brydlesu fel y bo'r angen a chwilio am adeiladau sydd â'r dystysgrif perfformiad ynni uchaf. Ar y llaw arall, mae swyddfeydd a wasanaethir yn golygu na allwn effeithio'n uniongyrchol ar ein cyflenwad ynni a buddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni. Byddwn yn ymgorffori meini prawf ynglŷn â thystysgrif perfformiad ynni a chyflenwi trydan mewn cytundebau prydlesu swyddfa yn y dyfodol ac yn chwilio am landlordiaid sy'n rhannu ein huchelgais i gyflawni sero-net erbyn 2030.

Yn 2019–20, teithiom fwy na 500,000 o filltiroedd ar draws y Deyrnas Unedig (gostyngiad o'r 1.8 miliwn o filltiroedd y llynedd). O ganlyniad i'r cyfyngiadau symud eleni, mae hyn wedi gostwng i lai na 14,000 o filltiroedd, ar yr un pryd â chynnal lefelau uchel o gynhyrchedd. Rydym yn gwybod y bydd teithio'n cynyddu yn 2021–22, ond byddwn yn defnyddio ein profiad o weithio o bell i lywio ein hymagwedd wrth symud ymlaen ac yn hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus a theithio carbon isel yn ein polisïau a'n strategaethau.

Nid ydym wedi cynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â gweithio gartref gan nad yw'r rhain yn rhan o'r canllawiau adrodd ar hyn o bryd. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol, i sicrhau ein bod yn adlewyrchu arfer gorau. Ar yr un pryd, rydym yn monitro defnydd trydan amcangyfrifedig o ddyfeisiau, sy'n debygol o fod y cyfrannwr ychwanegol mwyaf at effaith amgylcheddol gweithio gartref, a byddwn yn defnyddio'r data hwnnw i lywio caffael yn y dyfodol.

Mae'r holl waith wedi cael ei wneud o gartref drwy gydol y flwyddyn; fel y cyfryw, mae gwastraff yn agos at sero (gweler y tabl ar dudalen 16). Fodd bynnag, rydym wedi parhau i ddiweddaru ein cyfarpar TG, gan amnewid 234 o liniaduron. Ailddefnyddiwyd y cyfrifiaduron hyn a amnewidiwyd trwy eu rhoi i blant ysgol nad oedd ganddynt ddyfeisiau, gan ddargyfeirio gwastraff WEEE o safleoedd tirlenwi.

Pan fyddwn yn dychwelyd i'n swyddfeydd, byddwn yn annog staff i amlygu cyfleoedd i leihau gwastraff, gan arwain at Strategaeth Rheoli Gwastraff.

Mae defnydd o ddŵr wedi lleihau'n sylweddol (gweler y tabl ar dudalen 16). Am resymau hylendid a diogelwch, mae systemau wedi cael eu fflysio'n rheolaidd, gan arwain at ddefnyddio 2,434m$^3$. Defnyddir dŵr i wasanaethu tai bach a cheginau swyddfa. Byddwn yn gweithio gyda landlordiaid i ddiweddaru'r cyfleusterau hyn, lle y bo'n bosibl, a gweithredu mesurau arbed dŵr. Mae'r costau ar gyfer dŵr wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y taliadau cyfleustodau a roddir uchod.

Nid oes gennym unrhyw ddata ar ddefnyddio papur eleni oherwydd y bu swyddfeydd ar gau. Er ein bod yn gwybod bod rhai aelodau staff yn defnyddio argraffyddion gartref, y mae rhai ohonynt wedi'u darparu gan y Gronfa, disgwyliwn y bydd defnydd wedi lleihau'n aruthrol. Wrth symud ymlaen, rydym yn adolygu faint o argraffyddion sydd ar gael yn ein swyddfeydd, gan obeithio y gallwn barhau i leihau'r defnydd o bapur.

### Cynllunio gweithredu bioamrywiaeth

Gwireddir ein cyrhaeddiad mwyaf a'n heffaith fwyaf ar yr amgylchedd naturiol trwy ein prosiectau tir a natur. Yn 2020–21, rydym wedi buddsoddi £50miliwn mewn gwarchod ac ymestyn ein hamgylchedd naturiol. Byddwn yn gofyn i bob prosiect adrodd ar ei berfformiad amgylcheddol; mae ein canllawiau ar gael ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

### Caffael cynaliadwy

Mae ein hymagwedd yn cyd-fynd â safonau'r llywodraeth; fodd bynnag, bwriadwn wella ein polisïau caffael cynaliadwy a chydnabyddwn fod angen rhoi mwy o arweiniad ar gaffael cynaliadwy. Ein cam cyntaf fydd ymgorffori gofynion

cynaliadwyedd yn y ffordd y gwneir penderfyniadau ynglŷn â chytundebau prydlesu swyddfa yn y dyfodol.

### Addasu i'r newid yn yr hinsawdd

Rydym wrthi'n datblygu Strategaeth Datblygu Cynaliadwy. Bydd ein hymagwedd a'n cynllun gweithredu yn sicrhau bod ein polisïau sydd â goblygiadau tymor hir yn gadarn o ystyried newidiadau i'r tywydd, digwyddiadau eithafol a chynnydd yn lefel y môr o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y strategaeth yn defnyddio canllawiau presennol fel yr Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd, Amcanestyniadau Hinsawdd y Deyrnas Unedig a'r Rhaglen Ymaddasu Genedlaethol.

### Prawfesur gwledig

Mae gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol gyrhaeddiad cenedlaethol, gan gefnogi prosiectau ledled y Deyrnas Unedig. Mae llawer o'n prosiectau mewn ardaloedd gwledig ac mae ein buddsoddiad yn helpu i greu swyddi a chynnal cymunedau. Cydnabyddwn yr heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig, gan gynnwys cynrychiolaeth, mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ac argaeledd a chydraddoldeb gwaith taledig. Rydym eisoes yn cynorthwyo ein grantïon i fynd i'r afael â'r meysydd hyn yn eu ceisiadau; fodd bynnag, nid yw prawfesur gwledig yn rhan ffurfiol o'n proses benderfynu. Bwriadwn adolygu hyn yn rhan o'n gwaith strategaeth ehangach yn ystod y 12–24 mis nesaf.

Fel sefydliad, rydym yn cynorthwyo ein cydweithwyr i weithio'n genedlaethol a disgwyliwn weld mwy o weithio gartref yn y blynyddoedd i ddod. Nid ydym eto'n gwybod beth fydd ffurf gweithleoedd ar ôl y pandemig, ac rydym yn awyddus i archwilio ffyrdd gwahanol a hybrid o weithio. Gallai'r newid hwn ein cynorthwyo ymhellach i recriwtio cyflogeion sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig.

### Adeiladu cynaliadwy

Fel sefydliad, nid ydym yn gyfrifol am waith adeiladu newydd nac unrhyw asedau cyfalaf.

**Ros Kerslake CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

2 Gorffennaf 2021

## Adroddiad atebolrwydd

Mae tair adran i'r adroddiad atebolrwydd:

- adroddiad llywodraethu corfforaethol – sy'n trafod ein strwythur llywodraethu a'i gyflawniadau yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei hadolygu
- adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff – mae hwn yn manylu ar daliadau cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr, yn ogystal â'r trefniadau pensiwn ar gyfer staff. Trafodwn hefyd ein cyflawniadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth staff
- adroddiad atebolrwydd seneddol ac archwilio – adroddiad gan ein harchwilwyr ar ganlyniadau eu harchwiliad o'n cyfrifon ar gyfer 2020–21 yn unol â safonau cyfrifyddu ac archwilio.

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu CGDG a sut maen nhw'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion.

### Adroddiad y cyfarwyddwyr

**Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG**

Cadeirydd

Dr Simon Thurley CBE
O 1 Ebrill 2021

René Olivieri
Cadeirydd Dros Dro hyd at 31 Mawrth 2021

Ymddiriedolwyr

Maria Adebowale-Schwarte [1]
Y Farwnes Kay Andrews OBE
Jim Dixon
Dr Claire Feehily [1]
Sarah Flannigan
Perdita Hunt OBE DL [1]
Ray Macfarlane
Mukesh Sharma MBE DL
o 17 Awst 2020
Dr David Stocker

Prif Weithredwr

Ros Kerslake CBE

1 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg

Gellir dod o hyd i fanylion uwch reolwyr eraill yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff ar dudalen 33.

Roedd rhaniad ein staff o ran rhyw (gan gynnwys y rhai hynny ar gontractau cyfnod penodol) sy'n gweithio ar weithgareddau cysylltiedig â'r Loteri Genedlaethol a'n hymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2021 ar sail cyfrif pennau fel a ganlyn. Roedd llawer o'n staff wedi gweithio ar weithgareddau'r Loteri a gweithgareddau cymorth grant yn 2020–21.

| | Dynion | Menywod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr gweithredol | 1 | 3 | **4** |
| Staff | 82 | 250 | **332** |
| Ymddiriedolwyr | 4 | 6 | **10** |

**Cofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr**

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor gwledydd a rhanbarthol yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â CGDG ac yn eithrio eu hunain o brosesau arfarnu, trafod a phenderfynu ar grantiau perthnasol CGDG. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr am grantiau, mae'r ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau ymglymiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel ymddiriedolwr CGDG. Mae trefniadau cyfatebol i staff adrodd am fuddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – www.heritagefund.org.uk.

**Datblygiadau yn y dyfodol**

Byddwn yn parhau i gyflawni Fframwaith Ariannu Strategol y Loteri Genedlaethol yn 2021–2022, ac, ar y pwynt canol (hydref 2021), disgwyliwn adolygu'r amcanion y gosodom i'n hunain ar gyfer y cyfnod ariannu pum mlynedd, ochr yn ochr â chyflwyno strategaeth gorfforaethol newydd, gan ystyried effeithiau parhaus y pandemig ar sefydliadau sy'n gweithio ym maes treftadaeth a'r effeithiau ar ein sefydliad ni ein hunain. Mae ein cynllun busnes ar gyfer 2021–2022 yn amlinellu pum blaenoriaeth graidd:

### 1 Cyflawni ein rhaglenni Loteri Genedlaethol a chymorth grant

Byddwn yn parhau i ariannu prosiectau'r Loteri Genedlaethol trwy gynnig cyllid o £3,000 i £10,000, £10,000 i £250,000 a £250,000 i £5miliwn, gyda phwyslais ar y canlyniadau a flaenoriaethwyd a amlinellir ar dudalen 8. Byddwn yn gwneud grantiau o fwy na £5miliwn trwy ein Dyfarniadau Gorwel Treftadaeth, a gynlluniwyd i gefnogi prosiectau eithriadol sy'n trawsnewid, cydweithio ac arloesi wrth raddfa mewn safleoedd ledled y Deyrnas Unedig. Byddwn yn parhau i gyflawni ein hymgyrch Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth, sy'n galluogi sefydliadau o bob maint i achub yn gyflymach ar gyfleoedd newydd a gynigir trwy weithio'n ddigidol. Byddwn yn datblygu ein harweinyddiaeth meddwl gydag ymgyrchoedd newydd sy'n canolbwyntio ar gasgliadau amgueddfa ac archif (a adwaenir fel Casgliadau Dynamig), yn cyflwyno mentrau wedi'u seilio ar leoedd i gefnogi cymunedau'n well ar y cyd ag asiantaethau diwylliannol blaenllaw eraill, ac yn meithrin arloesedd trwy gronfa newydd a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Sefydliad Young a buddsoddi ymhellach yn ein Sbardunwr Parciau'r Dyfodol. Byddwn yn parhau i annog a chymell sefydliadau sy'n gweithio ym maes treftadaeth i amrywiaethu eu hincwm a datblygu eu sgiliau ariannol, gan ychwanegu at ein buddsoddiadau cymdeithasol presennol a'n rhaglenni benthyciadau peilot.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraethau ledled y Deyrnas Unedig i barhau i ddarparu'r cymorth y mae ei angen ar y sector i adfer. Byddwn yn cyflwyno ail gam y Gronfa Her Adferiad Gwyrdd ar ran DEFRA, ail a thrydydd cam y Gronfa Adferiad Diwylliannol a Rhwydweithiau Natur (cynllun adferiad gwyrdd Llywodraeth Cymru), a byddwn yn creu partneriaethau ariannu newydd pan fydd cyfleoedd yn codi. Yn fewnol, byddwn yn datblygu ac yn gwella ein model a'n prosesau busnes a gweithredu i helpu i gyflwyno cronfeydd y Loteri Genedlaethol a chymorth grant yn effeithiol, gan sicrhau bod gennym y strwythurau a'r adnoddau iawn ar draws y Gronfa.

### 2 Gweithredu Gwasanaeth Rheoli Buddsoddiadau newydd

Byddwn yn disodli'r system rheoli grantiau bresennol â gwasanaeth rheoli grantiau mwy hyblyg a fydd yn cynnig proses ymgeisio haws a mwy didrafferth ac a fydd yn galluogi ein staff i weithio'n fwy effeithlon. Bydd porth ymgeisio newydd yn cael ei gyflwyno yn y gwanwyn, wedi'i ategu gan wybodaeth a chymorth ar-lein gwell i gwsmeriaid, a rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant staff. Ar ôl mudo data, byddwn yn parhau i ddatblygu ein warws ddata a gwella ein galluoedd adrodd ar ddata. Bydd ein busnes yn cael ei sbarduno'n fwy gan ddata a byddwn mewn sefyllfa well i allu dangos

tystiolaeth o'n heffaith trwy ddatblygu fframwaith effaith newydd, wedi'i ymgorffori yn ein proses asesu, i'n helpu i wneud penderfyniadau.

### 3 Rhanddeiliaid a phartneriaid allanol

Byddwn yn parhau i gryfhau a dyfnhau ein gwaith gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol eraill sydd wedi bod yn allweddol wrth ein helpu i gefnogi a chynnal y sector yn 2020–2021, ledled y Deyrnas Unedig ac o fewn ein hardaloedd yn Lloegr ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Trwy Fforwm y Loteri Genedlaethol, byddwn yn parhau i gydweithio â dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol i gryfhau ein heffaith sy'n canolbwyntio ar leoedd, gwella data ac adrodd ar grantiau'r Loteri Genedlaethol a chyfrannu at ddangos effaith gyfunol y Loteri Genedlaethol ar fywyd cenedlaethol y Deyrnas Unedig. Byddwn yn archwilio cyfleoedd partneriaeth newydd, yn enwedig buddsoddi cymdeithasol ac arloesi, ac yn parhau â phartneriaethau buddsoddi cymdeithasol presennol gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol a Nesta. Rydym wedi dechrau'r gwaith rhagarweiniol ar ein Strategaeth Gorfforaethol nesaf y tu hwnt i 2021.

### 4 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Byddwn yn dilyn ein Hadolygiad o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda chynllun gweithredu ar gyfer ein diwylliant, gweithlu, buddsoddiadau a threfniadau llywodraethu, yn ogystal â gwaith presennol yn y maes hwn. Byddwn yn dangos cynnydd wrth i'r Gronfa ddod yn fwy cyfartal a chynhwysol.

### 5 Datblygu ac ymsefydlu newid diwylliannol

Byddwn yn gorffen gwaith ar ein diwylliant a'n gwerthoedd ar draws y Gronfa ac yn ymsefydlu fframwaith ymddygiadol newydd yn ein gwaith a'n busnes o ddydd i ddydd. Bydd ein fframweithiau recriwtio a pherfformiad yn sicrhau bod ein gwerthoedd a'n hymddygiadau'n ganolog i gyflawni amcanion.

### Penodi archwilwyr

Mae Deddf 1980 yn darparu ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol CGDG gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yr ymddiriedolwyr.

### Rhanddeiliaid allweddol

Rydym yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid allweddol ac yn ymgynghori â hwy'n helaeth wrth ddatblygu ein fframweithiau strategol a'n polisïau a'n harferion dyfarnu grantiau. Yn eu plith y mae'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, ymgeiswyr a grantïon, asiantaethau strategol a chyrff arweiniol ar gyfer treftadaeth a meysydd polisi eraill sy'n berthnasol i'n cyllido ledled y Deyrnas Unedig, yn ogystal ag aelodau etholedig llywodraethau lleol a chenedlaethol. Mae'r DCMS yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan (gweler yr adran ar Gyfarwyddiadau Polisi tua diwedd yr adroddiad hwn) ac yn rheoli CDdLG sy'n buddsoddi'r arian a dderbynnir o'r Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraeth yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi hefyd.

### Ychwanegedd

Yn unol â chyfarwyddyd ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS, mae'n rhaid i holl ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol ystyried egwyddorion ychwanegedd. Ein gofyniad ar gyfer grantiau'r Loteri Genedlaethol yw y dylai ein harian fod yn ychwanegol at yr arian sydd ar gael gan y llywodraeth, ac nid yn ei le. Ni fyddwn yn rhoi grantiau i brosiectau os credwn fod arian ar gael gan y llywodraeth ar adeg y penderfyniad. Yn rhan o'n proses asesu grantiau, gofynnwn i ymgeiswyr gyflwyno achos clir dros fuddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys dweud wrthym pa ffynonellau arian eraill sydd wedi cael eu hystyried.

### Data personol

Ni chafodd CGDG unrhyw ddigwyddiadau lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti, ac nid yw wedi gwneud unrhyw adroddiad i swyddfa'r comisiynydd gwybodaeth. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau, ac i sicrhau gwelliannau parhaus i'w systemau.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 35(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS gyda chaniatâd Trysorlys EM. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, ei hincwm a'i gwariant, ei hadenillion a'i cholledion

cydnabyddedig a'i llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â llawlyfr adrodd ariannol y llywodraeth (FREM) ac yn benodol:

i) dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson

ii) ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol

iii) datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y FREM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau pwysig yn y datganiadau ariannol

iv) paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa yn parhau i weithredu

Penododd prif Swyddog Cyfrifyddu DCMS yr uwch swyddog amser llawn, sef y Prif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa. Tra bu'r Prif Weithredwr ar absenoldeb salwch tymor hir am ran o'r flwyddyn, gwnaed y Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyflawni Busnes, yn Swyddog Cyfrifyddu dros dro. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros ddiogelu asedau'r Gronfa a thros gadw cofnodion priodol, wedi'u disgrifio yn yr adran sydd â'r teitl 'Swyddogion Cyfrifyddu' yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac mae hi'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol.

## Datganiad llywodraethu

### Rhagair

Rwyf wedi bod yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ers mis Gorffennaf 2016. Yn ystod cyfnod o absenoldeb a oedd yn cynnwys mis Ebrill 2020, gweithredodd Eilish McGuinness fel Swyddog Cyfrifyddu.

### Cyflwyniad

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn grynodeb o'r trefniadau ar gyfer stiwardiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, gan gynnwys sut rydym yn rheoli risg a sut rydym yn cydymffurfio â llywodraethu corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog: cod arfer da, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, mae'n ofynnol i mi, yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm – cymorth grant a chyllid sy'n dod o'r Loteri Genedlaethol. Rwy'n atebol hefyd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion CGDG, ar yr un pryd â diogelu'r cyllid a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol yn bersonol amdanynt. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a aseinir i mi yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gweithredu fel endid unigol oherwydd credaf fod hyn yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gan hynny, dim ond un strwythur llywodraethu sydd yn y datganiad hwn, sy'n cwmpasu dosbarthiad cymorth grant a grantiau'r Loteri Genedlaethol.

### Yr argyfwng COVID-19

Mae'r argyfwng COVID-19 wedi cael effaith fawr arnom ni, fel pob sefydliad arall, yn ystod 2020–21.

Mae'r argyfwng wedi cael effaith o bwys ar y sector, gan gynnwys:

- colli incwm yn sgil llai o ymwelwyr, canslo aelodaeth, incwm masnachol
- llai o nawdd a/neu gyllid partneriaeth
- oedi wrth gyflawni prosiectau
- cynnydd mewn costau i fodloni gofynion iechyd y cyhoedd
- effeithiau niweidiol ar gyflawni busnes –

rhoi staff ar ffyrlo, yr angen i ailgyfeirio ac ailflaenoriaethu adnoddau, ac ati.

Mae hynny, yn ei dro, wedi gwneud ein hamgylchedd gweithredu yn fwy heriol o lawer a bu'n rhaid i ni addasu'n sylweddol i ymateb i'r newidiadau hynny.

Casglom ddata a gwybodaeth allweddol ynglŷn â'r effeithiau cynnar a ganiataodd i ni lansio'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth a ariennir gan y Loteri. Yna, defnyddiom y data hwnnw i gefnogi'r Gronfa Adferiad Diwylliannol ar gyfer Treftadaeth gan DCMS a'r Gronfa Adferiad Her Werdd gan DEFRA yn Lloegr, yn ogystal â buddsoddiadau eraill mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Yn ystod blwyddyn pan oedd llif arian a hylifedd yn allweddol i iechyd a goroesiad sefydliadau, roeddem wedi gallu ychwanegu mwy na £400miliwn i'r sector i gefnogi prosiectau, helpu cymunedau, diogelu swyddi a sicrhau goroesiad rhannau mawr o'r sector efallai na fyddent wedi llwyddo i ddod trwy'r argyfwng fel arall.

Mae'n bleser gennyf adrodd bod ein trefniadau llywodraethu, o barhad busnes i ddylunio sefydliadol i reoli risg i wneud penderfyniadu ac, wrth gwrs, dyfarnu grantiau, wedi caniatáu i ni nid yn unig weithredu trwy'r argyfwng ond darparu ystod eang o ymatebion ledled y Deyrnas Unedig sydd wedi bod yn allweddol i ddiogelu'r sector treftadaeth.

Mae trefniadau llywodraethu'r Gronfa wedi bod yn gydnerth ac yn hyblyg drwy gydol y flwyddyn a'r argyfwng hyd yma.

**Adolygiad Llywodraethu**
Fel yr amlinellwyd yn y datganiad hwn y llynedd, comisiynom adolygiad annibynnol o'n llywodraethu mewnol yn 2019–20. Roedd y Bwrdd yn cefnogi canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad, a pharatôdd y tîm Cyfreithiol a Llywodraethu gynllun gweithredu ar gyfer y prif argymhellion. Ers hynny, rydym wedi gweithredu bron pob un o'r argymhellion, er bod rhai wedi cael eu hoedi oherwydd yr argyfwng.


Roedd y prif feysydd argymhellion a fabwysiadwyd fel a ganlyn, ynghyd â nodyn ar ein cynnydd:

- Symud i nifer llai o Ymddiriedolwyr (9 neu 10) – mae hyn ar waith bellach, mae sawl Ymddiriedolwr wedi ymddeol, ac mae gan ein hadran noddi (DCMS) ymgyrch recriwtio ar waith ar gyfer Ymddiriedolwyr newydd. Disgwyliwn i'r Ymddiriedolwyr newydd fod yn eu swydd erbyn diwedd yr haf/dechrau'r hydref.
- Cael Ymddiriedolwyr i gadeirio Pwyllgorau Ardal yn Lloegr fel bod trefniadau'r rhain yn debyg i bwyllgorau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon – bydd hyn yn derbyn sylw trwy'r ymgyrchoedd recriwtio uchod.
- Datblygu matricsau sgiliau ar gyfer Ymddiriedolwyr ac Aelodau Pwyllgor sy'n ymdrin â sgiliau busnes, llywodraethu corfforaethol a threftadaeth – mae'r rhain wedi'u cwblhau bellach ac yn cael eu defnyddio yn ein hymgyrchoedd recriwtio ein hunain a'r rhai a arweinir gan DCMS.
- Adnewyddu Cylch Gorchwyl y Bwrdd a'i Bwyllgorau – mae'r rhain wedi'u cwblhau bellach ac yn cael eu cymhwyso.
- Mewn cydweithrediad â DCMS, adolygu tâl cydnabyddiaeth Ymddiriedolwyr i gynorthwyo wrth ddatblygu lluosogrwydd ac amrywiaeth well ar draws Ymddiriedolwyr – mae hyn wedi'i gwblhau a daeth y trefniadau newydd i rym ar 1 Ebrill 2021.
- Ymgymryd ag adolygiad mewnol tebyg gyda'r un amcan ar draws Aelodau Pwyllgor – mae hyn wedi'i gwblhau hefyd a daeth y trefniadau newydd i rym ar 1 Ebrill 2020.
- Ennyn diddordeb a mapio rhanddeiliaid yn well a gwella integreiddio Ymddiriedolwyr ac Aelodau Pwyllgor i'r rhain – mae hyn wedi'i gwblhau, mae cadeiryddion dros dro Ardaloedd Lloegr wedi mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2020–21, ac mae trefniadau cyfathrebu gwell ar draws pob corff llywodraethu.
- Gwella ymgynefino a hyfforddiant amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiad ynghyd ag arfarniadau perfformiad ar gyfer Ymddiriedolwyr ac Aelodau Pwyllgor – mae hyn wedi'i gwblhau'n rhannol a bu dull recriwtio llwyddiannus ar gyfer aelodau pwyllgor diweddar y byddwn yn ei ailadrodd mewn ymgyrchoedd yn y dyfodol. Bydd hyfforddiant penodol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer y Bwrdd yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2021–22.
- Cau'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau a symud ei swyddogaethau i'r Bwrdd a'r Weithrediaeth – mae'r pwyllgor wedi cael ei

gau, er bod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd ar bennu dirprwyaethau, sy'n mynd rhagddo.

- Creu Pwyllgor Enwebiadau a Thâl Cydnabyddiaeth i oruchwylio rolau Ymddiriedolwyr, tâl cydnabyddiaeth a chefnogi penodiadau – mae hyn wedi'i gwblhau, a chyfarfu'r pwyllgor yn 2020–21 i oruchwylio materion trosglwyddo a recriwtio aelodau pwyllgor.

**Strwythur llywodraethu**
Mae strwythur llywodraethu CGDG yn ystod 2020–21 wedi'i ddisgrifio yn y diagram isod. Parhaodd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau fel y disgrifir, ochr yn ochr â'r Weithrediaeth a'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad.




**Bwrdd Ymddiriedolwyr**
Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol
- cymeradwyo dulliau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus
- cymeradwyo cyllidebau buddsoddi a gweinyddu
- goruchwylio rheolaeth gyffredinol gweithgareddau CGDG
- adrodd ar stiwardiaeth arian cyhoeddus

Cynhaliodd y Bwrdd, sy'n gweithredu fel grŵp, naw cyfarfod yn ystod y flwyddyn i bennu polisïau CGDG a gwneud penderfyniadau yn unol â'r polisi hwnnw. Mynychir y cyfarfodydd hyn gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Roedd yr holl gyfarfodydd Bwrdd a gynhaliwyd yn 2020–21 yn ffurfio cworwm.

René Olivieri oedd cadeirydd dros dro'r Gronfa yn 2020–21 a chynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd drwy gydol y flwyddyn rhyngddo ef, y Prif Weithredwr ac uwch aelodau staff. Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi'n gyfreithiol hyd at uchafswm o 15 o Ymddiriedolwyr, gan gynnwys y Cadeirydd. Penodwyd un Ymddiriedolwr newydd ac ymddeolodd un Ymddiriedolwr yn 2020–21.

Cyfradd bresenoldeb gyffredinol yr Ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 100%. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo rhai o'u gorchwylion i'r ddau bwyllgor a ddangosir uchod – mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwylio gweithgareddau rheoli ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i uwch aelodau staff. Mae cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau yn eitemau sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd, ac mae cadeiryddion y pwyllgorau'n darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau hefyd.

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd drwy gydol 2020–21 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| René Olivieri | 9 | 9 |
| Maria Adebowale-Schwarte | 9 | 9 |
| Y Farwnes Kay Andrews OBE | 9 | 9 |
| Jim Dixon | 9 | 9 |
| Dr Claire Feehily | 9 | 9 |
| Sarah Flannigan | 9 | 9 |
| Perdita Hunt OBE DL | 9 | 9 |
| Ray Macfarlane | 9 | 9 |
| Mukesh Sharma MBE DL<br>o 31 Awst 2020 | 4 | 4 |
| Dr David Stocker | 9 | 9 |

Yn ystod 2020–21, mynychodd cadeiryddion Ardaloedd Lloegr gyfarfodydd y Bwrdd hefyd fel arsylwyr.

Tua diwedd 2020–21, ac wrth i ni symud i 2021–22, rydym yn wynebu trosiant sylweddol o ran yr Ymddiriedolwyr. Yn ogystal ag ymddeoliadau ar ddiwedd cyfnodau swydd, mae gennym nifer o ailbenodiadau posibl ac ymgyrchoedd recriwtio – yn nodedig Ymddiriedolwyr sy'n cynrychioli Ardaloedd Lloegr. Mae disgrifiadau o'r rôl wedi cael eu cwblhau'n derfynol i adlewyrchu'r cymysgedd sgiliau, gwybodaeth a daearyddiaeth sy'n angenrheidiol. Bydd yn hanfodol i'r ymgyrchoedd recriwtio hyn, a gynhelir gan ein hadran noddi, sef DCMS, arwain at gorff ymddiriedolwyr newydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn y cyfamser, rydym wedi rhoi trefniadau ar waith i gyflawni swyddogaethau, paneli dirprwyedig a phwyllgorau'r Bwrdd yn ystod yr haf 2021.

**Cyfansoddiad y Bwrdd**
O'r 10 o Ymddiriedolwyr a fynychodd y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn, roedd 60% yn fenywaidd a 40% yn wrywaidd. Roedd dau (20%) Ymddiriedolwr yn dod o leiafrifoedd ethnig.

### Gwrthdaro buddiannau'r Bwrdd

Mae'r Ymddiriedolwyr a'r staff hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod eu cofnodion ar y Gofrestr Buddiannau yn cael eu cynnal a'u diweddaru, fel y bo'r angen. Mae'r tîm Cyfreithiol a Llywodraethu yn goruchwylio proses sy'n sicrhau bod y cofnodion hyn yn cael eu diweddaru bob blwyddyn. Ar ddechrau pob cyfarfod o'r Bwrdd, gofynnir i'r holl Ymddiriedolwyr a staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Nodir y rhain yn y cofnodion pan ystyrir bod y mater yn gyfystyr â gwrthdaro a bydd Ymddiriedolwyr a staff yn tynnu'n ôl o drafodaethau'r Bwrdd ar y materion hynny.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfarfu'r pwyllgor ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn a bu cworwm ym mhob cyfarfod. Fe'i cadeirir gan Ymddiriedolwr.

Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu bob cyfarfod pwyllgor gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyflawni Busnes a Gwasanaethau Busnes – mae aelodau staff eraill yn bresennol fel y bo'r angen. Cefnogir a gwasanaethir y pwyllgor gan dîm Cyfreithiol a Llywodraethu'r Gronfa. Mae archwilwyr allanol (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol) ac archwilwyr mewnol (BDO) y Gronfa'n mynychu'r cyfarfodydd hefyd. Mae'r pwyllgor yn cynnal sesiynau yn y dirgel eu hunain cyn cyfarfodydd a hefyd trafodaethau preifat gyda'r archwilwyr cyn y cyfarfodydd.

Yn ogystal ag Ymddiriedolwyr, mae aelodau annibynnol anweithredol yn aelodau o'r pwyllgor hefyd – sef David Michael a Carole Murray.

Cytunodd y pwyllgor ar strategaeth archwilio dros nifer o flynyddoedd gyda BDO pan gawsant eu penodi ac roedd yr adolygiadau a gyflawnwyd yn 2020–21 ac a adroddwyd i'r pwyllgor yn cyfateb i'r dull strategol hwnnw. Cymeradwyir cynllun un flwyddyn manwl o adolygiadau archwilio mewnol bob blwyddyn.

Derbyniodd y pwyllgor adroddiadau yn ystod y flwyddyn ar:

- Ddatblygu cynhyrchion newydd
- System rheoli buddsoddiadau
- Mesuau perfformiad allweddol ac adrodd ar berfformiad
- Cyllidebu a rhagolygu
- Rheolaethau ariannol craidd
- Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd
- Cynllunio parhad busnes

Rhennir cofnodion y pwyllgor ac adroddiadau cryno gyda'r Bwrdd. Mae cadeirydd y pwyllgor yn rhoi diweddariad ar lafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r pwyllgor hefyd. Yn y modd hwn, mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd o waith y pwyllgor hwn ynglŷn ag effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a'r arferion rheoli risg ac ansawdd y data a dderbynnir.

Mae'r pwyllgor yn adolygu Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd. Yn ystod 2020–21, yn ogystal â'r adroddiadau a'r cyfrifon uchod, ystyriodd y pwyllgor y canlynol hefyd:

- y trefniadau ar gyfer rheoli risg a pharhad busnes yn ystod yr argyfwng
- archwiliad manwl o'r System Rheoli Buddsoddiadau
- achosion o dwyll a honiadau o dwyll, gan gynnwys asesiad risg ac asesiad ôl-werthuso ynglŷn â thwyll ar gyfer ein rhaglenni cymorth grant yn ystod yr argyfwng
- trefniadau caffael, gan gynnwys unrhyw eithriadau i dendrau caffael arferol

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor drwy gydol 2020–21 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Claire Feehily<br>Cadeirydd | 4 | 4 |
| Maria Adebowale-Schwarte | 4 | 3 |
| Perdita Hunt OBE DL | 4 | 3 |
| David Michael | 4 | 3 |
| Carole Murray | 4 | 4 |

### Pwyllgor Enwebiadau a Thâl Cydnabyddiaeth

Cyfarfu'r pwyllgor ar un achlysur yn ystod y flwyddyn i drafod yr opsiynau ar gyfer recriwtio aelodau pwyllgor newydd yn 2021–22, gan gynnwys risgiau gwybodaeth fusnes, setiau sgiliau a pharhad busnes y pwyllgor. Cadeirir y pwyllgor gan yr Uwch Ymddiriedolwr Annibynnol ac mae'n cynnwys tri Ymddiriedolwr arall. Mae'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol Cyflawni Busnes a Gwasanaethau Busnes yn mynychu'r pwyllgor hefyd.

Roedd presenoldeb yng nghyfarfod y pwyllgor yn 2020–21 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Perdita Hunt OBE DL<br>Cadeirydd | 1 | 1 |
| Jim Dixon | 1 | 1 |
| Ray Macfarlane | 1 | 1 |
| René Olivieri | 1 | 1 |

**Dirprwyo gwneud penderfyniadau am grantiau**

Yn 2020–21, dirprwyodd y Bwrdd wneud penderfyniadau ar gyfer rhai grantiau i is-set o Ymddiriedolwyr sy'n gweithredu fel paneli'r Bwrdd. Ymdriniodd hyn â phenderfyniadau ar gyfer y rhaglenni canlynol:

- Parciau i Bobl (yn Lloegr roedd hwn yn banel ar y cyd gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol).
- Y rhaglenni argyfwng a ariennir gan DCMS, DEFRA, Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Swyddfa Gogledd Iwerddon.

Cyflwynwyd y rhaglen argyfwng, sef Cronfa Adferiad Diwylliannol 1 (CRF1), mewn partneriaeth â Historic England. Sefydlwyd panel cynghori, wedi'i ffurfio o gynrychiolwyr Historic England a CGDG, o dan femorandwm cyd-ddealltwriaeth. Roedd aelodau'r panel hwn yn cynnwys Comisiynwyr Historic England, Ymddiriedolwyr CGDG, a Phrif Weithredwyr a chyfarwyddwyr gweithredol y ddau sefydliad. Gwnaeth Ymddiriedolwyr CGDG a oedd ar y panel hwn benderfyniadau grant ar ôl eu trafod gyda chydweithwyr ar y panel cynghori. Roedd Bwrdd Goruchwylio CRF hefyd a wnaeth awgrymiadau ac argymhellion ac a gyflawnodd y swyddogaeth graffu a'r cyfranogiad yr oedd eu hangen ar DCMS ac eraill.

Cyflwynwyd y rhaglen ddilynol, sef CRF2, mewn partneriaeth â Historic England hefyd. Cyfarfu Panel Argymhellion ar y Cyd (wedi'i ffurfio o gynrychiolwyr y Gronfa Treftadaeth a Historic England) i gytuno ar argymhellion ar gyfer yr holl geisiadau. Anfonwyd argymhellion ar geisiadau a oedd yn gofyn am fwy nag £1filiwn at y Bwrdd Adferiad Diwylliannol, sef Bwrdd annibynnol a gynullwyd gan DCMS, ar gyfer sylwadau.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau gwneud grantiau ar gyfer mathau a gwerthoedd penodol o grantiau'r Loteri i bwyllgorau gwlad ac, yn Lloegr, pwyllgorau ardal. Yn dilyn ein haildrefnu mewnol a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2019, mae chwech o'r pwyllgorau hyn (tair gwlad a thair ardal o Loegr) ac roedd pob un yn cynnwys Ymddiriedolwr. Yn ogystal â gwneud penderfyniadau grant, mae'r Pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau yn eu hardal ac yn gweithredu fel eiriolwyr dros waith y sefydliad fel corff dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Cyfarfu Cadeiryddion y Pwyllgorau Gwlad ac Ardal â Chadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr, ynghyd ag uwch aelodau staff yn ystod y flwyddyn.

Hefyd, mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau am grantiau o dan £250,000 i staff, yn benodol Cyfarwyddwyr Gwlad ac Ardal mewn Gwledydd ac Ardaloedd o Loegr. Cyflwynir adroddiad blynyddol am effaith grantiau wedi'u dirprwyo ar draws yr holl Bwyllgorau i'r Bwrdd. Adroddir yr holl benderfyniadau a wneir gan Bwyllgorau a staff i'r Bwrdd.

Roedd yr Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau am grantiau yn y Gronfa Argyfwng Treftadaeth yn ystod yr haf 2020 (roedd y rhain yn ddyfarniadau hyd at £250,000).

**Y Weithrediaeth a'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad (SPG)**

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr.

Daeth Gweithrediaeth sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r tri Chyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer pob adran i rym yn 2019 ac mae wedi parhau ers hynny. Mae'r Weithrediaeth hon yn gyfrifol am faterion rheolaeth strategol ehangach a chyflawni busnes yn y Gronfa. Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod yn wythnosol.

Mae'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad yn cynnwys uwch Gyfarwyddwyr a staff ar draws y tair adran ac mae'n gyfrifol am sganio'r gorwel, rheoli perfformiad o ddydd i ddydd a chynllunio corfforaethol. Cyfarfu'r Grŵp yn rheolaidd a daeth y Weithrediaeth i sawl un o'r cyfarfodydd hyn hefyd.

Mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn darparu adroddiad misol i'r Bwrdd ar weithgareddau a materion sydd o fewn eu cylch gwaith.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

**Trefniadau parhad busnes**
Ym mis Mawrth 2020, rhoddwyd ein Cynlluniau Parhad Busnes ar waith i ymateb i'r argyfwng. Cyfarfu'r Weithrediaeth ar ffurf y Tîm Rheoli Argyfwng ddwywaith yr wythnos i oruchwylio ymateb y Gronfa a rhyngweithiadau â rhanddeiliaid a llywodraethau ledled y Deyrnas Unedig, ac i gefnogi'r Bwrdd.

Cyfarfu'r Tîm Parhad Busnes ddwywaith yr wythnos, o fis Ebrill tan fis Mehefin, i weithredu agweddau gweithredol manwl y busnes a'n cynllun ymateb. Roedd cyfansoddiad y tîm hwn yn adlewyrchu'r gwahanol dimau yn yr adran a'r gwahanol anghenion yng nghamau cynnar yr argyfwng.

Gweithiodd ein trefniadau parhad busnes yn unol â'r bwriad, ac ni tharfwyd ar unrhyw ran o'n busnes yn ystod y flwyddyn.

**Dyluniad a strwythur y sefydliad**
Yn ystod y flwyddyn, fel Prif Weithredwr, gweithredais strwythur tair adran, sef:

- Arloesedd a Mewnwelediad Busnes (strategaeth, polisi, data a mewnwelediad, ynghyd â marchnata a chyfathrebu)
- Cyflawni Busnes (cyflawni gweithredol) a
- Gwasanaethau Busnes (swyddogaethau cymorth)

Datblygir y cynllun gweithredu blynyddol – y Cynllun Busnes – bob blwyddyn ochr yn ochr â chynllunio cyllidebau ariannol a rhaglenni buddsoddi. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, gwnaethom integreiddio rheoli risgiau'n agos i'r broses cynllunio busnes.Trafodir y Cynllun Busnes gyda'n hadran noddi, sef DCMS.

Mae DCMS hefyd yn pennu cyfarwyddiadau polisi ac ariannol yr ydym wedi cydymffurfio â nhw yn ein gweithgareddau Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraethau'r Alban a Chymru wedi cyhoeddi rhai cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â gweithgareddau'r Loteri Genedlaethol yn y gwledydd hynny hefyd, ac rydym wedi cydymffurfio â nhw. Mae gennym gyfarwyddiadau polisi gan DCMS ar gyfer Lloegr hefyd.

Yn ogystal, gweithredom yn unol â Chytundeb Rheoli a Memorandwm Ariannol rhyngom ni a DCMS. Ategir hyn gan gyfarfodydd rheolaidd â swyddogion DCMS a Dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol.

**Strategaeth gorfforaethol**
Lansiwyd ein Strategaeth Gorfforaethol ychydig dros dair blynedd yn ôl, a ddarparodd 'fantell drosgynnol' ar gyfer ein gweithgareddau ar lefel uchel. Fe'i cefnogir gan ystod o ymatebion corfforaethol eraill sy'n darparu mwy o fanylder mewn meysydd gweithredol, strategol a pholisi penodol, gan gynnwys ein:

- Fframwaith Ariannu Strategol ar gyfer buddsoddi arian y loteri
- cynlluniau busnes
- strategaethau busnes ar gyfer meysydd swyddogaethol unigol, er enghraifft ein Strategaeth Ddigidol

Bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau fel ein ffynhonnell incwm fwyaf arwyddocaol dros y blynyddoedd i ddod, a'r ffocws ar gyfer y rhan fwyaf o'n gweithgareddau. Fodd bynnag, yn 2020–21, buddsoddom bron £190miliwn mewn rhaglenni cymorth grant, i ymateb i'r pandemig yn bennaf.

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn atgyfnerthu'r cyfeiriad yr ydym wedi bod yn ei ddilyn ers nifer o flynyddoedd, gan ddisgrifio ein rôl fel y ffynhonnell gyllid fwyaf ar gyfer treftadaeth ar draws y Deyrnas Unedig, a chan gymryd camau pellach tuag at sefyllfa arweinyddiaeth gryfach, gyda phwyslais penodol ar gyfleoedd y tu hwnt i roi grantiau yn unig. Y nod yw symbylu newid a chynyddu ein heffaith ar draws treftadaeth y Deyrnas Unedig trwy gryfhau ein rôl arweinyddiaeth a dadlau dros y buddion y gall treftadaeth eu cyflwyno i gymdeithas.

Ymgymerom â darn sylweddol o waith ar ein pwerau ac awdurdodau yn ystod y flwyddyn hefyd, a byddwn yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn DCMS wrth symud ymlaen â hyn yn ystod 2021–22.

**Fframwaith Ariannu Strategol**
Lansiwyd ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd yn 2019. Mae'r fframwaith hwn yn para tan 2024, ac mae'n cynrychioli datganoli gwneud penderfyniadau'n sylweddol ar draws y Deyrnas Unedig gyfan fel rhan o'n cynigion i ddosbarthu mwy nag £1biliwn o arian y Loteri Genedlaethol i dreftadaeth y Deyrnas Unedig.

Mae penderfyniadau ar fwy nag 80% o holl grantiau Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gwneud yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Ardaloedd Lloegr.

Mae ein dull yn cynnwys:

- pwyslais mawr ar natur, cymunedau a sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau treftadaeth – tair blaenoriaeth bennaf y bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad
- modelau buddsoddi newydd, gan symud y tu hwnt i grantiau i gynnwys benthyciadau a phartneriaethau, sydd wedi'u dylunio i ddenu eraill i fuddsoddi arian ochr yn ochr â'r Loteri Genedlaethol
- mwy o gefnogaeth ar gyfer dulliau masnachol, cynaliadwy o fynd i'r afael â threftadaeth sydd mewn perygl o gael ei cholli
- buddsoddiad a chefnogaeth i helpu sefydliadau treftadaeth i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol
- gofyniad i bob prosiect treftadaeth sy'n derbyn cyllid fod yn amgylcheddol gynaliadwy
- prosesau ariannu symlach, mwy effeithlon ac wedi'u rhesymoli
- mwy o ymgysylltiad a chefnogaeth mewn cymunedau sydd wedi bod yn llai llwyddiannus wrth sicrhau cyllid yn y gorffennol
- cefnogaeth barhaus ar gyfer prosiectau graddfa fawr, eiconig dros £5miliwn

Mae ein portffolio buddsoddi, sy'n symlach ac yn haws cael mynediad ato, yn cynnwys:

- Grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth – rhaglen agored ar gyfer unrhyw fath o brosiect treftadaeth rhwng £3,000 a £5miliwn
- ymgyrchoedd wedi'u hariannu ac ymgyrchoedd eraill a ddyluniwyd i fodloni anghenion strategol neu fylchau mewn ariannu
- cyllid ar y cyd i gyflwyno mentrau strategol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis y bartneriaeth Sbardunwr Parciau'r Dyfodol gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- buddsoddiadau cymdeithasol fel cronfeydd effaith a benthyciadau

Mae'r dull a'r portffolio cyffredinol yn adlewyrchu'r ymarfer ymgynghori cynhwysfawr a gyflawnwyd gennym gyda chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a rhanddeiliaid allweddol ar draws y sectorau treftadaeth cyn lansio'r Fframwaith Ariannu Strategol.

Yn ystod 2020–21, gwnaethom y penderfyniad anodd i atal y rhaglenni agored dros dro. Gwnaed hyn i ganiatáu i ni ddatblygu ac yna cyflwyno ein hymateb a ariannwyd gan y loteri i'r argyfwng, ac i ddarparu'r gallu i gyflawni ein rhaglenni cymorth grant yn ein swyddogaeth fel Cronfa Goffa. Ailagorwyd rhaglenni o dan y Fframwaith Ariannu Strategol ym mis Chwefror 2021, a disgwyliwn gyflawni portffolio llawn o raglenni'r Loteri yn 2021–22 o dan y Fframwaith Ariannu Strategol, er hynny gyda phwyslais ar ganlyniadau penodol sy'n gysylltiedig â'r argyfwng.

**Rheoli risg a rheolaeth fewnol**

Mae ein system rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach na dileu risg i bolisïau, nodau ac amcanion. Felly, gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig yn hytrach na sicrwydd llwyr. Yn arbennig, credaf yn bendant y dylai rheoli risg gydbwyso arloesedd neu newid i fusnes, lle y bo angen hyn. Mae ein prosesau rheoli risg wedi'u seilio ar egwyddorion y 'Llyfr Oren: Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau', a gyhoeddwyd gan y Trysorlys. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i amlygu a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac i werthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe bai hynny'n digwydd.

Caiff pob proses pennu polisi a phenderfynu ynglŷn â grantiau eu llywio gan ddiwylliant a dull rheoli risg CGDG. Ychydig flynyddoedd yn ôl, gwnaethom archwilio ein dull rheoli risg fel rhan o ymarfer ehangach ynglŷn â sicrwydd ar draws CGDG. Rydym wedi parhau i weithredu'r dull hwn yn 2020–21, er hynny wedi'i addasu i weddu i anghenion yr argyfwng. Addasom y dull i sicrhau cydbwysedd rhwng ehangder y risgiau strategol a dyfnder anghenion sicrwydd. Rhoddwyd diweddariadau misol i'r Bwrdd yn ystod yr argyfwng ar risgiau strategol, enw da a gweithredol, yn ogystal ag asesiadau risg mewn meysydd fel agweddau masnachol, hylifedd a gwleidyddol hefyd. Yn olaf, darparwyd asesiadau risg mewn perthynas â'r sector treftadaeth ehangach i gefnogi ein buddsoddiadau o ffynonellau cymorth grant a'r loteri. Ystyriodd y timau Parhad Busnes a Rheoli Argyfwng risgiau yn eu cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cofrestrau/asesiadau risg a'r broses sylfaenol yn aseinio perchennog risg sy'n atebol i'r Prif Weithredwr am reoli'r risg honno'n effeithiol. Mae'r cofrestrau hefyd yn nodi risgiau cysylltiedig fel bod unrhyw 'effaith luosi' yn cael ei hystyried. Mae'n gwahaniaethu hefyd rhwng y lefel risg 'gynhenid' (effaith a thebygolrwydd) a'r lefel risg 'weddilliol' fel bod modd barnu effeithiolrwydd mesurau rheoli a dulliau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer lliniaru'r risg. Mae hynny hefyd yn galluogi perchennog y risg i adnabod mesurau pellach y mae eu hangen i ddod â'r risg o fewn yr awydd a'r dyddiadau penodol ar gyfer y camau hynny. Yn ystod yr argyfwng, rydym wedi addasu ein dulliau o adrodd am risgiau i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg i adlewyrchu natur ddynamig y risgiau, y risgiau allanol a mewnol o'r argyfwng, tueddiadau, patrymau a rhag-amcanestyniadau o risgiau.

Adolygodd y Bwrdd ei awydd am risg ar gyfer 2020–21 hefyd, a pharhaodd i adlewyrchu awydd cynyddol am newid busnes a'r angen i fod yn ymatebol i'r risgiau a gyflwynir gan y pandemig.

Rydym yn cydnabod hefyd y dylid annog cymryd risgiau ac arloesedd a ystyrir yn drylwyr i gyflawni amcanion CGDG. Credaf fod y Gronfa'n dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau grant ac nad yw'n bodloni ar wneud penderfyniadau sy'n rhydd rhag risg yn unig. Mewn argyfwng, roedd yn bwysicach nag erioed sicrhau bod ein buddsoddiad yn ymestyn mor eang i gymunedau â phosibl, boed hynny trwy arian y Loteri Genedlaethol neu gymorth grant.

I'r perwyl hwn, rydym yn barod i dderbyn na fydd rhai o'r sefydliadau yr ydym yn rhoi grantiau iddynt yn dangos cymhwysedd llawn wrth weinyddu'r grant hwnnw yn y pen draw. Rydym yn dysgu ein gwersi, yn gwella ein prosesau ac, mewn rhai amgylchiadau anghyffredin, yn diddymu'r grant. Mewn achosion pan fyddwn yn amau twyll neu ymddygiad amhriodol, byddwn yn adrodd yr achos i'r heddlu i'w ymchwilio ymhellach. Rwy'n cymeradwyo pob diddymiad ac mae hyn yn fy ngalluogi i fonitro'r swm bob blwyddyn er mwyn darparu sicrwydd ynglŷn â'n gweithdrefnau asesu a monitro.

Fel y gellir ei weld o'r nodyn perthnasol i'r cyfrifon, mae nifer y grantiau a ddiddymir yn fach iawn o gymharu â nifer y grantiau rydym yn eu dosbarthu bob blwyddyn. Ar y llaw arall, mae'r lefel uchel o fodlonrwydd cwsmeriaid a ddangosir mewn arolygon annibynnol yn awgrymu nad yw ein harferion gweithio'n ormod o faich ar ymgeiswyr. O ganlyniad i hyn, gallaf ddod i'r casgliad nad oes unrhyw achos pryder ynglŷn â lefel y risg sy'n rhan ymhlyg o'n prosesau rhoi grantiau.

Yn 2020–21, ystyriodd CGDG mai'r canlynol oedd y meysydd risg mwyaf arwyddocaol:

- rheoli incwm y Loteri trwy'r argyfwng ochr yn ochr â'n hamlygiad hylifedd, ein hamcanestyniadau cyllid tymor hir a'r gallu i ariannu ein rhwymedigaethau
- ein gallu i ddarparu buddsoddiadau arian parod tymor byr i'r sector ar unwaith cyn cynlluniau cymorth (fel benthyciadau busnes, ffyrlo, ac ati) a rhaglenni cymorth grant ehangach y llywodraeth
- capasiti a chydnerthedd yn y sector i ganiatáu i ymyriadau o'r fath fod yn effeithiol
- cynllunio ar gyfer parhad busnes a'i roi ar waith
- lles ac iechyd meddwl ein timau
- yr heriau a gyflwynir gan yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol
- datblygu'r system rheoli buddsoddiadau newydd
- deall a rheoli ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd
- sicrhau bod ein data a'n mewnwelediadau'n cael eu defnyddio i gael yr effaith fwyaf
- sicrhau ein bod yn cyflawni newidiadau diwylliannol ar draws y Gronfa i gefnogi'r newidiadau y mae'n rhaid i ni eu cyflwyno

Mae gan bob un o'r risgiau hyn berchennog risg ar y lefel Weithredol sydd â'r dasg o reoli'r risg a sicrhau yr ymgymerir â chamau lliniaru priodol. Credaf ein bod wedi rheoli'r risgiau hynny'n effeithiol drwy gydol 2020–21.

**Ymagwedd at risgiau twyll a gwybodaeth**

Mae gan CGDG bolisi twyll sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae holl staff CGDG yn ymgymryd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Dwyll. Mae hyn yn canolbwyntio ar risg twyll o ran:

- rhoi grantiau
- caffael/rheoli contractau
- meysydd twyll cyffredinol

Mae'r hyfforddiant yn adnabod meysydd risg twyll ar gyfer CGDG hefyd, a sut y gellid adnabod y rhain a mynd i'r afael â nhw i leihau risg twyll.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwella ymwybyddiaeth o risg a threfniadau cywain gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol a pharhaom â hyn y llynedd trwy rannu gwybodaeth yn well, cyfuno adnoddau ac ystyried defnyddio trydydd partïon arbenigol i adnabod risg twyll. Rydym yn parhau i adrodd pob achos posibl o dwyll i'r heddlu ac yn cysylltu â nhw'n weithredol yn y cyfryw achosion i sicrhau ymchwiliad effeithiol.

Yn 2019–20, ymgymerom â gwaith arwyddocaol i adnewyddu ein gwaith yn y maes hwn ac i gyd-fynd â Safon Swyddogaethol y Llywodraeth ar Dwyll (GovS013: Gwrth-dwyll). Rydym wedi gwella arweiniad a pholisi mewn meysydd megis:

- polisi a chynllun ymateb i dwyll, llwgrwobrwyaeth a llygredigaeth
- strategaeth wrth-dwyll
- asesiad risg twyll
- ein cynllun gweithredu blynyddol

Ymsefydlwyd hyn ymhellach yn ystod 2020–21. Fel y crybwyllwyd yn gynharach, gwnaethom gydnabod a deall yn gynnar iawn yn yr argyfwng y rheidrwydd gan lywodraethau ledled y Deyrnas Unedig i sicrhau ymyriadau cynnar effeithiol ac, yn enwedig, rhoi arian parod i'r sectorau diwylliannol a threftadaeth ehangach. Cydnabyddwn hefyd yr awydd risg ehangach ar gyfer hyn y tu allan i'r Gronfa, a gweithiom ochr yn ochr â DCMS, DEFRA ac ati i fodloni eu gofynion yn hyn o beth.

Sylweddolom hefyd, ac rydym yn parhau i sylweddoli, bod yr amgylchedd newydd hwn wedi creu risg uwch o dwyll a gwallau. Parhaom i ddefnyddio ein trefniadau gwrth-dwyll presennol ac ychwanegu atynt gydag offer a gwasanaethau newydd gan Swyddfa'r Cabinet.

Rydym hefyd yn aelodau o sefydliad cronfa ddata dwyll ar draws y diwydiant ac yn cymharu gwybodaeth gan ein grantïon â'r gronfa ddata hon. Tynhawyd archwiliadau diwydrwydd dyladwy cyn-dyfarnu, ac fe'u cynhaliwyd gan ein haseswyr hyfforddedig a phrofiadol ar yr holl geisiadau yn rhan o'n proses asesu i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf ariannu.

At hynny, rydym hefyd yn defnyddio offeryn diwydrwydd dyladwy'r Llywodraeth i gynnal archwiliadau cyn dyfarnu sy'n amlygu meysydd risg i lywio penderfyniadau ynglŷn â rhoi grantiau. Mae'r penderfyniadau'n cael eu gwneud gan banel penderfynu y mae trefniadau llywodraethu clir ar waith ar ei gyfer. Roedd cynrychiolwyr ein partner, sef Historic England, ar y panel penderfynu. Mae archwiliadau ôl-ddyfarnu'n cynnwys dilysu data gydag asiantaethau atal twyll, archwilio sampl a monitro ar hyd cyfnod y grant. Diweddarwyd arweiniad mewnol ar archwiliadau ôl-ddigwyddiad i sicrhau bod y dull yn cael ei weithredu'n gyson yn y sefydliad drwyddo draw.

Roedd pob rhaglen grant (a ariannwyd gan y Loteri neu gymorth grant) yn destun asesiad risg twyll a gwblhawyd gan y Gronfa ac a ddilyswyd gan DCMS. Roedd gan bob rhaglen gynllun gweithredu sicrwydd ôl-ddigwyddiad a adolygwyd yn rheolaidd. Mae'r gwaith twyll ac ôl-ddigwyddiad wedi cael ei adolygu'n annibynnol i ni gan ein partneriaid archwilio mewnol yn BDO. Mae'r adborth gan DCMS a Swyddfa'r Cabinet ar ein gwaith wedi bod yn gadarnhaol ac wedi rhoi sicrwydd ychwanegol.

Yn 2020–21, asesom ein hunain hefyd yn erbyn Model Aeddfedrwydd Grantiau Swyddfa'r Cabinet o ganlyniad i ofyniad gan DCMS. Yn rhan o hyn, bu'n rhaid cynnal adolygiad annibynnol o'n trefniadau hunanasesu, a wnaed gan BDO. Dangosodd ein hasesiad ni ac asesiad BDO lefelau uchel iawn o gydymffurfio â'r meini prawf a amlinellir yn y model.

Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth hefyd sy'n cydymffurfio ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet a'r Fframwaith Polisi Diogelwch. Mae'r holl staff newydd yn cael arweiniad ar ddiogelwch gwybodaeth, diogelu data a Rhyddid Gwybodaeth fel rhan o'u hymgynefino.

Ym mis Rhagfyr 2020, cawsom achrediad Cyber Security Plus unwaith eto. Tua diwedd y flwyddyn, cynhaliom hunanasesiad yn y maes hwn hefyd yn erbyn model rhestr wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a chanfuom fod hyn yn rhoi sicrwydd effeithiol o'n gwaith, er y cydnabyddwn y risgiau parhaus yn y maes hwn, yn enwedig yn ystod y pandemig.

Rydym hefyd yn cydymffurfio ag arweiniad y llywodraeth ar dryloywder gwariant, contractau ac ati. Yn 2020–21, fe barhaom i wella mesurau rheoli a phrosesau caffael.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

**Modelau hollbwysig i fusnes**
Rwy'n ystyried ein bod yn cydymffurfio â'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Macpherson. Rwy'n barnu ein bod yn defnyddio un model sy'n hollbwysig i fusnes – y rhagolwg llif arian a ddefnyddir i bennu cyllidebau grant blynyddol allan o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn anelu at sicrhau ein bod yn dyfarnu'r swm mwyaf posibl o ran lefel y grantiau heb beri'r risg o redeg allan o arian parod neu orymestyn ein hunain. Crëwyd y model tua 15 mlynedd yn ôl ac mae'n parhau'n bennaf ar ei ffurf wreiddiol ar wahân i estyn ei gylch bywyd. Mae'r model wedi cael ei ddefnyddio yn erbyn sefyllfaoedd o lefelau gwahanol o incwm gan y Loteri Genedlaethol, cyfraniadau untro i'r Gemau Olympaidd, a rhaglenni grant arwyddocaol newydd, ac rydym wedi gweld ei fod yn darparu rhagolwg rhesymol o'n cynaliadwyedd ariannol.

Datblygom hefyd fodel llif arian atodol yn 2020–21 i helpu i gynllunio a rheoli risgiau llif arian a hylifedd y Loteri ar hyd y flwyddyn. Mae hyn wedi gweithio'n dda iawn ac wedi bod yn effeithiol wrth reoli risgiau. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r model atodol hwn yn 2021–22.

Yn 2014–15, ar sail y prif fodel, creodd y Bwrdd Fframwaith Ariannol a ddisgrifiodd gymarebau grantiau a fu'n gysylltiedig â chyfanswm lefel yr ymrwymiadau, rhwymedigaethau gwirioneddol cymeradwy, incwm gan y Loteri Genedlaethol a'n balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG). Felly, credwn fod y model a'r Fframwaith Ariannol yn darparu sail gadarn i ni dros roi grantiau. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r dull hwn yn 2020–21, ac yn wir fe'i defnyddiwyd wrth fodelu ar gyfer ein sefyllfaoedd a thybiaethau cynllunio incwm gan y Loteri Genedlaethol. Byddwn yn adolygu'r cymarebau allweddol yn 2021–22 pan fydd gennym ddarlun cliriach o rai o effeithiau'r argyfwng ar ein cynllunio ariannol tymor hwy a'n cwmpas buddsoddiadau, gan gynnwys y cymarebau a daliadau arian parod.

**Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd**
Y gweithgarwch mwyaf arwyddocaol ar gyfer y Bwrdd fu goruchwylio ymateb y Gronfa i'r argyfwng parhaus o safbwynt y Loteri Genedlaethol a chymorth grant. Mae'r Bwrdd wedi cael diweddariadau manwl a rheolaidd ar yr holl ymyriadau ac mae is-setiau o'r Ymddiriedolwyr wedi gweithredu fel penderfynwyr yn y rhaglenni a ariennir gan gymorth grant yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ni ddeilliodd unrhyw beth sy'n peri pryder o unrhyw un o'r pwyllgorau sy'n cefnogi'r Bwrdd. Roedd canfyddiadau adroddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn.

Newidiodd aelodaeth y Bwrdd ychydig yn 2020–21, felly nid i'r un graddau â blynyddoedd blaenorol. Mae hyn wedi golygu rhywfaint o ostyngiad yng ngradd y trosiant ymysg yr Ymddiriedolwyr, ac yn golygu y gellid rheoli'r ymateb i'r argyfwng yn effeithiol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda DCMS ynglŷn â'r ymgyrchoedd recriwtio a ddisgwylir yn 2021–22 ar gyfer criw newydd o Ymddiriedolwyr.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn parhau i gyflawni gofynion Cod Arfer Da Trysorlys EM.

Nid oedd unrhyw faterion gan yr archwilwyr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y Bwrdd a barodd unrhyw destun pryder iddo. O ganlyniad i hyn, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar y wybodaeth a'r sicrwydd a ddarperir gan reolwyr o ran y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

Mae pob Ymddiriedolwr a benodir o'r newydd yn derbyn ymgynefino ar adeg eu penodiad sy'n disgrifio eu rhwymedigaethau a'u dyletswyddau fel Ymddiriedolwr, gwaith CGDG a'i systemau/prosesau, gan felly eu helpu i wneud cyfraniad llawn at weithrediad y Bwrdd. Parheir â'r rhaglen ymgynefino ffurfiol hon trwy'r rhaglen barhaus o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddiant eraill ar gyfer Ymddiriedolwyr. Arfarnir effeithiolrwydd Ymddiriedolwyr gan y Cadeirydd yn rheolaidd. Mae perfformiad y Cadeirydd yn cael ei oruchwylio gan yr Uwch Ymddiriedolwr Annibynnol ar hyn o bryd.

**Y flwyddyn lywodraethu**
Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol. Cyfeirir fy adolygiad gan waith yr archwilwyr mewnol (BDO) ac uwch reolwyr o fewn CGDG sy'n gyfrifol am sicrhau bod y fframwaith rheoli mewnol yn cael ei gynnal a'i gadw a'i weithredu'n effeithiol, ochr yn ochr â sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae'r system rheoli mewnol wedi bod ar waith ar hyd y flwyddyn sy'n destun adolygiad, ac roedd yn parhau i weithredu hyd at y dyddiad y llofnodwyd y cyfrifon.

Pennir cytundebau perfformiad ar gyfer yr holl staff uwch ar ddechrau'r flwyddyn sy'n disgrifio eu hamcanion personol a chorfforaethol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhain wedi'u cysylltu â'r Cynllun Busnes a'n strategaeth. Adolygir y rhain yn ffurfiol mewn adolygiadau hanner ffordd drwy'r flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn. Rwy'n cynnal cyfarfodydd anffurfiol â Chyfarwyddwyr Gweithredol ar sail un i un drwy gydol y flwyddyn hefyd. Fel y nodwyd, mae'r Weithrediaeth a'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad yn cyfarfod yn rheolaidd.

Rwyf wedi gweld y Llythyr Rheoli a baratowyd gan yr archwilwyr allanol gan ddilyn eu hadolygiad o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021.

O ganlyniad i'w rhaglen waith, mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu barn a thystysgrif sicrwydd flynyddol mewn perthynas â digonolrwydd systemau a gweithrediad mesurau rheoli mewnol CGDG. Mae'r farn hon yn ardystio bod system ddigonol ac effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn bodoli i ymdrin â'r risg na chaiff amcanion rheolwyr eu cyflawni'n llawn.

Adroddodd datganiad diwedd blwyddyn yr archwilydd mewnol hefyd fod nifer yr argymhellion archwilio wedi lleihau yn berthynol i nifer gyffredinol yr adroddiadau a gynhyrchwyd.

Wrth gael eu penodi, cynhyrchodd yr archwilwyr mewnol strategaeth archwilio gyffredinol. Y llynedd oedd ail flwyddyn y cyfnod hwn a chyflawnwyd a chwblhawyd pob adolygiad cynlluniedig yn brydlon. Mae'r cynllun blynyddol yn deillio o'r strategaeth archwilio ac yn gysylltiedig â'r gofrestr risgiau a'r awydd am risg.

Gyda BDO, fe gyflwynom gyfarfodydd cyswllt chwarterol newydd gyda'r archwilwyr mewnol i helpu i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun ac ailgyfeirio adnoddau at risgiau sy'n dod i'r amlwg. Parhawyd i ddefnyddio'r rhain i fonitro cynnydd a chyflawni'r rhaglen. Cyflwynwyd mesurau rheoli newydd sawl blwyddyn yn ôl hefyd i wella atebolrwydd o ran adolygiadau archwilio a gweithredu argymhellion archwilio mewnol. Parhawyd â'r rhain yn 2020–21 ac mae'r argymhellion a oedd i fod i gael eu gweithredu yn 2020–21 wedi cael eu rhoi ar waith yn foddhaol.

Trafodir holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg gydag uwch aelodau staff yn bresennol, gan gynnwys y rhai yr adroddwyd ar eu hadrannau – mae hyn yn rhoi cyfle i mi a'r pwyllgor drafod y canfyddiadau, yr argymhellion a'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer rheolwyr yn fanwl. Pan dderbyniwyd argymhellion i wella neu gywiro, bu'n rhaid i gyfarwyddwyr ddarparu ymateb gweithredu ac amserlen ar gyfer pob argymhelliad hefyd. Mae gweithredu'r argymhellion hyn yn cael ei olrhain a'i fonitro gan yr adran Gwasanaethau Busnes a'r archwilwyr mewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried bod y rhestr reoli honno'n eitem sefydlog hefyd.

Yn 2018, cyflwynwyd Cod Ymddygiad newydd ar gyfer holl staff a chontractwyr y Gronfa, gan ddilyn argymhelliad o'r Adolygiad wedi'i Deilwra. Roedd hyn yn cynnwys meysydd megis:

- egwyddorion gwasanaeth mewn bywyd cyhoeddus
- gwrthdaro buddiannau
- rhoddion a lletygarwch
- chwythu'r chwiban

Hysbyswyd yr holl staff am y cod ac fe'i rhoddwyd ar ein Mewnrwyd. Rwyf yn fodlon ag effeithiolrwydd ein trefniadau chwythu'r chwiban.

Yn 2015, cyflwynwyd Llythyron Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol – sy'n disgrifio eu hawdurdodau dirprwyedig (ariannol, caffael ac ati) i'w cytuno ar ddechrau'r flwyddyn, i ategu'r memorandwm ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r cylch hwn wedi cael ei gwblhau yn 2020–21.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli'r Gronfa'n darparu'r lefel sicrwydd i mi y mae arnaf ei hangen. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n peri i mi gredu nad yw ein prosesau ar gyfer datgelu ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a datgelu twyll ac ar gyfer lleiafu colledion cymorth grant a grantiau'r Loteri Genedlaethol yn ddigonol.

Rhwng mis Tachwedd 2019 a 30 Ebrill 2020, cefais ganiatâd i fod yn absennol o'r Gronfa. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ymgymerodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol â'm dyletswyddau fel Prif Weithredwr, gyda chymorth gan yr Ymddiriedolwyr, ac ymgymerodd Eilish McGuinness â'm dyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu. Derbyniodd hi gymorth ac ymgynefino gan gydweithwyr yn DCMS

yn ogystal â'r Cyfarwyddwr Gweithredol (Gwasanaethau Busnes) yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Cyllid. Rwyf yn fodlon y cyflawnwyd yr holl gyfryw ddyletswyddau'n briodol ac yn effeithiol yn ystod fy absenoldeb.

**Ros Kerslake CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

2 Gorffennaf 2021

## Adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

### Tâl cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr

Roedd gan yr holl Ymddiriedolwyr hawl i dderbyn cyflog blynyddol am amser a dreuliwyd ar weithgareddau CGDG.

At hynny, mae CGDG yn ad-dalu treuliau teithio Ymddiriedolwyr pan fyddant yn teithio o'u cartrefi i'w swyddfa gyflogaeth yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast – fodd bynnag, roedd y swyddfeydd ar gau ar hyd 2020–21. Darparodd CGDG brydau bwyd i Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau gwlad ac ardal hefyd pan gynhaliwyd cyfarfodydd yn eu mannau cyflogaeth. Y Gronfa fu'n atebol am y rhwymedigaeth dreth ar yr holl dreuliau hyn.

Argymhellodd ein Hadolygiad Llywodraethu yn 2019 newidiadau i'n taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer Ymddiriedolwyr ac aelodau ein pwyllgorau gwlad ac ardal. Diben hyn oedd gwneud y rolau'n fwy atyniadol, cefnogi ein hymdrech i amrywiaethu cyfansoddiad ein Bwrdd a'n pwyllgorau, a chyfateb y taliadau cydnabyddiaeth i rolau tebyg mewn cyrff hyd braich eraill.

Ym mis Hydref 2020, symudom ein holl aelodau pwyllgor o gyfraddau dydd (£85 y dydd) i becyn tâl cydnabyddiaeth o £3,000 y flwyddyn. Er y cyflwynwyd hyn ym mis Hydref 2020, fe'i hôl-ddyddiwyd i fis Ebrill 2020. Mae hyn eisoes wedi dwyn ffrwyth wrth helpu i ddenu ymgeiswyr mwy amrywiol yn yr ymgyrch ddiweddar ar gyfer aelodau pwyllgor yng Ngogledd Lloegr, a gobeithiwn y caiff ei gynnal yn yr ymgyrchoedd recriwtio sydd i ddod yn 2021.

Cymeradwywyd newidiadau i dâl cydnabyddiaeth Ymddiriedolwyr gan DCMS yn 2020 a daethant i rym ym mis Ebrill 2021. Mae tâl cydnabyddiaeth y Cadeirydd wedi newid i £40,000 ar sail dau ddiwrnod gwaith yr wythnos (£100,000 ar sail cyfwerth ag amser llawn blynyddol).

Newidiodd tâl cydnabyddiaeth Ymddiriedolwyr sy'n cynrychioli ardaloedd o Loegr i £13,500 y flwyddyn, ac felly hefyd tâl cydnabyddiaeth Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg; bydd Ymddiriedolwyr eraill yn cael tâl cydnabyddiaeth o £10,500 y flwyddyn. Daw'r cyfraddau newydd i rym yn ystod y flwyddyn i ddod ar sail amseru ymgyrchoedd recriwtio yn 2021. Disgwylir i'r gost

flynyddol gyffredinol fod yn niwtral o ystyried y gostyngiad yn nifer yr Ymddiriedolwyr. Nid yw tâl cydnabyddiaeth Ymddiriedolwyr sy'n cynrychioli gwledydd wedi newid.

Mae tâl cydnabyddiaeth Ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth arnynt, yn cyfateb i'r bandiau yn y tabl isod. Penodir yr holl Ymddiriedolwyr gan y Prif Weinidog. Fe'u penodir am dair blynedd, gyda'r posibilrwydd o adnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynlluniau pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaeth y Gronfa unrhyw gyfraniadau i gynllun pensiwn ar ran yr Ymddiriedolwyr.

## Tâl cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Dyrannwyd tâl cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar sail 1%:99%. Cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr yn 2020–21 oedd £110,468 (2019–20: £183,147). Caiff tâl a chontractau'r Ymddiriedolwyr eu trafod a'u gosod gan DCMS. Nid yw eu contractau'n cynnwys unrhyw gymalau bonws. Ni roddwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau ac ni thalwyd unrhyw elfennau nad ydynt yn arian parod i'r Ymddiriedolwyr na'r cyfarwyddwyr gweithredol.

| Y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| René Olivieri<br>Cadeirydd Dros Dro o 1 Ionawr 2020 tan 31 Mawrth 2021 | **5–10** | 20–25 |
| Syr Peter Luff<br>Cadeirydd tan 31 Rhagfyr 2019 | **0** | 30–35 |
| Maria Adebowale-Schwarte | **5–10** | 5–10 |
| Y Farwnes Kay Andrews OBE | **20–25** | 20–25 |
| Anna Carragher<br>tan 6 Hydref 2019 | **0** | 10–15 |
| Jim Dixon | **5–10** | 5–10 |
| Dr Claire Feehily | **5–10** | 10–15 |
| Sarah Flannigan | **5–10** | 10–15 |
| Perdita Hunt OBE DL | **5–10** | 5–10 |
| Ray Macfarlane | **20–25** | 20–25 |
| Steve Miller<br>tan 17 Chwefror 2020 | **0** | 5–10 |
| Mukesh Sharma MBE DL<br>o 17 Awst 2020 | **10–15** | 0 |
| Dr David Stocker | **5–10** | 10–15 |
| Dr Tom Tew<br>tan 19 Ionawr 2020 | **0** | 5–10 |

Ni wnaed unrhyw daliadau bonws i uwch reolwyr yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei hadolygu na'r flwyddyn gymharu.

Yn 2019, cyflwynodd y Gronfa strwythur sefydliadol newydd a greodd dair adran newydd: Cyflawni Busnes, Gwasanaethau Busnes ac Arloesedd a Mewnwelediad Busnes. O ganlyniad i hyn, newidiodd ein strwythur uwch reoli ar yr un pryd wrth i ni greu tair swydd cyfarwyddwr gweithredol newydd sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Mae'r holl swyddi eraill ar lefel cyfarwyddwr bellach yn adrodd i'r cyfarwyddwyr gweithredol newydd. Cyflwynom strwythur tâl a graddio newydd ar gyfer yr holl staff hefyd ac, yn ddiweddarach yn y flwyddyn honno, polisi tâl newydd. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, daethom â'r cyfle i uwch aelodau staff gael codiadau cyflog blynyddol ar sail perfformiad i ben oherwydd disgwyliadau newydd y rolau hyn. Yn ogystal, penderfynwyd cydgrynhoi taliadau bonws posibl i mewn i gyflogau gan gydnabod y cyfrifoldebau newydd yr oedd y cyfarwyddwyr gweithredol yn ymgymryd â nhw yn sgil yr ailstrwythuro adrannol ac ehangu eu dyletswyddau. Mae'r tri chyfarwyddwr gweithredol a'r Prif Swyddog Gweithredol bellach yn derbyn cyflog cyfradd safonol, y gellir ei ailbrisio dim ond fel rhan o ddyfarniad tâl blynyddol y Gronfa. Asesir perfformiad yn flynyddol o hyd ond nid yw wedi'i gysylltu â'r adolygiad cyflog.

### Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV)

CETV yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn a aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisiwyd yw buddiannau cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniad pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniad pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w gyfanswm aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo'n unig.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw

fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y talodd amdanynt ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn budd-daliadau o ganlyniad i dreth lwfans gydol oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddiannau pensiwn.

## Tâl cydnabyddiaeth cyflogeion (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Roedd tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fel a ddisgrifir yn y ddau dabl isod. Cyflogwyd y Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes dros dro blaenorol, sef Carli Harper-Penman, trwy asiantaeth sy'n cyflenwi staff dros dro. Gan hynny, ni ddatgelir ei manylion yn y tabl isod:

| | **Cyflog 2020–21 £'000** | Cyflog 2019–20 £'000 | **Buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod 2020–21 £'000** | Buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod 2019–20 | **Cyfanswm 2020–21 £'000** | Cyfanswm 2019–20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ros Kerslake CBE<br>Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | **145–150** | 140–145 | **57** | 56 | **200–205** | 195–200 |
| Eilish McGuinness<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflawni Busnes | **115–120** | 105–110 | **54** | 182 | **170–175** | 285–290 |
| Colin Bailey<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes | **120–125** | 110–115 | **45** | 44 | **165–170** | 155–160 |
| Isabel Hunt<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes o 4 Tachwedd 2019 | **125–130** | 45–50* | **47** | 19 | **170–175** | 65–70 |

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad £'000 | Cyfanswm pensiwn cronedig ar oedran pensiwn a chyfandaliad £'000 | **Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/03/21 £'000** | CETV ar 31/03/20 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV a ariennir gan CGDG £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ros Kerslake CBE<br>Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | 2.5–5 | 15–20 | **277** | 209 | 48 |
| Eilish McGuinness<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflawni Busnes | 2.5–5 a 0–2.5 cyfandaliad | 40–45 plws 120–125 cyfandaliad | **958** | 885 | 39 |
| Colin Bailey<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes | 2.5–5 | 15–20 | **243** | 201 | 28 |
| Isabel Hunt<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes o 4 Tachwedd 2019 | 2.5–5 | 0–5 | **53** | 15 | 29 |

* Roedd swm cyfwerth blwyddyn lawn cyflog Isabel Hunt yn 2019–20 yn y band £120,000 i £125,000

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl ymadael â'r cynllun fel aelod gweithredol os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos a 65 neu oedran pensiwn y wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer cyfarwyddwyr yn dangos pensiwn a enillir yn PGPGS neu alpha, fel y bo'n briodol. Pan fydd gan y cyfarwyddwr fuddiannau mewn PGPGS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunedig ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond dylid nodi y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedrannau gwahanol.

**Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Ac eithrio Carli Harper-Penman, a fu'n Gyfarwyddwr Gweithredol, Arloesedd a Mewnwelediad Busnes dros dro tan 7 Tachwedd 2019, roedd gan yr holl rolau staff uwch gontractau cyflogaeth parhaol. Ac eithrio Carli Harper-Penman, roedd yr holl uwch gyflogeion yn aelodau cyffredin Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) neu alpha. Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a CGDG ar sail 99%:1% (2019–20: 99%:1%).

Ym mis Rhagfyr 2018, cyflogwyd Carli Harper-Penman fel Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes dros dro. Ni fu'n gyflogai y Gronfa; caffaelwyd ei gwasanaethau trwy asiantaeth. Wrth ei chyflogi, bodlonodd y Gronfa ei hun ei bod yn cydymffurfio â Nodyn Caffael Cyhoeddus (PPN) 8/15 Trefniadau Treth Cyflogeion Cyhoeddus. Dilynodd y trefniadau Adran 7 y PPN hwnnw ac roedd y Gronfa hefyd wedi'i bodloni ynglŷn â'r trefniadau cydymffurfio IR35 cyn i'r gyflogaeth ddechrau. Y gyfradd a dalwyd i'r asiantaeth oedd £826 y dydd, gan roi swm blynyddol o £176,764. Gadawodd Carli ar 7 Tachwedd 2019.

## Cymhareb tâl cydnabyddiaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Un o ddeilliannau Adolygiad Tâl Teg Hutton yw ei bod yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol sydd â'r tâl uchaf (gan gynnwys y Prif Weithredwr) a thâl cydnabyddiaeth canolrifol ein gweithlu.

Tâl cydnabyddiaeth blynyddol fesul band y cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl uchaf yn 2020–21 oedd £145,000 i £150,000 ac yn 2019–20 roedd yn £140,000 i £145,000. Roedd hyn tua 4.0 gwaith (2019–20: 4 gwaith) tâl cydnabyddiaeth canolrifol y gweithlu, sef £36,828 (2019–20: £36,000). Nid oedd unrhyw gyflogeion a dderbyniodd dâl cydnabyddiaeth uwch na'r cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl uchaf. Amrywiodd tâl cydnabyddiaeth o £18,180 i fand £145,000 i £150,000 (2019–20: £18,000 i fand £140,000–£145,000).

Roedd y cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl uchaf yn destun cylch cyflog y llywodraeth. Cyfyngodd hwn ar y swm sydd ar gael i ariannu codiadau cyflog staff i 2.5% o'r gyflogres.

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân cysylltiedig â pherfformiad a buddion mewn nwyddau neu wasanaethau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Mae'n ofynnol hefyd i ni ddatgelu cymhareb cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr o'i gymharu â 25ain, 50fed a 75ain canradd tâl cyfwerth ag amser llawn staff. Datgelir yr wybodaeth hon isod.

| | Cymhareb |
|---|---|
| 25ain canradd | **5.5** |
| 50fed canradd | **4.0** |
| 75ain canradd | **3.4** |

## Pecynnau ymadael (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Yn unol â gofynion Swyddfa'r Cabinet, mae'n ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi manylion pob pecyn ymadael a gytunwyd yn y flwyddyn ariannol dan sylw. Yr hyn sy'n dod o dan ddiffiniad pecynnau ymadael yw diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeol yn gynnar, iawndal am golli swydd a thaliadau ex-gratia.

Ym mis Ebrill 2019, gweithredodd y Gronfa ymarfer ailstrwythuro sefydliadol mawr a arweiniodd at greu adrannau newydd, timau newydd a rolau newydd i gyflwyno gwasanaethau'r Gronfa'n well. Ni wnaed unrhyw ddiswyddiadau, ond yn ystod y cyfnod hwn o newid gofynnodd nifer fach o gydweithwyr am ymadael yn wirfoddol. Datganwyd staff a adawodd cyn mis Ebrill 2019 yn Adroddiad Blynyddol 2018–19, ond roedd nifer fach o weithredoedd ailstrwythuro gweddilliol a wnaed yn 2019–20, a dangosir y rhain isod. Roedd yr holl weithredoedd yn wirfoddol; h.y. ar gais yr unigolion eu hunain, ond barnwyd eu bod er budd y Gronfa. Cymeradwywyd yr holl geisiadau gan dîm gweithredol y Gronfa a Swyddfa'r Cabinet ac fe'u rheolwyd yn unol â gofynion Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Dangosir manylion y taliadau isod. Pennir y lefelau gan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, nid gan y Gronfa. Nid oedd unrhyw rai yn 2020–21 (2019–20: naw) yn y bandiau canlynol:

| | **2020–21 nifer** | 2019–20* nifer |
|---|---|---|
| £5,000–£9,999 | **0** | 1 |
| £10,000–£14,999 | **0** | 4 |
| £30,000–£34,999 | **0** | 1 |
| £35,000–£39,999 | **0** | 1 |
| £40,000–£44,999 | **0** | 1 |
| £50,000–£54,999 | **0** | 1 |
| **Cyfanswm** | **0** | 9 |

* yn cynnwys iawndal yn lle rhybudd

Codwyd 99% o gost y pecynnau ymadael hyn ar ein gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

## Costau a niferoedd staff (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **8,323** | 11,302 |
| Taliadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr | **736** | 996 |
| Taliadau i'r cynllun pensiwn | **2,168** | 2,576 |
| Costau staff dros dro | **360** | 727 |
| | **11,587** | 15,601 |

Oherwydd y ffordd y mae'n systemau'n gweithredu, nid ydym yn gallu rhoi dadansoddiad o gostau rhwng staff ar gontractau parhaol a'r rhai hynny ar gontractau cyfnod penodol.

Roedd nifer gyfartalog y cyflogeion a fu'n gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel a ganlyn:

| **2020–21** | **Cyflawni Busnes** | **Gwasanaethau Busnes** | **Arloesedd Busnes** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | **105** | **48** | **38** | **191** |
| Secondeion, staff contract a phrentisiaid | **17** | **2** | **1** | **20** |
| **Cyfanswm** | **122** | **50** | **39** | **211** |

| 2019–20 | Cyflawni Busnes | Gwasanaethau Busnes | Arloesedd Busnes | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 171 | 36 | 32 | 239 |
| Secondeion, staff contract a phrentisiaid | 10 | 10 | 7 | 27 |
| **Cyfanswm** | 181 | 46 | 39 | 266 |

Nid yw staff dros dro ac asiantaeth wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod gan nad yw ein systemau'n caniatáu cywain a chyfrifo ffigur cyfwerth ag amser llawn.

## Pensiynau

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. O fis Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i oedran pensiwn gwladwriaeth yr aelod (neu 65 oed os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd pob gwas sifil newydd ei benodi a'r mwyafrif o'r rhai a fu eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, cymerodd gweision sifil ran mewn PGPGS, sydd â phedair adran: tair sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium a classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, a thelir costau'r buddiannau gan gyllid a bleidleisir gan y senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn codi'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Parhaodd aelodau presennol PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i fod yn rhan o PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai yr oeddent rhwng 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddiannau'r holl aelodau sy'n newid i PGPGS yn cael eu bancio, a bydd y rhai sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PGPGS yn gweld bod y buddiannau hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniad buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliad prynu arian gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% o enillion pensiynadwy yn achos aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premiwm yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Cynllun cymysg yw Classic Plus, i bob pwrpas, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos, mae aelodau'n cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae cyfrif pensiwn a enillir yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau.

Mae buddiannau yn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ond mae'r gyfradd gronni'n 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniad pensiwn cyfranddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £19,275 (2019–20: £19,161) i banel o ddarparwyr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae CGDG yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Yn ystod 2018–19, lleihawyd y panel i un cyflenwr, sef Legal & General.

Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ar hyn o bryd, mae pedwar aelod staff yn gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol sydd â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Ceir manylion pellach am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ar y wefan www.civilservice pensionscheme.org.uk. Er eu bod yn gynlluniau buddiant diffiniedig, mae atebolrwydd am dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar PGPGS neu alpha. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill sy'n dod o dan PGPGS ac alpha yn talu cost y


pensiwn a ddarperir ar gyfer y staff y maent yn eu cyflogi ar ffurf taliadau a gyfrifir ar sail gronedig. Ar gyfer 2020–21, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £2,148,789 (2019–20: £2,556,538), ac eithrio symiau a dalwyd i gynlluniau pensiwn partneriaeth, i PCSPS ac alpha ar y cyfraddau a ddisgrifir fel a ganlyn:

| Cyflog yn 2020–21 | % yn 2020–21 |
|---|---|
| £23,000 ac is | **26.6%** |
| £23,001–£45,500 | **27.1%** |
| £45,501–£77,000 | **27.9%** |
| £77,001 ac uwch | **30.3%** |

## Rheoli absenoldeb

Gostyngodd lefelau absenoldeb ar draws y Gronfa i 1.4% yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn is na'r flwyddyn flaenorol ac yn parhau i fod yn is na'r meincnod cymaradwy ar gyfer sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig gyfan gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

### Lefelau absenoldeb




DS: Lefel Meincnod y Deyrnas Unedig a ddyfynnir yn y siart uchod yw cyfartaledd cenedlaethol y sector cyhoeddus a gymerwyd o Swyddfa Ystadegau Gwladol y Llywodraeth a ffynonellau eraill tebyg.

Gellid priodoli rhan o'r gostyngiad hwn i'r gostyngiad yn y nifer fach o absenoldebau tymor hir. Gellid ei briodoli'n rhannol hefyd, yn ôl pob tebyg, i'r ffaith bod swyddfeydd wedi cael eu cau yn gynnar ac wedi aros ar gau ar hyd y flwyddyn. Roedd cyfyngiadau symud COVID-19 ar waith ledled y Deyrnas Unedig a rhoddwyd canllawiau ar waith yn gyflym iawn i ddiogelu cydweithwyr, gan olygu bod staff yn llai agored i heintiau trosglwyddadwy yn gyffredinol. Mae'n bosibl hefyd y gallai fod elfen o danadrodd rhai absenoldebau oherwydd bod swyddfeydd ar gau a bod yr holl staff yn gweithio gartref.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom olrhain staff a gafodd eu heintio neu a oedd yn debygol o fod wedi cael eu heintio â COVID-19 yn ystod y pandemig. Arhosodd y niferoedd cyffredinol hyn ar lefelau cymedrol, er bod gennym nifer fach o staff sy'n dangos symptomau COVID-19 tymor hir. Rydym, wrth gwrs, yn parhau i gefnogi a helpu cydweithwyr yn y sefyllfa honno trwy ein rhaglenni Cymorth i Gyflogeion ac Iechyd Galwedigaethol.

Gyda'r pandemig mewn golwg, rydym wedi parhau i annog gwell adrodd am absenoldeb, gan adeiladu at ein systemau a'n prosesau newydd gwell yn 2019.

Yn rhan o'n hymateb i'r argyfwng, cyflwynom hefyd raglen gymorth iechyd meddwl a lles gynhwysfawr ar gyfer staff, a oedd yn cynnwys bron tri deg o fentrau i gynorthwyo cydweithwyr a diogelu eu lles. Yn ogystal, darparom frechiadau ffliw i bob aelod o staff yn ystod y flwyddyn trwy fenter gorfforaethol.

## Ymgysylltu ac ymgynghori â chyflogeion

Rydym yn parhau i hysbysu ein staff yn rheolaidd a'u cynnwys mewn trafodaethau ar ein cyfeiriad strategol a'n perfformiad gweithredol. Mae'r holl staff yn derbyn crynodebau newyddion dyddiol, cylchlythyrau wythnosol ac erthyglau mewnrwyd sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt, ac mae gennym grwpiau trafod bywiog a phoblogaidd ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Gronfa'n cyfarfod bob chwarter gyda'n partneriaid undeb llafur (FDA a PCS) hefyd. Mae'r rhain yn ychwanegu at y cylch newydd o gyfarfodydd a sefydlwyd gennym yn 2019 ac wedi bod yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn. Mae mwy o wybodaeth am ein gweithgarwch undeb llafur yn yr adran 'Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017'.

Yn union cyn yr argyfwng ac ar ei ddechrau, cynhaliom gyfres o Fwletinau Staff Cyfan i roi gwybodaeth amser real am gamau gweithredu yr oeddem yn eu cymryd i roi ein cynlluniau parhad busnes ar waith a diogelu staff. Ein prif nod drwy gydol yr argyfwng fu cadw staff yn ddiogel ac yn iach. Cynhaliom hefyd gyfres o Arolygon Gwirio bob ychydig wythnosau yn ystod y flwyddyn fel bod staff yn gallu rhoi adborth ar ein hymateb i'r pandemig, ac i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth yr oedd arnynt ei hangen a chefnogaeth rheolwyr. Roedd gan y rhain gyfraddau cyfranogiad cryf ac roedd yr adborth gan staff yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r gefnogaeth a'r cymorth a oedd ar gael. Dewisom beidio â chynnal arolwg llawn y flwyddyn

honno oherwydd yr argyfwng, a byddwn yn ei gynnal yn yr hydref 2021 yn lle hynny.

Yn ogystal, rydym wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd Staff Cyfan rhithwir ar hyd y flwyddyn i roi'r diweddaraf i staff am faterion busnes, ein rhaglenni grant a'n hymatebion mewnol i'r argyfwng. Mynychwyd y rhain yn dda; lluniwyd arolygon agored i gyd-fynd â'r cyfarfodydd hyn hefyd i ganiatáu i staff ofyn cwestiynau neu godi materion cyn ac yn ystod y cyfarfodydd staff. Bu'r rhain yn llwyddiannus.

Rydym hefyd wedi cyflwyno cyfres o ddigwyddiadau, gweithdai, fideos a rhyngweithiadau rhithwir eraill gyda staff i gefnogi a hyrwyddo ein gwerthoedd a'n hymddygiadau newydd. Lansiom ein Fframwaith Ymddygiadol newydd yn anffurfiol yn ystod y flwyddyn ac rydym wedi ei gynnwys yn ein fframwaith newydd ar gyfer recriwtio a lansiodd ar ddiwedd y flwyddyn a'n fframwaith rheoli perfformiad newydd a fydd yn lansio yn gynnar yn yr haf 2021.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd greu rhwydwaith llwyddiannus iawn o Hyrwyddwyr Diwylliant ar draws y Gronfa i helpu i hyrwyddo ein diwylliant, gan ganolbwyntio ar ein gwerthoedd newydd a'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â nhw. Mae hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn hefyd.

## Monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth a chyflogaeth

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn rhan ganolog o'n gwaith wrth roi grantiau, yn ogystal ag wrth wraidd ein trefniadau llywodraethu a'n gweithlu. Maent hefyd yn rhan annatod o'n gwerthoedd a'n hymddygiadau.

Ym mis Mai 2020, lansiom adolygiad ar raddfa fawr o'n hymagwedd at faterion EDI wrth ymateb i'r ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys ac i achub ar y cyfle i ddiwygio ein dulliau yn y meysydd hyn. Cadeiriwyd yr adolygiad hwn gan Maria Adebowale-Schwarte, sef un o'n Hymddiriedolwyr, a sefydlwyd tasglu i oruchwylio'r gwaith hwn a oedd yn cynnwys aelodau o bob rhan o'r sector a'r Deyrnas Unedig. Rheolwyd y gwaith gan Andrew White, ein Cyfarwyddwr Cyflawni Busnes ar gyfer Cymru, sydd â chryn brofiad o faterion EDI. Sefydlwyd gweithgor a oedd yn cynnwys aelodau o bob rhan o'r Gronfa hefyd i gefnogi'r ffrydiau gwaith. Gwnaethom hefyd gomisiynu gwaith ymchwil, data a mewnwelediad ynglŷn â materion EDI yn rhinwedd ein swyddogaeth fel rhoddwr grantiau i helpu i lywio ein gwaith. Cwblhawyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2021 ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd. Bydd ei argymhellion ynglŷn â rhoi grantiau, llywodraethu a'r gweithlu yn dechrau cael eu rhoi ar waith yn 2021.

Yn ystod y flwyddyn, parhaom i gyflwyno a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth y Gweithlu a luniwyd gennym yn 2019–20 yn ogystal â'n Cynllun Gweithredu Anabledd newydd. Gwnaethom hefyd greu rôl newydd yn y tîm Adnoddau Dynol yn benodol ar gyfer materion EDI yn y gweithle a'r gweithlu.

Er gwaethaf yr argyfwng, aethom ati i gyflymu camau gweithredu o'r cynlluniau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyflwyno e-ddysgu gorfodol ar EDI, hyfforddiant grŵp gorfodol ar EDI gan gynnwys recriwtio, cynnwys EDI yn ein Fframwaith Ymddygiadol newydd a chreu calendr o ddigwyddiadau EDI ar hyd y flwyddyn. Rydym wedi creu canllawiau newydd i'r staff ar faterion EDI, fel trawsrywedd, cynorthwyo pobl o ffydd a hil. Gwnaethom hefyd gwblhau a hyrwyddo Datganiad Cydraddoldeb newydd ar gyfer y Gweithlu i gadarnhau ein hymrwymiadau yn y maes hwn.


Yn rhan o'i hymrwymiad i EDI, mae'r Gronfa'n croesawu ac yn hyrwyddo ceisiadau am rolau gan unigolion ag anabledd. Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac yn hyrwyddo hyn yn ein pyrth a'n llenyddiaeth recriwtio. Gwnaethom ail-lansio ein fframweithiau, polisïau a gweithdrefnau recriwtio ar ddiwedd 2020–21 ac roedd y rhain yn adlewyrchu ein hymrwymiad ehangach i EDI, gan gynnwys ymrwymiad i ymgeiswyr a chydweithwyr anabl. Rydym yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pob ymgeisydd mewn cyfweliadau ac yn ystod y broses ddethol.

O ran ymgeiswyr sy'n llwyddiannus ac yn ymuno â ni, a chyflogeion presennol hefyd, rydym yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer gweithio yn y Gronfa, gan gynnwys y rolau, yr amgylchedd gweithio, addasiadau arbenigol ac ati. Mae'r Gronfa'n cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. At hynny, mae'r Gronfa hefyd yn defnyddio system atgyfeirio iechyd galwedigaethol arbenigol a chontractwr arbenigol i roi cyngor, arweiniad a chymorth manwl i'r holl staff. Yn ogystal, mae'r Gronfa hefyd yn darparu Rhaglen Cymorth i Gyflogeion sydd ar gael i staff 24 awr y


dydd, 365 niwrnod o'r flwyddyn. Mae'r Gronfa wedi bod yn ymwybodol iawn o'r heriau i iechyd meddwl a lles staff drwy gydol yr argyfwng COVID-19 a risgiau 'anableddau cudd'. Mae'r Gronfa'n cefnogi pob cydweithiwr a allai fod mewn perygl yn y sefyllfaoedd hyn ac yn rhoi arweinyddiaeth, cyfarwyddyd a chymorth rheolaeth linell, yn ogystal â chymorth uniongyrchol i staff y mae'r meysydd hyn yn effeithio arnynt.

Yn ystod y flwyddyn, parhaom â'n partneriaeth â Leonard Cheshire trwy eu rhaglen Change 100. Change 100 yw eu rhaglen flaenllaw o leoliadau gwaith haf taledig, datblygiad proffesiynol a


### Amrywiaeth ethnig: BAME yn y gweithlu





### Amrywiaeth o ran rhywedd: Menywod yn y gweithlu




### Amrywiaeth o ran anabledd: Anabledd yn y gweithlu




### Amrywiaeth o ran cyfeiriadedd rhywiol: LGBTQ+ yn y gweithlu




**Ystadegau Amrywiaeth y Gweithlu**
DS: Mae'r lefelau Meincnod y DU a ddyfynnir yn y siartiau uchod yn lefelau cenedlaethol sy'n allanol i'r Gronfa. Cymerwyd y data o Swyddfa Ystadegau Gwladol y Llywodraeth a ffynonellau eraill tebyg.

| Gwerth | Ffocws Amrywiaeth y Gweithlu |
| --- | --- |
| **Cynhwysol:** o bob agwedd ar dreftadaeth a buddiannau'r holl bobl a chymunedau | Rydym yn dathlu ein hamgylchedd gweithio cynhwysol sy'n hybu tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn cydnabod bod angen i'n nodau allanol o symbylu cynhwysiad mewn treftadaeth gael eu paru â gweithredoedd mewnol i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu. |
| **Uchelgeisiol:** ac yn fentrus ar gyfer ein pobl, ein cymunedau a'n sector | Rydym yn cydnabod yr angen am weithredoedd a strategaethau newydd a rhagweithiol i wella amrywiaeth ein gweithlu yn y dyfodol – gan edrych yn allanol trwy ailffocysu gweithredoedd recriwtio ond yn fewnol hefyd trwy reoli doniau a chynllunio olyniaeth. |
| **Cydweithredol:** trwy weithio mewn partneriaethau a dysgu ganddynt | Rydym yn cydnabod pŵer harneisio gweithlu amrywiol sy'n gweithio ar y cyd tuag at ein nodau craidd. Rydym yn gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol a chyfraniadau pawb a gyda'n gilydd rydym yn gryfach o'i herwydd. |
| **Dibynadwy:** am ein huniondeb, barn ac arbenigedd | Mae'n hanfodol bod ein pobl, cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn ymddiried yn ein gweledigaeth a phrosesau. Rydym yn cefnogi tegwch, urddas a pharch i bawb. Rydym yn deall bod yn rhaid i recriwtio, datblygu gyrfa, dysgu a chefnogaeth fod yn deg ac yn wrthrychol. |

mentora. Nod y rhaglen yw dileu'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl yn y gweithle, i ganiatáu iddynt gyrraedd eu potensial.

Creom bartneriaeth strategol newydd â Chymrodoriaeth Windsor a chreu swyddi newydd i raddedigion er mwyn iddynt weithio gyda ni am flwyddyn a datblygu cyfleoedd gyrfa ym maes treftadaeth. Dechreuodd ein carfan gyntaf o gymrodorion yn ystod y flwyddyn a byddwn yn cynnal ail ymgyrch yn ddiweddarach yn 2021.

Datblygom bartneriaeth hefyd â 2027 yn yr Alban. Rhaglen flwyddyn o hyd yw hon o rolau â chyflog llawn a datblygiad proffesiynol i helpu pobl o gefndir dosbarth gweithio i ddechrau gyrfa mewn sefydliadau sy'n rhoi grantiau. Disgwyliwn recriwtio i'r rhaglen hon yn gynnar yn yr haf 2021.

## Dadansoddiad Amrywiaeth y Gweithlu

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y siartiau uchod yn dangos darlun amrywiaeth y gweithlu ar draws y Gronfa, wedi'i wahanu yn ôl ethnigrwydd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd. Dangosir data meincnod cymharol hefyd (yn seiliedig ar lefelau poblogaeth weithio'r Deyrnas Unedig).

Rydym yn parhau i gydnabod nad yw ein gweithlu mor amrywiol mewn rhai meysydd o gymharu â lefelau cenedlaethol ac yn cydnabod bod rhai grwpiau staff sydd wedi'u tangynrychioli. Rydym hefyd yn parhau i gydnabod tueddiadau a rhwystrau ehangach rhag mynediad i'r sector treftadaeth, boed hynny'n ddiarwybod neu'n ymwybodol, sydd oll yn effeithio ar ffurf ein gweithlu. O ganlyniad, rydym wedi parhau i wella ein system gwybodaeth reoli Adnoddau Dynol i gynorthwyo â'r gwaith hwn a chaniatáu i staff gael mynediad uniongyrchol at eu data personol er mwyn annog datgelu gwybodaeth yn llawn.

Ar ddiwedd y flwyddyn, lansiom broses a system recriwtio newydd sbon yn seiliedig ar ein gwerthoedd a'n hymddygiadau. I gyd-fynd â'r polisi sy'n cefnogi hyn, cyflwynwyd canllawiau newydd ar ymgorffori EDI mewn recriwtio, yn enwedig sianeli recriwtio. Mae'r dull newydd hwn hefyd yn dileu cymwysterau academaidd fel gofyniad yn y broses recriwtio (gydag eithriadau ar gyfer rhai rolau penodol).

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar weithio tuag at ein chwe nod craidd:

| | |
|---|---|
| **Nod 1**: | Gwella amrywiaeth wrth recriwtio |
| **Nod 2:** | Gwella rheoli amrywiaeth y gweithlu |
| **Nod 3:** | Gwella datblygiad gyrfaol staff a dangynrychiolir |
| **Nod 4:** | Gwella cynhwysiant trwy wella cefnogaeth i staff |
| **Nod 5:** | Gwella amrywiaeth trwy brentisiaethau a lleoliadau gwaith |
| **Nod 6:** | Gwella llywodraethu amrywiaeth yn y gweithlu |

Mae'r Gronfa'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'n dyletswyddau statudol o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Rydym yn dal y dyfarniad Hyderus o ran Anabledd ar gyfer recriwtio o hyd.

## Iechyd a Diogelwch yn y gwaith

Newidiodd yr argyfwng COVID-19 ein hymagwedd at iechyd a diogelwch mewn ffordd sylfaenol drwy gydol 2020–21. Ein prif amcan oedd cadw ein holl staff yn ddiogel ac yn iach, ac mae hynny'n parhau. Yn ffodus, roedd lefelau'r haint yn gymharol gymedrol ar draws y Gronfa. O'r dechrau, rhoddom ddiweddariadau i'r staff ac atebion i gwestiynau cyffredin yn unol â'r canllawiau iechyd y cyhoedd a oedd yn berthnasol ledled y Deyrnas Unedig, a diwygiwyd y rhain yn rheolaidd ar hyd y flwyddyn. Darparom ddeunyddiau cymorth ychwanegol i reolwyr llinell i'w helpu i ofalu am eu timau, a lansio dros 30 o fentrau iechyd meddwl a lles ar gyfer staff yn ystod y flwyddyn.

Drwy gydol 2020–21, bu swyddfeydd y Gronfa ar gau o ganlyniad i'r pandemig a gweithiodd staff o bell o'u cartrefi. O ganlyniad, cafodd y polisïau iechyd a diogelwch arferol a oedd yn ymwneud â swyddfeydd eu hatal dros dro, i bob pwrpas. Gofynnwyd i bob aelod o staff gwblhau asesiad Cyfarpar Sgrin Arddangos (DSE) ac asesiad gweithio gartref – cyrchwyd dros 260 o sesiynau hyfforddi ar-lein yn ein gwasanaeth e-ddysgu yn ystod y flwyddyn. Darparodd y Gronfa hefyd fwy na 200 o gadeiriau i staff a oedd yn gweithio gartref, bron 100 o fonitorau a dros 340 o ategolion cyfrifiadurol i hwyluso gweithio gartref. Yn ogystal, sicrhaodd y Gronfa fod staff newydd yn cael eu hymgynefino'n briodol yn y meysydd hyn.

Darparodd y Gronfa frechiadau ffliw i bob aelod o staff hefyd yn rhan o'n hymrwymiad i les ac iechyd ehangach.

Cynhaliwyd ymweliadau safle'n rhithwir a dim ond pan oedd y canllawiau iechyd y cyhoedd perthnasol yn y Deyrnas Unedig yn caniatáu hynny y'u cynhaliwyd yn bersonol, ac yn yr awyr agored yn unig.

Wrth i ni baratoi ar gyfer ailagor swyddfeydd, mae asesiad risg manwl yn cael ei gynnal ar gyfer pob swyddfa. Bydd canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (a chyrff cyfatebol) yn cael eu dilyn ac mae'r Gronfa wedi cyflogi contractwyr allanol sydd â phrofiad yn y meysydd hyn i'n helpu i gynllunio ac ailagor swyddfeydd yn ddiogel.

## Rheoli cyfalaf dynol

Mae gan y Gronfa bolisi cytunedig gyda'i hundebau llafur. Mae gwobrwyon a chydnabyddiaeth ar gyfer materion tâl yn gweithredu o fewn y fframwaith hwnnw. Roedd y dyfarniad cyflog ar gyfer 2020 hefyd yn cydymffurfio â chylch cyflog perthnasol y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y flwyddyn honno ac fe'i cymeradwywyd gan ein hadran noddi, sef DCMS. Datblygodd y Gronfa fframwaith rheoli perfformiad newydd ar gyfer yr holl staff yn ystod y flwyddyn a fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod chwarter cyntaf 2021–22.

Yn ogystal, datblygodd y Gronfa Strategaeth Datblygu'r Gweithlu newydd ar gyfer yr holl staff, rheolwyr llinell ac arweinwyr yn ystod y flwyddyn, a dechreuwyd ei rhoi ar waith yn 2020–21; gan gynnwys mwy na 200 o sesiynau hyfforddi a gynigiwyd dros 131 o ddiwrnodau gwaith gyda mwy na 2,200 o bresenoldebau yn y digwyddiadau hynny. Cynhaliwyd pum digwyddiad ymgynefino corfforaethol gyda sgôr asesu 100% gan y mynychwyr, a ddywedodd eu bod yn 'ddefnyddiol iawn' neu'n 'ddefnyddiol'. Dilynodd staff bron 300 o fodiwlau hyfforddi 'pwt dysgu' hefyd.

Yn olaf, datblygodd y Gronfa gynlluniau rheoli talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth, a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod 2021–22.

## Trosiant staff

Yn 2020–21, gadawodd 26 aelod o staff y Gronfa; mae hyn yn cynrychioli 9% o'n cyflenwad staff (289 cyfwerth ag amser llawn). Mae'r gyfradd drosiant hon yn is na'r cyfartaledd tymor hwy o c15%, ac mae'n adlewyrchu sefyllfa'r argyfwng a chyfleoedd yn y farchnad swyddi, yn ogystal â sicrwydd deiliadaeth rolau yn y Gronfa yn y cyd-destun hwnnw. Nifer yr ymadawiadau cyfatebol yn 2019–20 oedd 65 (22%), ac effeithiwyd yn drwm ar hynny gan elfennau gweddilliol ein gwaith dylunio sefydliadol yn y flwyddyn honno a'r ffaith bod nifer o benodiadau cyfnod byr wedi dod i ben. Mae'r Gronfa'n cydnabod y cydbwysedd rhwng cyfraddau iach o gadw staff a dod â thalent a phobl newydd i'r Gronfa.

## Gwariant ar ymgynghoriaeth

Gwariodd CGDG £447,000 ar ymgynghorwyr yn 2020–21 (2019–20: £623,000) fel rhan o'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae CGDG wedi defnyddio'r diffiniadau o ymgynghoriaeth sydd wedi'u cynnwys o fewn atodiad 6.1 arweiniad mesurau rheoli Swyddfa'r Cabinet: fersiwn 4.0. Mae'r mwyafrif helaeth o'r gwaith ymgynghori hwn yn gysylltiedig ag ymchwil a gyflawnwyd ar ein rhaglenni grant a'r sector treftadaeth yn ogystal ag ailddylunio ein brand Cronfa Treftadaeth.

## Chwythu'r chwiban

Mae gan y Gronfa Bolisi Chwythu'r Chwiban clir a hygyrch sydd wedi'i ddylunio i alluogi staff i godi pryderon a datgelu gwybodaeth y mae'r unigolyn yn tybio ei bod yn dangos camarfer neu amhriodoldeb. Mae hyn yn ymdrin â phryderon sydd er lles y cyhoedd ac yn cynnwys y materion (anghynhwysol) a ganlyn:

- camarfer neu amhriodoldeb o ran cyllid neu dwyll
- methu cydymffurfio â rhwymedigaeth neu statudau cyfreithiol
- peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd
- gweithgarwch troseddol
- ymddygiad amhriodol neu anfoesegol
- ymgeisiau i guddio unrhyw un o'r uchod

## Trefniadau treth cyflogeion sector cyhoeddus


Mae Trysorlys EM yn mynnu bod yr holl gyrff llywodraeth ganolog yn adrodd ar statws treth uwch reolwyr a chontractwyr tymor hir. Yn benodol, mae

Trysorlys EM yn mynnu bod yr holl uwch reolwyr ar y gyflogres ac yn talu treth o dan y cynllun PAYE.

Mae'r holl staff uwch, ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor gwlad ac ardal ar gyflogres CGDG ac felly'n talu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol trwy'r llwybr PAYE. Mae'r Gronfa'n cydymffurfio â gofynion IR35. Mae'r holl weithwyr ar y gyflogres ac eithrio staff a gyflogir yn uniongyrchol trwy asiantaethau; wedi'u secondio dros dro i'r Gronfa a'u talu trwy gyflogres eu cyflogwr; neu, mewn nifer fach iawn o achosion, fel contractwyr unigol sydd y tu allan i IR35. (Penodir yr olaf dim ond yn dilyn archwiliad manwl a datganiad a wneir o dan y ddeddfwriaeth hon).

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r Gronfa'n gwneud cyfraniadau i gynlluniau pensiwn staff. Ar wahân i wneud y taliadau hyn, nid oes gan y Gronfa unrhyw rwymedigaethau pensiwn.



**Ros Kerslake CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

2 Gorffennaf 2021

# Adroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol

## Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i ddau dŷ'r Senedd Brydeinig a Senedd yr Alban.

**Barn ar y datganiadau ariannol**
Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiad am y Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad am y Sefyllfa Ariannol; Datganiad am y Llifoedd Arian; y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol yn unol â'r dehongliad ohonynt yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EM.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y nodir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a sefyllfa gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2021, ac o Cyfanswm incwm cynhwysfawr neu gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan hynny.

**Barn am reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail y farn**
Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (ISA) (DU), y gyfraith berthnasol, a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis defnyddio'r safonau moesegol sy'n berthnasol i listed entities. Rwyf yn annibynnol ar Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw**
Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Mae gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn y Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

**Gwybodaeth Arall**
Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd y nodir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi cael eu harchwilio, y datganiadau ariannol a fy nhystysgrif archwilydd ar hynny. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu sydd yn ymddangos fel camddatganiad o bwys fel arall. Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i mi bennu a yw hyn yn golygu bod camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

**Barn am faterion eraill**
Yn fy marn i, ar sail y gwaith a gyflawnwyd wrth gynnal yr archwiliad:

- mae rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaethpwyd o dan the National Heritage Act 1980.
- mae'r wybodaeth yn yr ee, Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**
Ac ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr adroddiad perfformiad ac atebolrwydd. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn cysylltiad â'r materion canlynol, y byddaf yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad yw rhai o'r taliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EM, wedi cael eu datgelu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EM.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- rheolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.
- asesu gallu gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni fo'r Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â'r Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol o ran a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Mae fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol sy'n ymwneud â'r canlynol:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol sy'n ymwneud â Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980, Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998.
- trafod ymysg y tîm ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan

o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol ac postio cyfnodolion anarferol, y ddarpariaeth ar gyfer ymrwymiadau sydd wedi dod i ben a gwariant grant;

- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith o bwys ar weithrediadau gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Roedd y prif gyfreithiau a rheoliadau a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Y sail ddeddfwriaethol ar gyfer paratoi cyfrifon, Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyfraith Cyflogaeth, Deddfwriaeth Tret, Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993; a
- cynnal gweithdrefnau dadansoddol i ganfod unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl a allai awgrymu risgiau o gamddatganiadau o bwys o ganlyniad i dwyll.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r hyn a ddatgelwyd yn y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosib;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi pa mor briodol yw eitemau dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol; a
- cynnal gweithdrefnau dadansoddol i ganfod unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl a allai awgrymu risgiau o gamddatganiadau o bwys o ganlyniad i dwyll.

Roeddwn hefyd wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol a thimau archwilio cydrannau o bwys, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

Ar ben hynny, rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant/derbynebau a thaliadau yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

**Adrodd**
Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Cyfieithiad Cymraeg**
Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

7 Gorffennaf 2021

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SWIW 9SP

# Y datganiadau ariannol

## Datganiad incwm net cynhwysfawr

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodiadau | £'000 | 2020–21 £'000 | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Enillion gan y Loteri Genedlaethol | 10 | **362,755** | | 355,217 |
| Incwm buddsoddi CGDG | 10 | **212** | | 1,718 |
| | | | **362,967** | 356,935 |
| Llog derbyniadwy | 3 | **16** | | 164 |
| Mân incwm | 2 | **111** | | 172 |
| **Cyfanswm incwm** | | | **363,094** | 357,271 |
| Dyfarniadau grant newydd | 12 | **(176,155)** | | (251,921) |
| Dyfarniadau a ddadymrwymwyd | 12 | **6,882** | | (8,944) |
| Darpariaeth yn erbyn benthyciadau i sefydliadau treftadaeth | | **(900)** | | (2,100) |
| | | | **(170,173)** | (262,965) |
| Costau staff | 20 | **(11,587)** | | (15,601) |
| Dibrisio ac amorteiddio | 6, 7 ac 8 | **(1,189)** | | (1,069) |
| Taliadau gweithredu eraill | 4 | **(5,496)** | | (10,856) |
| **Cyfanswm costau gweinyddol** | | | **(18,272)** | (27,526) |
| **Cyfanswm gwariant** | | | **(188,445)** | (290,491) |
| **Gwarged gweithredu** | | | **174,649** | 66,780 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth** | | | **174,649** | 66,780 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 51 i 66 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad newidiadau mewn ecwiti

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Cyfrif incwm a gwariant £'000 |
|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2019 | (593,428) |
| | |
| Newidiadau mewn ecwiti yn 2019–20 | |
| Gwarged argadwedig | 66,780 |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | (526,648) |
| | |
| **Newidiadau mewn ecwiti yn 2020–21** | |
| Gwarged argadwedig | 174,649 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **(351,999)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 51 i 66 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol

## ar 31 Mawrth 2021

| | Nodiadau | 2020–21 £'000 | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 6 | **1,158** | 704 |
| Hawl i ddefnyddio | 8 | **807** | 1,297 |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 7 | **1,015** | 1,638 |
| Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth | 9 | **50** | 972 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Buddsoddiadau – balans yn CDdLG | 10 | **328,748** | 308,964 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 9 | **13,259** | 5,501 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | **4,537** | 3,553 |
| | | **346,544** | 318,018 |
| **Cyfanswm asedau** | | **349,574** | 322,629 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau gweinyddol | 11 | **(4,798)** | (5,853) |
| Rhwymedigaethau grant sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 12 | **(263,946)** | (316,047) |
| **Asedau anghyfredol plws asedau cyfredol net** | | **80,830** | 729 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau gweinyddol | 11 | **(318)** | (818) |
| Rhwymedigaethau grant sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn | 12 | **(432,511)** | (526,559) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **(351,999)** | (526,648) |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen | | **(526,648)** | (593,428) |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn | | **174,649** | 66,780 |
| Cyfrif incwm a gwariant a gariwyd ymlaen | | **(351,999)** | (526,648) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 51 i 66 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae cymharydd wedi cael ei newid i adlewyrchu adnabod benthyciadau tymor hir ar wahân.

**Dr Simon Thurley CBE**
Cadeirydd

**Ros Kerslake CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

2 Gorffennaf 2021

## Datganiad llifoedd arian parod

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodiadau | 2020–21 £'000 | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian parod a dynnwyd i lawr o CDdLG | 10 | **343,183** | 386,124 |
| Arian parod o ffynonellau eraill, gan gynnwys ad-dalu benthyciadau | 2 | **111** | 172 |
| Arian parod a dalwyd i gyflogeion ac ar eu rhan | | **(16,216)** | (15,578) |
| Llog a dderbyniwyd ar gyfrifon banc | | **16** | 141 |
| Arian parod a dalwyd i gyflenwyr | | **(9,671)** | (9,714) |
| Arian parod a dalwyd i dderbynyddion grant a benthyciad | 12 | **(315,422)** | (357,696) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | 15a | **2,001** | 3,449 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Gwariant cyfalaf a gweithgareddau buddsoddi | 15b | **(530)** | (2,511) |
| Gweithgareddau ariannu | 15c | **(487)** | (482) |
| **Cynnydd mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | **984** | 456 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 51 i 66 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Cysoni'r llif arian parod net â'r symudiad mewn cyllid net

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodiadau | 2020–21 £'000 | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|---|
| Cynnydd mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod | | **984** | 456 |
| **Newidiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | 15d | **984** | 456 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar 1 Ebrill | | **3,553** | 3,097 |
| **Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth** | | **4,537** | 3,553 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 51 i 66 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Nid oes unrhyw safonau a dehongliadau a gyhoeddir, nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto, y mae'r ymddiriedolwyr yn disgwyl y byddant yn cael effaith faterol ar incwm ac asedau net adroddedig CGDG neu ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u llunio ar ffurf a gyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ac a gymeradwywyd gan Drysorlys EM. Maent yn cael eu paratoi o dan y confensiwn costau hanesyddol diwygiedig. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni'r gofynion cyfrifyddu a datgelu sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cwmnïau 2006 a'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (FREM) i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol, a'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS ym mis Ebrill 2019.

Mae'r triniaethau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn FREM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddasir neu y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Mae cyfarwyddyd cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS yn benodol yn eithrio paratoi cyfrifon cyfunol.

Gellir cael copïau o'r cyfarwyddiadau cyfrifon dosbarthu'r Loteri Genedlaethol a chymorth grant gan Ysgrifennydd y Bwrdd, Cronfa Goffa'r Loteri Genedlaethol, Mezzanine Floor, International House, 1 St Katharine's Way, Llundain E1W 1UN.

Pan fydd y FREM yn caniatáu dewis, dewisir y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol CGDG at ddiben darparu barn wir a theg. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG wedi'u disgrifio o fewn y datganiad hwn. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon.

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol gan nad oes gan CGDG unrhyw reswm i gredu bod gan DCMS gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth ac felly mae'r ymddiriedolwyr yn tybio y byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan y Loteri Genedlaethol.

Cefnogir y farn hon gan ymddiriedolwyr gan iddynt gael eu hysbysu gan DCMS, yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth. At hynny, cododd DCMS y gyfran dreftadaeth o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012. Yn olaf, ni wnaeth yr Adolygiad wedi'i Deilwra yn 2017 unrhyw argymhellion i newid canran yr arian Loteri Genedlaethol a dderbynnir gan CGDG.

Yn ychwanegol at yr uchod, oherwydd yr argyfwng COVID-19 rydym wedi dechrau olrhain incwm gan y loteri, taliadau allan a'n hymrwymiadau parhaus yn wythnosol. Yn amodol ar ddigwyddiadau sydd eto i ddod, rydym yn hyderus y bydd ein mesurau perfformiad allweddol a pha mor agored i risg yr ydym yn y maes hwn yn parhau o fewn yr ystod dderbyniol a'n hawydd am risg – gan weddu i sail busnes gweithredol.

### b) Asedau anghyfredol

Diffinnir asedau anghyfredol fel yr eitemau hynny a brynir at ddefnydd tymor hir CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol pan fydd cyfanswm y gost dros £2,000. Darperir dibrisio ar sail llinol ar bob ased anghyfredol, gan gynnwys y rhai a ddelir o dan brydlesau, ar gyfraddau y cyfrifir y byddant yn diddymu cost neu brisiad pob ased dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Mae'r bywydau hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo prydles fer | – oes y brydles |
| Ased hawl i ddefnyddio – prydlesau eiddo | – oes y brydles |
| Cyfarpar swyddfa | – 4–10 mlynedd |
| Ffitiadau swyddfa | – 4–10 mlynedd |
| Meddalwedd asesu grantiau a meddalwedd arall | – hyd at 5 mlynedd |

Yn yr amgylchiadau hynny pan fydd gweddill oes prydles eiddo'n llai na phedair blynedd, bydd unrhyw adnewyddu neu gyfarpar ansymudol yn cael ei ddibrisio dros weddill oes y brydles.

Ni chyfalafir unrhyw gostau a gynhyrchir yn fewnol. Mae dibrisio'n dechrau yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

## c) Dyrannu costau ac adrodd cylchrannol

Mae IFRS 8 yn mynnu y darperir gwybodaeth am adrodd cylchrannol pan fydd hyn yn berthnasol i weithgareddau'r sefydliad. Pan fo'n berthnasol, byddai uwch reolwyr yn amlygu ffrydiau gweithgarwch ar wahân ac yn aseinio costau gweithredu iddynt pro rata yn seiliedig ar lefel y grant a ddyfarnwyd. Mewn achosion priodol pan fu gwahaniaeth arwyddocaol yn y modd y proseswyd ceisiadau, byddai dulliau amgen yn cael eu defnyddio.

Mae CGDG yn cyfrif ar wahân am ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, y mae'n ofynnol i'w wneud o dan ei chyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol. Mae'r cyfrifon ar gyfer CGDG yn cynnwys nodyn yn rhoi gwybodaeth ariannol sy'n gwahanu ein gwasanaethau dosbarthu cymorth grant safonol oddi wrth ddosbarthu cyllid argyfwng COVID-19.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol sy'n cael eu rhannu rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â 'Rheoli Arian Cyhoeddus', a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r dosraniad costau hwn yn ceisio adlewyrchu'r gyfran benodol o amser a threuliau a ymrwymir i bob gweithgaredd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, y gyfran o gostau ar y cyd a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd 99% (2019–20: 99%).

## ch) Treth

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer treth gyffredinol gan fod CGDG wedi'i heithrio'n statudol o dan adran 507 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988. Ni all CGDG adfer Treth ar Werth (TAW) a godir arni, ac mae'r gost gan gynnwys TAW wedi'i chynnwys o dan y disgrifiadau gwariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

## d) Pensiwn

Codir y gost reolaidd o ddarparu buddiannau i'r datganiad o incwm net cynhwysfawr dros fywydau gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae bron pob un o'n staff yn aelodau o PGPGS neu alpha (y cynllun a ddilynodd PGPGS) ac mae'r ganran o dâl pensiynadwy yn cael ei hysbysu gan Swyddfa'r Cabinet cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. Gweler yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff am fanylion pellach.

## dd) Prydlesau

Yn dilyn cyflwyno Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 ar brydlesau, mae prydlesau gweithredol bellach yn cael eu trin yn yr un modd â phrydlesau cyllid. Cyfalafir prydlesau tymor hir sylweddol (mwy na blwyddyn eu hyd) ar eu cost amcangyfrifedig ac eithrio unrhyw log tybiedig a godir gan y prydleswr. Codir taliadau llog sy'n ddyledus o dan delerau'r cytundeb prydlesu i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr ar ddyddiad pob taliad a wneir o dan y brydles. Datgelir prydlesau wedi'u cyfalafu ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Codir y rhenti blynyddol ar unrhyw brydlesau sydd y tu hwnt i'r diffiniad sy'n ofynnol yn ôl IFRS 16 i'r datganiad o incwm net cynhwysfawr ar sail llinol dros gyfnod y brydles. Mae prydlesau peiriannau ffrancio a llungopïo wedi'u cynnwys yn y categori hwn.

## e) Balansau yn CDdLG

Mae balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) yn parhau o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS ac nid oes gan ymddiriedolwyr unrhyw ddylanwad dros sut y buddsoddir y symiau hyn. Mae cyfran y balansau hyn y gellir ei phriodoli i Ymddiriedolwyr CGDG fel y dangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, ardystiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS ei bod ar gael i'w dosbarthu gan yr ymddiriedolwyr mewn perthynas â'n hymrwymiadau cyfredol a'r rhai yn y dyfodol. Crëir ac addasir swm wrth gefn gwerth teg os bydd unrhyw enillion neu golled ar ailbrisiad y balans CDdLG a adroddir i ni gan DCMS. Byddai unrhyw addasiad yn cael ei ddatgelu yn y datganiad newidiadau mewn ecwiti. Ychwanegir unrhyw elw neu golled a geir gan CDdLG wrth waredu buddsoddiadau at werth CDdLG.

## f) Penderfyniadau grant

Cydnabyddir dyfarniadau grant fel rhwymedigaethau yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Pan nad oes angen cydnabod rhwymedigaethau bellach, gan nad oes ar y prosiect sy'n cael ei ariannu angen yr

holl arian a neilltuwyd ar ei gyfer o dan y contract grant, rydym yn gostwng gwerth y rhwymedigaethau sy'n weddill. Mae'r holl rwymedigaethau grant yn daladwy ar unwaith wrth dderbyn ceisiadau dilys am daliad.

Mae'r ymrwymiadau fel a ddiffinnir gan gyfarwyddyd cyfrifon cynharach yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002, gan nad yw'r cyfarwyddyd cyfrifon cyfredol yn eu diffinio nhw. Mae'r ymrwymiadau'n cynrychioli cytundeb mewn egwyddor gan yr ymddiriedolwyr i ariannu prosiect treftadaeth. Rydym yn eu trin nhw fel rhwymedigaeth amodol yn nodyn 13 oherwydd eu bod yn cynrychioli rhwymedigaeth bosibl arwyddocaol y mae'n rhaid ei chymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ar lefel yr adnoddau sydd ar gael. Mae dau fath o ymrwymiad:

1. pan wnaed y penderfyniad terfynol i ddyfarnu grant ond nid oes contract wedi'i lofnodi eto gyda'r grantî. Pan ystyrir bod contract grant yn ei le, mae'r ymrwymiad yn cael ei drin fel rhwymedigaeth lawn.
2. pan roddir pas rownd gyntaf i brosiect treftadaeth. Yn yr amgylchiadau hyn, er bod cyllid yn amodol ar ail benderfyniad, mae'r ail benderfyniad hwn yn llawer mwy tebygol o fod yn gadarnhaol na pheidio, ac felly teimlwn ei bod yn ochelgar cydnabod y pas rownd gyntaf fel ymrwymiad ar yr adeg hon.

Ceir dadymrwymiadau ar rwymedigaethau amodol pan na thrawsnewidir ymrwymiad yn rhwymedigaeth lawn. Fel arfer, mae hyn yn digwydd oherwydd i'r grantî benderfynu peidio ag ymgymryd â'i brosiect neu oherwydd y teimla'r ymddiriedolwyr na allant ariannu'r holl geisiadau rownd dau o ganlyniad i'r angen i gynnal symiau wrth gefn digonol.

## ff) Benthyciadau

Mae gan ymddiriedolwyr yr hawl i wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan gyfarwyddiadau cyfrifon Loteri Genedlaethol yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS. Mae'r cyfraddau llog a thelerau ad-dalu yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu gwneud fel rhan o'n cylch gwaith i wella a diogelu treftadaeth y Deyrnas Unedig ac nid i gasglu llifoedd arian contract neu i'w hailwerthu. Gan hynny, o dan IFRS 9, Offerynnau Ariannol, bydd benthyciadau'n cael eu prisio ar sail gwerth teg pan fydd unrhyw addasiad yn faterol, gyda'r addasiad yn mynd trwy'r datganiad o wariant net cynhwysfawr.

Pan godir llog, byddwn yn cydnabod y llog yn y flwyddyn y caiff ei gronni er efallai y caiff ei dderbyn mewn blwyddyn ddiweddarach o dan delerau'r cytundeb benthyciad.

## g) Cynlluniau grant ar y cyd

Pan fydd CGDG yn gweithredu cynllun grant ar y cyd yn rhannol ar ran sefydliadau eraill (ar hyn o bryd Parciau i Bobl gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol; y rhaglen Great Place gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr) nid ydym yn cydnabod symiau a dderbynnir gan y cyrff hyn fel incwm. I bob pwrpas, mae'r cyllid a dderbynnir gan y cyrff hyn yn cael ei drosglwyddo i grantïon neu gyflenwyr. Gan hynny, rydym ond wedi cynnwys cyfran CGDG o daliadau grant y cynlluniau yn y cyfrifon hyn gan i ni drosglwyddo cyfran y sefydliadau eraill ymlaen at y grantî. Yn yr un modd, rydym ond wedi datgelu cyfran CGDG o wariant gweithredu ar gyfer y cynlluniau hyn ac wedi trosglwyddo unrhyw gyllid ar gyfer gwariant gweithredu o'r sefydliadau eraill i gyflenwyr.

Rydym yn diffinio cynlluniau grant ar y cyd fel rhaglenni lle mae gan fwy nag un parti ran yn y broses benderfynu ar gyfer gwneud dyfarniad. Yn achos y rhaglen Parciau i Bobl, mae cynrychiolwyr CGDG a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ill dau'n penderfynu i bwy y dylid dyfarnu grantiau. Yn y sefyllfaoedd hynny pan roddir cyllid i ni heb unrhyw gyfranogiad yn y penderfyniad terfynol ar y dyfarniad, rydym yn trin y symiau hyn fel rhoddion. Os yw'r symiau a roddwyd yn deillio o'r Loteri Genedlaethol, yna mae'r rhodd yn cael ei rhoi i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol; fel arall, trinnir y cyllid fel rhodd i CGDG hyd yn oed os cânt eu haseinio i brosiectau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn y pen draw.

## ng) Ardoll brentisiaethau

Cyflwynwyd yr ardoll brentisiaethau yn 2017–18. Er bod y symiau a dalwn ar gael yn ddamcaniaethol i ariannu cost y cyrsiau yr ymgymerir â hwy gan ein prentisiaid, ar hyn o bryd mae'n annhebygol y bydd modd i ni ddefnyddio'r symiau hyn yn llawn. Gan hynny, ein polisi yw diddymu'r ardoll yn y cyfnod y gwnaed y taliad oni bai bod sicrwydd y caiff y swm ei

ddefnyddio – h.y. mae'r prentis yn ei le ac mae'r cwrs wedi'i drefnu.

## h) Cydnabod incwm o'r Loteri Genedlaethol

Mae'r incwm a dderbynnir o'r Loteri Genedlaethol fel yr hysbysir i ni gan DCMS, sy'n rheoli Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol – y gronfa y mae holl gyllid perthnasol y Loteri Genedlaethol yn cael ei dalu i mewn iddi gan Camelot a'r gronfa yr ydym yn tynnu symiau i lawr ohoni y mae arnom eu hangen ar gyfer taliadau grant a thaliadau gweinyddu. Mae DCMS yn rhoi adroddiadau misol i ni ar lifoedd arian parod y Loteri sy'n ddyledus i ni a thystysgrif flynyddol i'n galluogi i gynhyrchu niferoedd diwedd blwyddyn ar sail croniadau.

## i) Ansicrwydd amcangyfrif

Er mwyn paratoi'r cyfrifon hyn, mae angen i uwch reolwyr wneud amcangyfrifon a thybiaethau sy'n gallu effeithio ar fesur incwm, treuliau, asedau a rhwymedigaethau a adroddir a datgelu rhwymedigaethau amodol. Fe all hefyd effeithio ar ddyrannu costau rhwng ein cymorth grant a'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri.

Os bydd yr amcangyfrifon a'r tybiaethau hyn, sydd wedi'u seilio ar amcangyfrifon gorau uwch reolwyr ar ddyddiad y datganiadau ariannol, yn gwyro oddi wrth yr amgylchiadau gwirioneddol yn y dyfodol, bydd yr amcangyfrifon a'r tybiaethau gwreiddiol yn cael eu diweddaru yn y cyfnod pan fydd yr amgylchiadau'n newid.

Mae ein hamcangyfrifon yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar ein gweithgarwch a disgwylir i hyn barhau yn 2021–22. O ganlyniad, mae uwch reolwyr wedi asesu gwerthoedd asedau ar 31 Mawrth 2021 i amlygu unrhyw ddangosyddion amhariad. Lle y gallai amhariad posibl fod wedi codi o ganlyniad i COVID-19, mae amcangyfrif o werth adenilladwy disgwyliedig yr ased wedi cael ei wneud a'i gymharu â gwerth cario cyfredol yr ased, i amcangyfrif unrhyw amhariad i'w gofnodi. Lle y bônt yn berthnasol, mae'r amcangyfrifon arwyddocaol hyn wedi cael eu datgelu isod.

**Amhariad eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau hawl defnyddio**
Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau hawl defnyddio yn cael eu hadolygu am amhariad os bydd digwyddiadau neu newidiadau i amgylchiadau'n awgrymu efallai na fydd modd adennill y swm cario. Ar hyn o bryd, bwriadwn ddychwelyd i swyddfeydd cyn gynted ag y bydd canllawiau'r llywodraeth yn caniatáu hynny. O ganlyniad, nid ydym wedi gwneud unrhyw addasiad i werth ein hasedau sefydlog wedi'u seilio ar eiddo.

**Dyrannu costau rhwng ein dau brif weithgaredd**
Roedd y cyflymder y bu'n rhaid i ni gyflawni ein rhaglenni argyfwng ein hunain a'r rhai hynny ar ran adrannau'r llywodraeth yn golygu y bu'n rhaid diwygio ein dull arferol o ddyrannu costau rhwng ein dau weithgaredd – dosbarthu cymorth grant a dosbarthu arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol. Creom system cofnodi amser er mwyn i staff nodi pa raglenni yr oeddent yn gweithio arnynt a seilio ailgodi costau ar y data hwnnw. Roedd yn ofynnol i staff amcangyfrif faint o amser yr oeddent wedi'i dreulio ar bob rhaglen yn ystod y mis diwethaf.

At hynny, roedd cymhlethdodau a newydd-deb y system hon yn golygu bod rhai amcangyfrifon wedi cael eu defnyddio gan y crynhowyr i wella ansawdd a chywirdeb canfyddedig y data. Ar gyfer blynyddoedd dilynol, rydym wedi gwella fformat y gronfa ddata i gynyddu derbyniad a defnydd.

## 2. Mân incwm

| | 2020–21 £'000 | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu grantiau | **101** | 172 |
| Mân incwm | **10** | 0 |
| | **111** | 172 |

## 3. Llog derbyniadwy

| | 2020–21 £'000 | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Llog a dderbyniwyd gan fanciau | **16** | 140 |
| Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth | **0** | 44 |
| Mân eitemau | **0** | 2 |
| Darpariaeth yn erbyn llog ar fenthyciadau | **0** | (22) |
| | **16** | 164 |

Gweler nodyn 9 am fwy o wybodaeth am y llog ar fenthyciadau a'r ddarpariaeth arno.

## 4. Diffyg gweithredu

Mae'r diffyg gweithredu wedi'i ddatgan ar ôl codi'r taliadau canlynol:

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl cydnabyddiaeth yr archwilydd | **41** | 41 |
| Taliadau o dan brydlesau gweithredu | | |
| – eiddo prydles | **409** | 1,442 |
| – hurio cyfarpar swyddfa | **24** | 6 |

Ni thalwyd unrhyw ffïoedd nad ydynt yn ymwneud ag archwilio i'r archwilwyr allanol. Mae dadansoddiad o daliadau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Llety | **209** | 1,562 |
| Post a ffonau | **268** | 635 |
| Cyflenwadau swyddfa, argraffu a deunydd ysgrifennu | **17** | 53 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | | |
| – ymddiriedolwyr | **3** | 75 |
| – staff | **11** | 653 |
| Ffïoedd proffesiynol | | |
| – cysylltiedig â grantiau | **1,714** | 1,694 |
| – heb fod yn gysylltiedig â grantiau | **2,443** | 2,974 |
| Cyfathrebu | **379** | 560 |
| Cyfarpar swyddfa | **143** | 2,109 |
| Hyfforddiant staff | **211** | 208 |
| Mân dreuliau | **98** | 333 |
| | **5,496** | 10,856 |

## 5. Costau a ailgodir

Fel y crybwyllir yn nodyn 1, mae'n ofynnol i CGDG ddatgelu ei gweithgareddau Loteri Genedlaethol ar wahân yn ei chyfrifon dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Bu llawer o'r costau cyffredinol a gafwyd yn y brif swyddfa yn Llundain o fudd i'n gweithgareddau cymorth grant a dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, y gyfran o gostau ar y cyd a ddosrannwyd i ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd 99% (2019–20: 99%). Ymgymerwyd â'r holl weithgareddau cymorth grant yn y brif swyddfa, sef St Katharine Docks, Llundain. Ailgodir costau gweithredu'r holl swyddfeydd eraill yn llawn i ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Yn ystod 2020–21, dosbarthodd CGDG symiau mawr o arian gan amryw sefydliadau llywodraeth ganolog i ymateb i'r pandemig COVID-19. Er mwyn ymgymryd â'r dasg enfawr hon, cafodd llawer o staff sydd fel arfer yn ymdrin â dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol yn unig eu dargyfeirio i weithio'n gyflym iawn i gyflawni'r rhaglenni hyn. Yn hytrach nag ailgyfrifo'r rhaniad 99%:1% ar gyfer yr hyn a fydd yn un neu ddwy flynedd o weithgarwch gwyllt yn unig, amlygom y gyfran o waith a wnaed gan yr aelodau staff hyn ar weithgareddau nad oeddent yn ymwneud â'r Loteri; cyfrifo eu gwerth gan gyfeirio at ein graddfeydd cyflog ac ailgodi'r taliadau ar yr amryw raglenni a gefnogwyd gan gymorth grant. Cyfrifom hefyd ddyraniad gorbenion cysylltiedig yn rhan o'r ailgodiadau hyn.

Cyfanswm gwerth yr ailgodiadau hyn yn 2020–21 oedd £6.8miliwn.

Roedd yr ailgodiadau hyn yn cynnwys swm arwyddocaol o ddibrisiad ar asedau a berchnogir gan ein gweithgareddau dosbarthu'r Loteri – oherwydd bod ein hasedau sefydlog wedi helpu i gyflawni'r rhaglenni argyfwng. Nid yw'r ailgodiad hwn wedi'i adlewyrchu yn y nodiadau i'r cyfrifon sy'n ymwneud ag asedau sefydlog (nodiadau 6, 7 ac 8) oherwydd byddai'n ystumio'r naratif yn llwyr yng nghyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (h.y. byddai'r tâl dibrisiad yn uwch o lawer na gwerth asedau sefydlog). O ganlyniad, gwnaed yr addasiad o dan godau cost eraill.

.

## 6. Asedau sefydlog anniriaethol

| | Gwefan | | Technoleg gwybodaeth | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **582** | 582 | **2,793** | 2,249 | **3,375** | 2,831 |
| Ychwanegiadau | **0** | 0 | **524** | 544 | **524** | 544 |
| Gwarediadau | **0** | 0 | **(4)** | 0 | **(4)** | 0 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **582** | 582 | **3,313** | 2,793 | **3,895** | 3,375 |
| Amorteiddio ar ddechrau'r flwyddyn | **486** | 461 | **2,185** | 2,166 | **2,671** | 2,627 |
| Tâl am y flwyddyn | **26** | 25 | **40** | 19 | **66** | 44 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **512** | 486 | **2,225** | 2,185 | **2,737** | 2,671 |
| Gwerth llyfr net | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **96** | 121 | **608** | 83 | **704** | 204 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **70** | 96 | **1,088** | 608 | **1,158** | 704 |

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth yn cynrychioli datblygu ffurflenni cais electronig a system rheoli asesu ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli costau a anfonebir i CGDG gan ddatblygwyr meddalwedd. Ni chyfalafwyd unrhyw gostau a gynhyrchwyd yn fewnol.

Ni ddatgelodd adolygiad o werthoedd cost cyfredol asedau sefydlog anniriaethol ar 31 Mawrth 2021 unrhyw wahaniaeth perthnasol i werthoedd cost hanesyddol. Gan hynny, ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol asedau sefydlog anniriaethol.

## 7. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Eiddo prydles fer | | TG a chyfarpar arall | | Ffitiadau swyddfa | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **1,152** | 643 | **1,093** | 2,764 | **59** | 81 | **2,304** | 3,488 |
| Ychwanegiadau | **0** | 817 | **0** | 1,091 | **0** | 59 | **0** | 1,967 |
| Gwarediadau | **(0)** | (308) | **(0)** | (2,762) | **(0)** | (81) | **(0)** | (3,151) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **1,152** | 1,152 | **1,093** | 1,093 | **59** | 59 | **2,304** | 2,304 |
| Dibrisio ar ddechrau'r flwyddyn | **481** | 611 | **175** | 2,594 | **10** | 81 | **666** | 3,286 |
| Tâl ar gyfer y flwyddyn | **260** | 178 | **344** | 343 | **19** | 10 | **623** | 531 |
| Addasiad wrth waredu | **(0)** | (308) | **(0)** | (2,762) | **(0)** | (81) | **(0)** | (3,151) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **741** | 481 | **519** | 175 | **29** | 10 | **1,289** | 666 |
| Gwerth llyfr net | | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **671** | 32 | **918** | 170 | **49** | 0 | **1,638** | 202 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **411** | 671 | **574** | 918 | **30** | 49 | **1,015** | 1,638 |

Mae eiddo prydles fer yn cynrychioli cost adnewyddu eiddo rydym yn ei brydlesu. Gweler cyfalafiad prydlesau gweithredu o dan IFRS 16 yn nodyn 8.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau a chyfarpar. Ni ddatgelodd adolygiad o werthoedd cost cyfredol ar 31 Mawrth 2021 unrhyw wahaniaeth materol i werthoedd cost hanesyddol.

Gan hynny, ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau a chyfarpar. Mae gwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ar hyn o bryd, y rhaniad hwn yw 99% Loteri ac 1% cymorth grant (gweler nodyn 5).

## 8. Ased hawl defnyddio (IFRS 16)

Mabwysiadwyd Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 (Prydlesau) o 1 Ebrill 2019. Mae'r safon hon yn disodli Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 17 ac yn disgrifio'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu prydlesau. Mabwysiadwyd IFRS 16 gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol diwygiedig, nad yw'n gofyn am ailddatgan gwybodaeth gymharol. Mae IFRS 16 yn cyflwyno model cyfrifyddu prydlesai unigol ac yn mynnu bod prydlesai'n cydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles sydd â chyfnod o fwy na deuddeg mis oni bai bod gan yr ased sylfaenol werth isel. Mae'n gofyn am gydnabod ased hawl defnyddio ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol gan gynrychioli'r hawl i ddefnyddio'r ased sylfaenol ar brydles ynghyd â rhwymedigaeth brydles gyfatebol sy'n cynrychioli'r rhwymedigaeth i wneud taliadau prydles yn y dyfodol.

Mesurwyd yr asedau hawl defnyddio ar gydnabyddiaeth ym mis Ebrill 2019 ar swm sy'n hafal i'r rhwymedigaeth brydles. Mesurwyd yr ased hawl defnyddio a'r rhwymedigaeth brydles a gydnabuwyd yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn y lle cyntaf ar werth presennol taliadau prydles yn y dyfodol. Cydnabyddir dibrisio asedau hawl defnyddio a llog ar rwymedigaethau prydles yn y datganiad o incwm net cynhwysfawr. Yn flaenorol, codwyd rhenti o dan brydlesau gweithredu i'r datganiad o incwm net cynhwysfawr ar sail llinol.

Yn 2019–20, ymgymerom â phrydles weithredu ar gyfer rhan o International House ym mwrdeistref Tower Hamlets, Llundain. Roedd tair blynedd a hanner yn weddill ar y brydles ar yr adeg honno. Roedd gennym brydlesau â mwy na blwyddyn yn weddill arnynt ar gyfer ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Newcastle a Nottingham hefyd – nid oes gennym brydles ar gyfer ein swyddfa yn Birmingham ar hyn o bryd, ond rydym yn disgwyl llofnodi un cyn bo hir. Fel gyda chostau cyffredinol ar y cyd eraill, mae cyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn adlewyrchu 1% o gost St. Katherine Docks gyda'r 99% arall yn cael ei ddatgelu o fewn ein cyfrifon dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Mae IFRS 16 wedi arwain at greu ased hawl defnyddio sy'n adlewyrchu ein hawl gytundebol i feddiannu safle yn St. Katharine Docks yn Llundain am gyfnod o dair blynedd a swyddfeydd yng Nghaerdydd, Newcastle a Nottingham am amrywiaeth o gyfnodau.

Ased hawl defnyddio:

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | **1,297** | 0 |
| Creu ased hawl defnyddio | **10** | 1,791 |
| Amorteiddiad | **(500)** | (494) |
| Balans ar ddiwedd y flwyddyn | **807** | 1,297 |

## 9. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **2,972** | 3,572 |
| Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth | **50** | 972 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **10,284** | 1,911 |
| Blaendaliadau i staff | **3** | 18 |
| | **13,309** | 6,473 |

Nid oedd unrhyw symiau dyledus ymhen mwy nag un flwyddyn (2019–20: £0) ac eithrio'r benthyciad sy'n ddyledus ymhen mwy nag un flwyddyn.

O'r symiau uchod, roedd £12,687,000 yn ddyledus gan gyrff llywodraeth ganolog. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan 4 aelod o staff flaendaliadau cyflogres sy'n weddill (roedd 24 ar 31 Mawrth 2020).

### Lakeland Arts

Benthyciad di-log yw hwn i'w ad-dalu mewn symiau sy'n gyfwerth â 50% o'r llif arian dros ben £100,000 y flwyddyn hyd nes yr ad-delir y swm llawn; gyda'r ad-daliad cyntaf yn ddyledus ar 23 Ebrill 2024. Daeth yn amlwg yn fuan fod y problemau yr oedd derbynnydd y benthyciad yn eu dioddef a barodd iddo ymgeisio am y benthyciad yn rhai parhaus. Gan hynny, rydym yn ystyried ei fod yn ochelgar i wneud darpariaeth 100% yn erbyn ad-dalu. Nid yw blwyddyn y pandemig wedi achosi i ni newid ein barn. Byddwn yn parhau i gydweithio â derbynnydd y benthyciad i'w helpu i greu'r canlyniad gorau posibl ar gyfer ei brosiect er mwyn caffael ad-dalu'r benthyciad o dan delerau cytundeb y benthyciad.

### Silverstone Heritage

Dau fenthyciad ar wahân (£1.3miliwn a £500,000) oedd y rhain i Silverstone Heritage Limited ar

gyfer Profiad Treftadaeth a Chanolfan Casgliadau ac Ymchwil Silverstone. Mae'r ddau fenthyciad yn denu cyfradd llog o 5%. Mae Silverstone mewn trafferthion ar hyn o bryd gan ei fod wedi colli incwm o ganlyniad i gyfyngiadau symud COVID-19. Mae wedi bod ar gau neu'n gweithredu gyda chapasiti llai am y flwyddyn ariannol gyfan ac mae'r incwm a enillodd wedi lleihau'n sylweddol. O ganlyniad, ni allai wneud y rhandaliad cyntaf o'r £500,000 erbyn terfyn amser mis Chwefror 2021. Cytunodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 18 Mawrth 2021 ohirio ad-dalu'r benthyciad tan 2024. Cytunwyd lleihau'r gyfradd llog i 0%, felly mae llog cronedig wedi cael ei ddileu. Yn amodol ar oresgyn yr argyfwng, ailstrwythuro ad-daliadau dyledion a chynyddu niferoedd ymwelwyr, mae'n bosibl y gellir diwygio swm y benthyciad i fyny ac ad-dalu cyfran ohono. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu gwneud darpariaeth 100% yn erbyn y benthyciad hwn.

### Tŷ Dickens

Benthyciad di-log yw hwn i ymddiriedolwyr Tŷ Dickens a Chronfa Tŷ Dickens. Y swm oedd £100,000 i helpu'r derbynnydd i gwblhau prosiect yr oeddem wedi dyfarnu grant iddo. Mae'r benthyciad yn ad-daladwy mewn dau floc o £50,000; derbyniwyd y cyntaf o'r rhain yn brydlon yn 2018–19 ac mae'r ail daliad yn ddyledus yn 2022–23. Nid oes gennym unrhyw reswm i gredu na chaiff y swm hwn ei dalu, ac felly ni ystyrir y bydd angen darpariaeth.

| Benthyciadau | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau ar ddechrau'r flwyddyn | **972** | 50 |
| Benthyciadau newydd | **0** | 3,000 |
| Ad-daliadau benthyciadau | **0** | 0 |
| Incwm cronedig a ychwanegwyd at fenthyciadau | **0** | 44 |
| Darpariaeth yn erbyn benthyciadau | **(900)** | (2,100) |
| Llog wedi'i ddileu o fenthyciadau | **(22)** | 0 |
| Darpariaeth yn erbyn llog cronedig | **0** | (22) |
| Benthyciadau ar ôl darpariaeth | **50** | 972 |

Yn hwyr ym mis Mawrth 2021, dyfarnom saith benthyciad i sefydliadau treftadaeth a ddaeth i gyfanswm o £758,500. Bydd yr holl fenthyciadau hyn yn cael eu talu yn 2021–22.

Rhoddir isod fanylion y benthyciadau a ddyfarnwyd:

| | |
|---|---|
| Strathspey Railway Company Limited | £139,300 |
| Ymddiriedolaeth Gwarchod Adeiladau Tyne and Wear | £120,000 |
| Ymddiriedolaeth Sefydliad Florence | £93,500 |
| Ymddiriedolaeth Reilffordd Dyffryn Aln | £100,000 |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Wicksteed | £169,000 |
| Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Llundain | £86,200 |
| Arsyllfa a Chymdeithas Seryddol Kielder | £50,500 |

## 10. Buddsoddiadau

Symudiad mewn balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG):

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gyfredol ar ddechrau'r flwyddyn | **308,964** | 338,153 |
| Incwm a dderbyniwyd gan y Loteri Genedlaethol | **362,755** | 355,217 |
| Cyllid a dynnwyd i lawr gan CGDG | **(343,183)** | (386,124) |
| Enillion o fuddsoddiadau CDdLG | **212** | 1,718 |
| **Cost gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn** | **328,748** | 308,964 |

Nid oes unrhyw rwymedigaeth dreth ar enillion a wireddir gan CGDG. Buddsoddir yr arian hwn gan DCMS, sy'n dirprwyo rheolaeth i'r Comisiynwyr dros Ostwng y Ddyled Genedlaethol, sy'n ychwanegu eu henillion at y balans cyffredinol a ddelir. Nid oes gan ymddiriedolwyr CGDG unrhyw reolaeth dros bolisi buddsoddi. Mae'r datganiad o bolisïau cyfrifyddu'n cynnwys gwybodaeth bellach am y mater hwn.

## 11. Symiau taladwy

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau gweithredu taladwy | **822** | 1,503 |
| Symiau taladwy eraill gan gynnwys treth a nawdd cymdeithasol | **635** | 563 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **3,659** | 4,605 |
| | **5,116** | 6,671 |

Nid oedd unrhyw un o rwymedigaethau CGDG wedi'i gwarantu. O'r symiau a ddatgelwyd uchod,

mae £318,000 (2019–20: £818,000) yn gysylltiedig â symiau taladwy tymor hir sy'n cynrychioli rhwymedigaethau o ran prydlesau eiddo.

Gellir dadansoddi'r balansau gweithredu a'r symiau taladwy eraill fel a ganlyn:

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **635** | 633 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **0** | 0 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **0** | 0 |
| Balansau sy'n allanol i'r llywodraeth | **822** | 1,433 |
| | **1,457** | 2,066 |

## 12. Rhwymedigaethau grant

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **842,606** | 936,437 |
| Rhwymedigaethau newydd a grëwyd yn y flwyddyn | **176,155** | 251,921 |
| Rhwymedigaethau nad ydynt yn cael eu cydnabod bellach | **(6,882)** | 8,944 |
| Taliadau grant | **(315,422)** | (354,696) |
| **Dygwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **696,457** | 842,606 |

Yn ystod y flwyddyn, dosbarthom grantiau argyfwng covid ar ran ein hadran noddi, sef yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), yn ogystal ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, sydd wedi'u cynnwys yn rhwymedigaethau grant y Gronfa Goffa. O ganlyniad, mae rhwymedigaethau grant y Loteri wedi lleihau'n sylweddol eleni oherwydd y pwyslais uwch ar ddosbarthu arian grant argyfwng.

Mae balans y rhwymedigaethau grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n debygol o gael eu talu i ymgeiswyr yn y cyfnodau a ganlyn:

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Ymhen un flwyddyn | **263,946** | 316,047 |
| Ymhen dwy flynedd | **182,626** | 223,096 |
| Ymhen tair blynedd | **110,233** | 136,704 |
| Ymhen pedair blynedd | **59,623** | 74,733 |
| Ymhen pum mlynedd | **30,684** | 41,226 |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | **49,345** | 50,800 |
| | **696,457** | 842,606 |

Mae rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus fel a ganlyn:

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **64,526** | 83,772 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **304,676** | 321,294 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **763** | 1,187 |
| Balansau sy'n ddyledus i ymddiriedolaethau'r GIG | **29** | 35 |
| Balansau sy'n allanol i'r llywodraeth | **326,463** | 436,318 |
| | **696,457** | 842,606 |

Mae'n rhy gynnar i amcangyfrif effaith lawn pandemig y coronafeirws ar gyflwyno'r prosiectau yr ydym yn helpu i'w hariannu. Mae'n debygol y bydd rhai yn methu, gan olygu na fyddwn yn talu swm llawn ein rhwymedigaethau grant. Ar 31 Mawrth 2021, roedd y rhifau uchod yn cynnwys darpariaeth fach o £4.4miliwn (31 Mawrth 2020: £5miliwn) ar gyfer symiau rydym yn rhagweld efallai na fyddant yn cael eu talu yn y blynyddoedd i ddod. Byddwn yn cydweithio â'n grantïon i'w helpu i gyflwyno eu prosiectau.

## 13. Rhwymedigaethau amodol

### Ymrwymiadau

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **218,861** | 286,418 |
| Ymrwymiadau a wnaed | **5,733** | 125,113 |
| Dadymrwymiadau | **(15,562)** | (20,034) |
| Rhwymedigaethau newydd a grëwyd yn y flwyddyn | **(93,221)** | (172,636) |
| **Balans a gariwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **115,811** | 218,861 |

Mae rhwymedigaethau amodol yn cynrychioli ymrwymiadau sy'n cyfateb i werth pasiau rownd un a roddir gan ymddiriedolwyr. Pan fydd ymgeisydd yn dychwelyd gyda'r cais rownd dau, bydd yr eitemau hyn naill ai'n mynd yn ddyfarniadau grant (rhwymedigaeth grant) neu'n cael eu gwrthod.

Mae balans y rhwymedigaethau amodol wedi gostwng yn sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wrth i ymddiriedolwyr ostwng eu cyllideb grant fel rhan o (1) bolisi o wella symiau wrth gefn, (2) oherwydd bod y pandemig COVID-19 wedi peri i ni atal ceisiadau Loteri safonol dros dro. Flwyddyn yn ôl, roeddem yn disgwyl y byddai'r pandemig yn arwain at ganslo prosiectau yr oeddem wedi rhoi pasiau rownd gyntaf iddynt yn gyfan gwbl. Yn lle hynny, ac o ganlyniad i'r cymorth a gynigiwyd gan ein cyllid argyfwng, fwy na thebyg, mae lefel y rhwymedigaethau amodol wedi aros yn sefydlog. Wrth i'r wlad symud yn raddol allan o'r cyfnod clo ac wrth i grantïon gael cyfle i ddychwelyd i'w harferion, mae'n bosibl na fydd rhai prosiectau'n cael eu gwireddu neu y byddant yn cael eu newid yn sylweddol cyn dychwelyd i Ymddiriedolwyr am farn rownd dau. Nid ydym wedi gwneud unrhyw addasiad i werth y rhwymedigaethau amodol gan nad oes gennym unrhyw ffordd o wybod p'un a fydd effaith ariannol.

## 14. Ymrwymiadau prydles

Datgelir lefel y taliadau prydles weithredu dan gontract yn y dyfodol fel nodyn i'r cyfrifon fel arfer. Fodd bynnag, ar ôl gweithredu IFRS 16, mae bron yr holl brydlesau gweithredu bellach wedi cael eu cyfalafu ac yn ymddangos ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Mae prydlesau ar gyfer ein swyddfeydd yn Llundain, Caerdydd, Nottingham a Newcastle wedi cael eu cyfalafu fel asedau hawl defnyddio (gweler nodyn 8). Mae ein swyddfeydd eraill i gyd mewn swyddfeydd â gwasanaeth gydag un eithriad, sef Birmingham. Yma, mae ein prydles wedi dod i ben ac rydym yn aros am lofnodi prydles yn ei lle. Mae absenoldeb prydles yn golygu bod y sefyllfa y tu hwnt i gwmpas IFRS 16, ac felly mae taliadau prydles Birmingham wedi'u cynnwys isod.

Nid ydym yn cyfalafu ein holl brydlesau gan fod IFRS 16 yn caniatáu eithriadau ar gyfer prydlesau bach a phrydlesau tymor byr. Ar gyfer yr eitemau hynny, rydym yn datgelu cyfanswm yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sydd i'w talu gan weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG fel a ganlyn:

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| **Eiddo prydles fer** | | |
| Ddim yn hwyrach nag un flwyddyn | **25** | 69 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond ddim yn hwyrach na phum mlynedd | **0** | 207 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **25** | 276 |

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| **Prydlesau eraill** | | |
| Ddim yn hwyrach nag un flwyddyn | **21** | 24 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond ddim yn hwyrach na phum mlynedd | **4** | 0 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **25** | 24 |

Mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 17 yn mynnu bod prydlesau eiddo'n cael eu rhannu rhwng eu helfennau tir ac adeiladau. Nid oes unrhyw raniad wedi cael ei wneud yn y ffigurau uchod ar gyfer eiddo prydles fer gan fod maint y tir o dan y prydlesau'n ddibwys.

Mae prydlesau eraill yn cyfeirio at beiriannau llungopïo a ffrancio.

Nid oes gan CGDG unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer nac ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd nas contractiwyd ar eu cyfer.

## 15. Nodiadau i'r datganiad o lifoedd arian parod

### a) Cysoni'r gwarged gweithredu â'r mewnlif arian parod o weithgareddau gweithredu

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) gweithredu | **174,649** | 66,780 |
| Ychwanegu eitemau anariannol yn ôl: | | |
| – dibrisio ac amorteiddio | **1,189** | 1,069 |
| – colled wrth waredu asedau sefydlog anniriaethol ac eiddo, peiriannau a chyfarpar | **0** | 0 |
| – symudiad yn y swm wrth gefn gwerth teg | **0** | 0 |
| – gostyngiad yn y swm rhwymedigaethau grant wrth gefn | **(146,149)** | (93,831) |
| – gostyngiad/(cynnydd) yn y balans CDdLG | **(19,784)** | 29,189 |
| Cynnydd mewn symiau derbyniadwy di-log | **(6,836)** | (1,411) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy di-gyfalaf | **(1,068)** | 1,653 |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **2,001** | 3,449 |

### b) Gwariant cyfalaf a gweithgareddau buddsoddi

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol | **530** | 544 |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar | **0** | 1,967 |
| | **530** | 2,511 |

### c) Gweithgareddau cyllido

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau prydlesu | **487** | 482 |

### ch) Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

| | Ar 1 Ebrill 2020 £'000 | Llifoedd arian parod £'000 | **Ar 31 Mawrth 2021 £'000** |
|---|---|---|---|
| Arian parod yn y banc | 3,553 | 984 | **4,537** |

## 16. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan DCMS. Ystyrir bod DCMS yn gorff cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan CGDG amryw drafodion perthnasol (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol), heblaw am ddyfarnu grantiau, gyda DCMS ei hun a chyda phum endid yr ystyrir mai DCMS yw'r adran noddi ar eu cyfer – Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sport England, UK Sport, Historic England a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Fel y nodwyd mewn man arall yn y cyfrifon hyn, mae CGDG wedi dosbarthu cyllid ar ran amryw sefydliadau'r llywodraeth; Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. I gael rhagor o wybodaeth, gweler cyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gan nad oedd y cyllid hwn yn deillio o'r Loteri Genedlaethol.

Llofnodom brydles gyda DCMS ym mis Mawrth 2015 ar gyfer deiliadaeth ein swyddfa yn Birmingham hyd at fis Mai 2018. Rydym yn parhau â'r ddeiliadaeth, ond nid oedd y ddogfennaeth gyfreithiol wedi cael ei llofnodi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer ein presenoldeb parhaus. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gennym flwyddyn o rent a thaliadau gwasanaeth a allai ddod i gyfanswm o tua £62,000 yn ddyledus i DCMS.

Cyfrannodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol at y grantiau a wnaed o dan ein rhaglen Parciau i Bobl a hefyd tuag at gostau gweithredu'r rhaglen. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ar Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol £2,0678,000 i CGDG, a oedd yn cynrychioli £57,000 ar gyfer costau gweithredu Parciau i Bobl a £2,061,000 ar gyfer ei chyfran o'r taliadau grant Parciau i Bobl. Roedd swm pellach yn ddyledus ar gyfer secondio aelod o'n staff i Fforwm y Loteri. Fe dalom Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am ddarparu gwasanaethau cyfreithiol a chaffael hefyd. Fe dalom oddeutu £48,000 iddi yn ystod y flwyddyn ac nid oedd unrhyw beth yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaeth Cyngor Celfyddydau Lloegr ad-daliad i ni ar gyfer taliadau grant y rhaglen Great Place ar y cyd a wnaed gennym ar eu rhan. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ganddynt £485,000 yn ddyledus i ni (£482,000 ar gyfer taliadau grant a £3,000 ar gyfer secondio aelod o'n staff i Fforwm y Loteri).

# Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Roedd trafodyn a ddaeth i £18,000 gyda Historic England ar gyfer secondio un aelod o'n staff. Roedd £11,000 yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd trafodion gyda Sport England ac UK Sport a oedd yn cynrychioli secondio aelod o'n staff i Fforwm y Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £3,000 yn ddyledus i ni gan Sport England a £1,000 gan UK Sport.

Y tu hwnt i'r teulu DCMS o gyrff a noddir gan Lywodraeth ganolog, bu trafodion materol gyda Swyddfa'r Cabinet gwerth £8,000 ar gyfer amryw faterion gweinyddol; nid oedd unrhyw beth yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaethom ailgodi costau monitro a mentora prosiectau penodol a oedd wedi derbyn cymorth grant i ganghennau Llywodraeth yr Alban (Creative Scotland a Historic Environment Scotland). Roedd biliau gwerth cyfanswm o £9,000 yn y flwyddyn ac roedd £3,000 yn ddyledus ganddynt ar ddiwedd y flwyddyn.

Yn 2011–12, llofnododd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd isbrydles ar gyfer y mwyafrif o lawr cyntaf swyddfeydd CGDG yn 7 Holbein Place, Llundain. Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn gorff cyhoeddus anadrannol, a noddir ar y cyd gan yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth yr Alban, Senedd Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Er i ni adael Holbein Place ym mis Medi 2019, rydym yn dal i negodi gyda'r landlord ynglŷn â chostau dadfeilio ac mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn rhan o'r trafodaethau hynny.

Fel y nodir ar y tudalennau isod, roedd gan Ymddiriedolwyr CGDG fuddiannau mewn cyrff yr oedd CGDG wedi gwneud grantiau'r Loteri Genedlaethol iddynt. Yn yr un modd, roedd gan aelodau pwyllgorau gwlad ac ardal fuddiannau mewn prosiectau yr oedd eu pwyllgor wedi gwneud grantiau'r Loteri Genedlaethol iddynt neu ddarparu sylwadau ac argymhellion arnynt i'r Bwrdd. Mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor gynnal cofrestr o fuddiannau mewn cyrff treftadaeth, sy'n cael ei diweddaru bob blwyddyn mewn cydweithrediad â'n tîm Cyfreithiol a Llywodraethu. Ar ddechrau pob cyfarfod pwyllgor neu Fwrdd, mae ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor yn datgan unrhyw gysylltiad ag ymgeiswyr ac yn tynnu'n ôl o unrhyw ran o'r cyfarfod pan drafodir y cais hwnnw am grant. Nid ydynt yn cymryd rhan yn y drafodaeth ynglŷn â pha un a ddyfernir grant ai peidio ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw drafodaeth ynglŷn â'r prosiect hwnnw cyn neu ar ôl y penderfyniad grant ychwaith. Mae rheolau llym hefyd ynglŷn â'r amgylchiadau pan all ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor dderbyn gwaith â thâl gan grantî. Gan hynny, mae'r ymddiriedolwyr wedi'u bodloni na fu unrhyw achos pan gafodd unigolion ddylanwad ar y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer y prosiectau hynny y mae ganddynt gysylltiad â hwy.

Yn 2020–21, cafwyd trafodion cyrff cysylltiedig, ar ffurf taliadau grant, mewn perthynas â dyfarniadau a wnaed ac a ddatgelwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gan y datgelwyd y trafodion cyrff cysylltiedig hynny yn flaenorol, ni chânt eu hailadrodd yma.

**Roedd pedwar dyfarniad yr oedd ymddiriedolwr wedi datgan gwrthdaro buddiannau ynddynt.**

### Partneriaeth AHNE Gogledd y Penwynion

Grant o £5,723,100 – Tees-Swale: naturally connected.

Datganodd Maria Adebowale-Schwarte wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Fwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd.

### Re-Form Heritage

Cynnydd grant o £547,000 i wneud cyfanswm grant o £1,521,500 – Harper Street: Engagement in Heritage

Datganodd Perdita Hunt wrthdaro buddiannau oherwydd gofynnwyd iddi fod yn un o ymddiriedolwyr y sefydliad.

### Prifysgol Leeds

Grant o £171,638 – #Digital5 The Question of Digital: Building the digital capabilities of the heritage sector

Adroddodd David Stocker wrthdaro fel Athro Gwadd Anrhydeddus Astudiaethau Canoloesol ym Mhrifysgol Leeds.

### Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Abaty Fountains ac Ystad Frenhinol Studley

Grant o £1,373,600 – Skell Valley Project

Datganodd David Stocker wrthdaro buddiannau gan ei fod yn aelod presennol o Gyngor yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

**Roedd naw dyfarniad yr oedd aelod o bwyllgor gwlad neu ardal wedi datgan gwrthdaro buddiannau ynddynt.**

### Partneriaeth Tirwedd Tamar

Grant o £2,277,600 – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Tamar

Datganodd Tamsin Daniel fuddiant gan fod yr ymgeisydd yn rhan o Gyngor Cernyw, sef ei chyflogwr.

### Yr Ymddiriedolaeth Synhwyraidd

Grant o £191,600 – More Than Words – making heritage accessible through co-designed inclusive sensory-rich interpretation

Nododd Tamsin Daniel fod y prosiect yn cael ei gyflwyno ar draws safleoedd treftadaeth y mae ei chyflogwr, sef Cyngor Cernyw, yn berchen arnynt neu'n eu cefnogi.

Nododd Evelyn Stacey fod Ymddiriedolaeth Wheal Martyn yn un o fuddiolwyr y prosiect. Bu'n Brif Swyddog Gweithredol yr Ymddiriedolaeth honno tan 2016 ac roedd yn parhau i fod yn gyfarwyddwr anweithredol o'i his-gwmni masnachu, sef Wheal Martyn Enterprises.

### Amgueddfa Fyw y Black Country

Cynnydd grant o £2,210,000 i wneud cyfanswm grant o £11,610,000 – Forging ahead – Creating a world class visitor attraction in the Black Country

Datganodd Marion Blockley wrthdaro buddiannau gan ei bod wedi gweithio fel ymgynghorydd i dîm y prosiect ar gyfer eu cais gwreiddiol.

### Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Durham

Grant o £507,400 – Naturally Native

Datganodd Jim Cokill wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Durham.

### Cyngor Dinas Preston

Grant o £4,521,500 – Reimagining the Harris – #HarrisYourPlace

Datganodd Catherine Mugonyi wrthdaro buddiannau fel Rhaglennydd Creadigol ar gyfer Amgueddfa, Oriel Gelf a Llyfrgell Harris. Gwnaed y dyfarniad un diwrnod cyn i Ms Mugonyi ddod yn aelod o'r pwyllgor; fodd bynnag, bu'n arsylwr yn y cyfarfod.

### Cymdeithas Glowyr Durham

Grant o £4,497,800 – Redhills Revealed: A New Life for the Pitman's Parliament

Datganodd Niall Hammond wrthdaro buddiannau oherwydd bu'n gynghorwr taledig ar y prosiect yn flaenorol.

### Awdurdod Parc Cenedlaethol y Cairngorms

Grant o £2,036,100 – Cairngorms Capercaillie Project

Datganodd Stuart Housden wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr RSPB yr Alban tan 2017. Roeddent yn bartner ar y prosiect.

### RSPB yr Alban

Cynnydd grant o £743,000 – Orkney Native Wildlife Project

Datganodd Stuart Housden wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr RSPB yr Alban tan 2017.

### Trees for Life

Grant o £702,300 – Dundreggan Rewilding Centre

Datganodd Alice Mayne wrthdaro buddiannau fel aelod o fwrdd Trees for Life tan 2019.

### Peter Neal

Mae Peter Neal, aelod o bwyllgor Llundain a'r De, hefyd ar ein Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi (CGC). Mae CGC yn rhestr arbenigwyr treftadaeth, cadwraeth ac adeiladwaith sy'n destun tendro cystadleuol yr ydym yn eu penodi i ddarparu cyngor ac arweiniad ar y prosiectau a gefnogwn. Ar adeg ei benodiad, eglurwyd ei fod yn ofynnol i Peter gadw'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud a'i rolau ymgynghorol yn gyfan gwbl ar wahân. Ni all ymgymryd ag unrhyw waith ymgynghoriaeth CGC ar gyfer prosiectau yn ardal Llundain a'r De yn ystod ei gyfnod fel aelod pwyllgor; nac ychwaith, pan ddaw ei dymor i ben, yn yr amgylchiadau hynny pan fu'n gwneud penderfyniad ar naill ai ddatblygiad neu grant cyflwyno. Gellir ei benodi trwy CGC i weithio mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Yn ystod 2020–21, fe wariom £20,531 gyda'i gwmni, Peter Neal Consulting Limited.

## 17. Offerynnau ariannol

### Offerynnau ariannol

Mae IFRS 7, 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' yn mynnu datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chael yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o lawer wrth greu neu newid risgiau ar gyfer CGDG na'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan CGDG y pŵer i fenthyg arian ac ni all ond fuddsoddi arian sy'n deillio o gymorth grant.

Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael eu cadw i newid y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

### Risg hylifedd

Yn 2020–21, deilliodd £363miliwn (99%) o incwm dosbarthu Loteri Genedlaethol CGDG o'r Loteri Genedlaethol. Deilliodd yr incwm sy'n weddill o enillion buddsoddi ar y balans a ddelir gyda CDdLG o £212,000 (0.1%) ynghyd â swm bach o log banc ac ad-daliadau grant. Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod y bu eu rhwymedigaethau grant a symiau taladwy eraill yn sylweddol uwch na gwerth yr arian yn CDdLG ar 31 Mawrth 2021. Er hynny, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried nad yw eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt adnoddau hylif digonol o fewn CDdLG a'r banc i dalu pob cais tebygol am daliad grant dros y blynyddoedd i ddod. Hysbyswyd yr ymddiriedolwyr gan DCMS, yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth. Yn wir, cododd DCMS y gyfran dreftadaeth o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012. Mae'r ymddiriedolwyr wedi pennu strategaeth dyfarnu grantiau tymor hir i sicrhau bod rhwymedigaethau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn cydweddu â'r asedau, ac y gall yr ymddiriedolwyr fodloni eu rhwymedigaethau'n llawn. Gan hynny, hyd yn oed petai dirywiad tymor hir mewn incwm gan y Loteri Genedlaethol, byddai'n dasg syml i'r ymddiriedolwyr addasu cyllidebau grant i wneud iawn am hynny. Ni fu effaith y pandemig ar incwm y Loteri Genedlaethol yn arwyddocaol. Mae arwyddion cynnar o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol yn 2020–21 yn awgrymu y bydd yr incwm ar lefelau boddhaol. Rydym yn cydnabod mai cyfnod byr yw hwn i ddod i gasgliadau, ond nid yw'n awgrymu bod angen i ni addasu ein cynllunio. Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

### Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Buddsoddir asedau ariannol gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn CDdLG, sy'n buddsoddi mewn amrediad cul o asedau risg isel megis arian parod a bondiau'r llywodraeth. Nid oes gan yr ymddiriedolwyr unrhyw reolaeth dros fuddsoddiad y cyllid hwn. Am y ddau reswm hyn, nid ydym wedi cyflawni dadansoddiad sensitifrwydd ar risgiau'r farchnad. Ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, £329miliwn oedd gwerth ein buddsoddiadau yn CDdLG ar y farchnad. Mae DCMS wedi'n hysbysu yr enillodd cyllid yn CDdLG 0.1% ar gyfartaledd yn y flwyddyn (2019–20: 0.72%). Delir ein balansau arian parod, sy'n symiau a dynnir i lawr o CDdLG i'n galluogi i dalu grantiau a chostau gweithredu, mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol, yr oedd ganddynt gyfradd llog gyfartalog o 0% yn y flwyddyn. Mae'r dirywiad sydyn mewn cyfraddau llog y farchnad yn 2008, ynghyd â gostyngiadau diweddar o ganlyniad i'r pandemig, wedi cael effaith arwyddocaol ar enillion buddsoddi, ond mae'r risg yn fach gan fod ychydig iawn o le i'r cyfraddau ostwng ymhellach. Y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £4.5miliwn. Ystyria'r ymddiriedolwyr nad yw eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau cyfraddau llog arwyddocaol. Yn achos asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol eraill roedd y gyfradd llog yn ddim byd.

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau arian parod | | |
| – sterling ar gyfraddau llog cyfnewidiol | **4,537** | 3,553 |
| – Sterling ar gymysgedd o gyfraddau sefydlog | **328,748** | 308,964 |
| | **333,285** | 312, |

## Risg credyd

Mae'r ffigur ar gyfer symiau derbyniadwy yn cynnwys, bron yn gyfan gwbl, rhagdaliadau, incwm cronedig (yn bennaf ar brydlesau eiddo ac ardrethi busnes) a balansau rhynglywodraethol. Yn bennaf, mae'r balansau rhynglywodraethol gyda chyrff a noddir gan DCMS. Ac eithrio blaendaliadau ar swyddfeydd â gwasanaeth a benthyciadau nad ydynt yn ddyledus i gael eu had-dalu am nifer o flynyddoedd, roeddent oll wedi cael eu talu erbyn adeg llofnodi'r cyfrifon. Gan fod dyddiadau ad-dalu tebygol y benthyciadau'n eithaf pell yn y dyfodol, ynghyd â'r hinsawdd economaidd anodd, mae hyn yn golygu na fydd gwerth cyfredol ad-daliadau'n cyfateb i'r gwerth ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Er hynny, rydym wedi rhoi darpariaeth sylweddol ar waith yn erbyn ad-daliad tebygol y benthyciadau hyn ac felly ni thybiwyd bod ailbrisiad costau cyfredol yn faterol. Gan hynny, nid yw'r Ymddiriedolwyr yn ystyried bod eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau credyd arwyddocaol.

## Risg arian cyfred tramor

Nid yw gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn agored i unrhyw risgiau cyfnewid arian tramor.

## Asedau ariannol fesul categori

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau yn unol â'r datganiad o'r sefyllfa ariannol | | |
| – buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu | **328,748** | 308,964 |
| – arian parod a chyfwerth ag arian parod | **4,537** | 3,553 |
| – benthyciadau a symiau derbyniadwy | **13,309** | 6,473 |
| | **346,594** | 318,990 |

## Rhwymedigaethau ariannol fesul categori

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau yn unol â'r datganiad o'r sefyllfa ariannol | | |
| – rhwymedigaethau ariannol eraill | | |
| • symiau grant taladwy | **696,457** | 842,606 |
| • symiau gweithredu taladwy | **822** | 1,503 |
| • symiau taladwy eraill | **635** | 563 |
| • croniadau | **3,659** | 4,605 |
| | **701,573** | 849,277 |

## Gwerthoedd teg

Isod mae cymhariaeth, fesul categori, o werthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth 2021.

**Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2021**

| | **Gwerth llyfr £'000** | **Gwerth teg £'000** |
|---|---|---|
| Arian parod [1] | **4,537** | **4,537** |
| Buddsoddiadau [2] | **328,748** | **328,748** |
| Symiau derbyniadwy [3] | **13,309** | **13,309** |
| | **346,594** | **346,594** |

**Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2020**

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod [1] | 3,553 | 3,553 |
| Buddsoddiadau [2] | 308,964 | 308,964 |
| Symiau derbyniadwy [3] | 6,473 | 6,473 |
| | 318,990 | 318,990 |

**Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2021**

| | **Gwerth llyfr £'000** | **Gwerth teg £'000** |
|---|---|---|
| Symiau grant taladwy [4] | **696,457** | **696,457** |
| Symiau gweithredu taladwy [5] | **822** | **822** |
| Symiau taladwy eraill [5] | **635** | **635** |
| Croniadau [5] | **3,659** | **3,659** |
| | **701,573** | **701,573** |

### Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2020

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Symiau grant taladwy [4] | 842,606 | 842,606 |
| Symiau gweithredu taladwy [5] | 1,503 | 1,503 |
| Symiau taladwy eraill [5] | 563 | 563 |
| Croniadau [5] | 4,605 | 4,605 |
| | 849,277 | 849,277 |

Sail prisio teg

1 Y ffigur hwn yw gwerth yr adneuon gyda banciau masnachol. Y disgwyliad yw y bydd y gwerth llyfr yn cyfateb i'r gwerth teg.

2 Rheolir buddsoddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS. Mae ef neu hi'n darparu manylion gwerth llyfr a gwerth teg ein balansau i'r ymddiriedolwyr ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

3 Ni phennir bod angen darparu ar gyfer drwgddyled. Nid yw unrhyw un o'r dyledion yn rhai tymor hir ar wahân i'r benthyciadau tymor hir.

4 Er ein bod yn datgelu gwerth £431miliwn o symiau grant taladwy nad ydynt yn ddyledus i'w talu tan ar ôl un flwyddyn yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r ymddiriedolwyr o dan rwymedigaeth gontract i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf os bydd y prosiectau treftadaeth sylfaenol yn gwneud cynnydd cyflymach na'r hyn a ddisgwylir.

5 Mae'r holl symiau taladwy'n ddyledus o fewn telerau contract arferol, sef 14–30 niwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng gwerth llyfr a gwerth teg.

### Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Ymhen llai nag un flwyddyn | **701,573** | 849,277 |
| Ymhen mwy nag un flwyddyn, ond llai na dwy | **0** | 0 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | **0** | 0 |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **701,573** | 849,277 |

Mae'r datganiad o'r sefyllfa ariannol yn datgelu'r ffigurau uchod wedi'u gwahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn ac ymhen mwy nag un flwyddyn. Nid yw ein contractau gyda grantïon yn cynnwys unrhyw raniad rhwng symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn a'r tu hwnt i un flwyddyn. Mae'r rhaniad a adroddir yn y cyfrifon hyn yn seiliedig yn gyfan gwbl ar ein profiad blaenorol o symiau a dynnir i lawr gan grantïon i ariannu eu prosiectau. Yn ddamcaniaethol, gallai grantïon ofyn am eu grant cyfan o fewn y 12 mis nesaf os cwblhawyd eu prosiectau o fewn y cyfnod hwnnw. Gan hynny, rydym wedi mabwysiadu ymagwedd ochelgar ac wedi dangos bod yr holl rwymedigaethau'n aeddfedu o fewn un flwyddyn.

## 18. Datganiad o golledion a thaliadau arbennig

Gwnaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol golledion trwy ddiddymu pum grant gyda chyfanswm gwerth o £63,655 yn y flwyddyn (2019–20: chwe grant gyda chyfanswm gwerth o £714,891).

## 19. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau y mae angen eu datgelu ar ôl 31 Mawrth 2021 hyd at y dyddiad y llofnododd y Swyddog Cyfrifyddu y cyfrifon hyn. Awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar 7 Gorffennaf 2021 gan yr ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 20. Costau staff

Roedd y costau staff ar gyfer 2020–21 fel a ganlyn:

| | **2020–21 £'000** | 2019–20 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **8,323** | 11,302 |
| Taliadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr | **736** | 996 |
| Taliadau i'r cynllun pensiwn | **2,168** | 2,576 |
| Costau staff dros dro | **360** | 727 |
| | **11,587** | 15,601 |

# Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017

O dan yr offeryn statudol hwn, mae'n ofynnol i ni ddatgelu gwybodaeth am amser cyfleuster undebau llafur a gwariant perthnasol cyflogeion ar gyfer y flwyddyn 2020–21. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys ein gweithgareddau cymorth grant a dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

**Amser Cyfleuster Undebau Llafur**
Mae'r Gronfa'n cydnabod dau Undeb Llafur, sef PCS ac FDA, y mae'n cynnal cyfarfodydd chwarterol ffurfiol a chyfarfodydd misol anffurfiol â nhw. Rydym yn credu mewn gwaith partneriaeth ac yn cefnogi aelodaeth o Undebau Llafur. Mae'r holl gynrychiolwyr Undeb Llafur yn cyflawni rolau gwerthfawr yn y gweithle ac mae ganddynt hawl statudol i amser rhesymol i ffwrdd â thâl yn ystod oriau gwaith arferol i gwblhau dyletswyddau undeb, yn unol â'u rôl yn yr Undeb Llafur ac i ymgymryd â gweithgareddau Undeb Llafur. Mae'n ofyniad statudol arnom hefyd i ddatgelu gwybodaeth am amser cyfleuster undebau llafur a gwariant perthnasol.

**Cynrychiolwyr undeb llafur a chyfwerth ag amser llawn**

| | Nifer y cynrychiolwyr |
|---|---|
| Cynrychiolwyr undeb llafur | **21** |
| Cynrychiolwyr undeb llafur CALI | **19.06** |

**Canran yr oriau gwaith a dreuliwyd ar amser cyfleuster**

| Canran yr oriau gwaith | Nifer y cynrychiolwyr |
|---|---|
| 0% | **0** |
| 1–50% | **21** |
| 51%–99% | **0** |
| 100% | **0** |

**Cyfanswm bil tâl a chostau amser cyfleuster**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £35,240 |
| Cyfanswm bil tâl | £16,074,000 |
| Canran y tâl a wariwyd ar amser cyfleuster | **0.22%** |

**Gweithgareddau undeb llafur â thâl**

| | |
|---|---|
| Oriau a dreuliwyd ar amser cyfleuster â thâl | 99 |
| Canran y cyfanswm oriau cyfleuster â thâl a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl | **50%** |

# Cyfarwyddiadau polisi

## Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Rhoddir y cyfarwyddiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol DCMS, gan ddefnyddio ei bwerau o dan adran 26(1) a (2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 mewn perthynas â dosbarthu arian o dan Adran 25(4) y Ddeddf honno.

Mae'r cyfarwyddiadau Deyrnas Unedig yn berthnasol i'r holl grantiau ariannu a wneir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa). Mae cyfarwyddiadau ychwanegol yn berthnasol ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig.

Wrth benderfynu i bwy y mae'n dosbarthu arian, at ba ddiben, ac o dan ba amodau, bydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cymryd y materion a ganlyn i ystyriaeth:

### 1. Mewn partneriaeth ag arianwyr a rhanddeiliaid eraill, asesu anghenion treftadaeth y Deyrnas Unedig* i gyfeirio dyfarnu cyllid, gan gymryd unrhyw ddynodiad a threftadaeth sydd mewn perygl i ystyriaeth benodol.

Yn 2020–21, mae ein holl ymdrechion yn y Gronfa wedi canolbwyntio ar gynorthwyo treftadaeth i addasu ac ymateb i effaith uniongyrchol COVID-19. Ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, mae ein timau gwlad ac ardal wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau treftadaeth leol i'w helpu trwy'r cyfnod mwyaf anodd hwn.

Roedd ein dull o gynorthwyo'r sector treftadaeth yn ystod y pandemig COVID-19 wedi'i seilio ar ddata a gwybodaeth am anghenion y sector. Gan ychwanegu at yr arolwg o'r sector treftadaeth a gomisiynwyd gennym ar ddechrau'r pandemig, yn ogystal â gwybodaeth gan randdeiliaid, gwnaethom gau ein rhaglenni agored Grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth yn gyflym a chyflwyno'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth law yn llaw â mesurau eraill i gynorthwyo sefydliadau sy'n gweithio gyda threftadaeth trwy'r pandemig. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i weithio gydag adrannau'r Llywodraeth, llywodraethau datganoledig, cyllidwyr eraill a chyrff ambarél, rhwydweithiau a sefydliadau sy'n gweithio gyda threftadaeth i ddeall anghenion treftadaeth wrth iddynt newid yn ystod y flwyddyn. Ymgynghorom â rhanddeiliaid ym mis Tachwedd 2020 a chomisiynu gwerthusiad o'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth a mesurau cymorth eraill i ddeall eu heffaith yn ogystal ag anghenion ar gyfer y dyfodol.

Mae ein gwybodaeth am y sector wedi dangos y bu angen dull mwy cynnil o ddarparu cymorth ar wahanol rannau o'r sector treftadaeth. Er bod llawer o safleoedd treftadaeth ddiwylliannol wedi bod ar gau o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, mae treftadaeth awyr agored fel parciau hanesyddol, gerddi, safleoedd natur a thirweddau gwarchodedig fel Parciau Cenedlaethol wedi aros ar agor ac wedi gweld niferoedd cynyddol o ymwelwyr. Trwy ein Cronfa Argyfwng Treftadaeth, rydym wedi gallu cynorthwyo atyniadau awyr agored, safleoedd ac elusennau amgylcheddol i reoli'r cynnydd mewn llif ymwelwyr, gwneud iawn am golli gwirfoddolwyr a chynnal dulliau gweithio a safleoedd COVID-ddiogel mewn safleoedd treftadaeth bregus. Yn rhan o'n gwaith arolygu ehangach, comisiynwyd arolwg arbenigol o elusennau treftadaeth naturiol ym mis Ebrill 2020 i lywio ein hymateb teilwredig. Ailgynhelir yr arolwg hwn ym mis Mawrth/Ebrill 2021 i lywio'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Rydym wedi gweithio gyda'r holl asiantaethau amgueddfeydd ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan a gwledydd penodol yn ystod y flwyddyn. Yn y gorffennol, roedd asesu anghenion y sector a threftadaeth sydd mewn perygl yn tueddu i ganolbwyntio ar y protocol ar y cyd ar gyfer Casgliadau mewn Perygl. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at yr angen i flaenoriaethu cymorth ar gyfer sefydliadau sydd mewn perygl o fethu. Roedd cyfarfodydd rheolaidd ag asiantaethau amgueddfeydd, gan gynnwys y fforwm pythefnosol a arweiniwyd gan DCMS, wedi sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n gyflym a bod camau lliniarol yn cael eu cymryd gan yr asiantaeth berthnasol. Mae perthynas y Gronfa â'r sefydliadau datblygu sector yn y pedair gwlad yn sicrhau bod yr ariannwr a/neu'r gronfa fwyaf priodol ar gael i amgueddfeydd ac archifau. Un o ganlyniadau'r dull gweithio ystwyth hwn yw ymwybyddiaeth well o broblemau mewn is-sectorau penodol, er enghraifft amgueddfeydd a gynhelir gan wirfoddolwyr a thoriadau cyllid posibl i archifau ac amgueddfeydd awdurdodau lleol a phrifysgolion. Bydd y Gronfa'n parhau i ganolbwyntio ar achub yr

archif/amgueddfa fel sefydliad, neu, os na ellir gwneud hynny, sicrhau bod casgliadau'n cael eu trosglwyddo i sefydliadau priodol gyda'r mynediad angenrheidiol i'r cyhoedd.

Yn ystod 2020–21, gweithiom gyda phartneriaid ledled y Deyrnas Unedig gyda phwyslais ar dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol i allu dosbarthu cyllid yn effeithiol. Rydym yn cyfrannu at Fforwm yr Amgylchedd Hanesyddol (Lloegr) ac yn cydweithio ar fentrau Llywodraeth y Deyrnas Unedig fel y Gronfa Trefi Cryfach er mwyn cyflawni hyn. Gyda DCMS a chyrff hyd braich eraill, rydym yn cyfrannu at grŵp llywio cenedlaethol ar gyfer y Gronfa Drefi a ffrydiau cyllido newydd – Cronfeydd Lefelu i Fyny, Adnewyddu Cymunedol a Pherchnogaeth Gymunedol.

Cyfrannom yn uniongyrchol at Weithgor Treftadaeth DCMS a sefydlwyd i roi gwybodaeth reolaidd am y materion sy'n wynebu sefydliadau treftadaeth drwy gydol y pandemig, a helpu i ffurfio ymateb llywodraethau trwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol ar gyfer treftadaeth.

Mae digidol wedi bod yn offeryn a galluogwr allweddol yn ystod y pandemig COVID-19. Mae defnyddio technoleg wedi galluogi'r sector treftadaeth i barhau i weithredu ac aros yn gysylltiedig yn ystod argyfwng. Bu'n rhaid i lawer o staff y sector treftadaeth uwchsgilio'n gyflym yn ystod y pandemig, wrth i ymddiriedolwyr, aelodau timau gweithredol a rheolwyr ar draws y sector weithio ar-lein, yn arwain timau o bell. Nid yw'r angen i ddeall a defnyddio arferion a dulliau digidol erioed wedi bod yn bwysicach.

Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2020, ymgynghorom â 523 o sefydliadau treftadaeth ynglŷn â'u hanghenion sgiliau digidol. Roedd y sefydliadau'n dod o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ac yn amrywio o ran maint o un aelod o staff i fwy na 30,000 o staff a gwirfoddolwyr, ac yn cynrychioli ehangder y sector treftadaeth. Wrth ymateb i'r angen a amlygwyd, gwnaethom ad-drefnu ac ymestyn ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth, sydd wedi darparu mwy nag 8,119 o gyfleoedd datblygiad proffesiynol byw i'r sector treftadaeth yn 2020 – yn amrywio o gyrsiau blwyddyn o hyd, i weithdai ar-lein, i gyngor teilwredig. Gyda chymorth gan DCMS, cynyddom werth y cynnig o £1.2filiwn i £2.6miliwn a chyflwyno prosiectau newydd sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r hyn y mae'r sector wedi dweud wrthym y mae arno ei angen.

Mae hyfforddiant a chymorth wedi cynnwys helpu i greu cynnwys digidol; marchnata a chyfathrebu ar-lein; ffurfio a chefnogi cymunedau o bell; strategaeth ac arweinyddiaeth ddigidol; cynnal digwyddiadau a gweithgareddau ar-lein; dylunio a darparu dysgu ar-lein; gweithio o bell; a gweithio gyda data. Mae Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth wedi helpu llawer o sefydliadau i ddatblygu eu defnydd o ddigidol a defnyddio technolegau am y tro cyntaf, gan chwarae rôl hollbwysig wrth gefnogi'r sector.

* Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, dreftadaeth adeiledig, ddiwylliannol, naturiol ac anniriaethol.

## 2. Cynnwys y cyhoedd a chymunedau lleol wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu arian.

Penodir ein chwe phwyllgor gwlad ac ardal trwy recriwtio agored i ddarparu amrywiaeth ac ystod eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yn ogystal â gwasgariad daearyddol ar draws y tair ardal. Mae'r Pwyllgorau'n gwneud penderfyniadau am grantiau o £250,000 i £5miliwn.

Drwy gydol cyfnod ein Fframwaith Ariannu Strategol presennol, rydym yn cydweithio ag 13 o Ardaloedd Ffocws yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r ardaloedd hyn wedi derbyn y symiau lleiaf o arian gennym yn y gorffennol ac yn profi lefelau uchel o amddifadedd. Ers mis Ebrill 2019, mae ein timau wedi bod yn gweithio'n strategol gyda rhanddeiliaid yn yr ardaloedd hynny, gan gynnwys awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol, cymdeithasau tai, awdurdodau iechyd ac asiantaethau cymorth y sector gwirfoddol, i amlygu'r ffordd orau o fodloni anghenion lleol. Ar ôl i'n rhaglenni agored gael eu hatal dros dro ym mis Mawrth 2020 i'n galluogi i ymateb i'r argyfwng COVID-19, gofynnodd y Gronfa am geisiadau gan sefydliadau yn yr Ardaloedd Ffocws i'n galluogi i barhau i gefnogi ein hamcan o ehangu cynulleidfaoedd ar gyfer treftadaeth a sicrhau bod treftadaeth yn rhan o'r broses o helpu'r ardaloedd hyn i adfer. Nid oes unrhyw Ardaloedd Ffocws yng Ngogledd Iwerddon, ond amlygwyd dau gynnig am brosiect yno i dargedu cymunedau ag anghenion penodol. Dyfarnom grantiau a ddaeth i gyfanswm o £3,802,100 i'r ardaloedd hynny ar ôl gofyn am geisiadau.

## 3. Cynyddu mynediad a chyfranogiad ar gyfer y rhai nad ydynt yn elwa o'r cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Mae'r Gronfa'n cydnabod tangynrychioliad presennol llawer o bobl a chymunedau sydd â nodweddion gwarchodedig o dan ddeddfwriaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn treftadaeth. Mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar bobl a chymunedau sydd eisoes â mynediad cyfyngedig at dreftadaeth, er enghraifft oherwydd anabledd neu dlodi. Wrth i ni ddatblygu cymorth ar gyfer treftadaeth y Deyrnas Unedig drwy gydol y pandemig, roedd ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r tangynrychioliad mewn treftadaeth yn parhau.

Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad o'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth bod ymgysylltu digidol wedi galluogi rhai pobl â mynediad cyfyngedig i archwilio treftadaeth am y tro cyntaf. Adroddodd llawer o sefydliadau am wella eu galluoedd digidol trwy eu grant, a oedd wedi galluogi ystod ehangach o bobl i ymwneud ag asedau a phrofiadau treftadaeth o bell. Er enghraifft, mae Ymddiriedolaeth Venture yn yr Alban fel arfer yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd grŵp awyr agored i bobl ifanc sy'n agored i niwed ac mewn perygl. Yn lle hynny, datblygwyd adnoddau digidol creadigol a diddorol gyda'r bobl ifanc ac fe'u defnyddiwyd yn rhan o weithgareddau yn ystod galwadau ffôn wythnosol rheolaidd i weld sut oeddent yn ymdopi. Trwy hyn, bu modd cynnal ac, mewn rhai achosion, cryfhau perthnasoedd â'r bobl ifanc hyn yn ystod cyfnod heriol iawn iddynt. Mae tystiolaeth ehangach ar draws y Deyrnas Unedig o'r rhaglen ieuenctid barhaus Kick the Dust yn cefnogi'r canfyddiadau hyn, wrth i rai pobl ifanc ag anabledd dysgu neu niwrowahaniaeth ymuno â gweithgareddau ar-lein am y tro cyntaf, ar ôl i weithgareddau wyneb yn wyneb a brofwyd yn flaenorol fod yn rhy heriol neu achosi gormod o bryder.

Yn ogystal â'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth, anogom sefydliadau i geisio grantiau yn ein 13 Ardal Ffocws i sicrhau bod cyfleoedd i gymryd rhan mewn treftadaeth ar gael mewn ardaloedd a oedd yn llai tebygol o elwa. Gweler cyfarwyddyd polisi 2. Mae'r prosiectau cynhwysiant a ariannwyd trwy'r Grantiau Cydnerthedd a Chynhwysiant o fis Chwefror tan fis Mawrth 2021 yn darparu gweithgarwch treftadaeth ac yn gwella mynediad at dreftadaeth i bobl sy'n llai tebygol o elwa o gyfleoedd treftadaeth ar hyn o bryd, er enghraifft rhai grwpiau ethnig, pobl ag anableddau, pobl ifanc a phobl o gymunedau LGBT+.

Ym mis Mehefin 2020, gwahoddwyd y Gronfa i ymuno â'r Rhwydwaith Taclo Unigrwydd traws-sector a arweinir gan DCMS, gan ein galluogi i hyrwyddo pŵer treftadaeth wrth gefnogi cysylltiadau cymdeithasol ac atal unigrwydd trwy weithgareddau a arweinir gan y gymuned sy'n pontio'r cenedlaethau. Er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig, mae llawer o sefydliadau ar draws y sector treftadaeth wedi gweithio'n hyblyg ac yn gyflym i ddatblygu adnoddau digidol a synhwyraidd hygyrch. Er enghraifft, Cymdeithas Dai Methodist a ddefnyddiodd adnoddau synhwyraidd gydag oedolion hŷn sy'n defnyddio gofal â chymorth trwy eu prosiect Wilderness, a'r sefydliad anabledd Living Options Devon a ddatblygodd apiau mynediad a dehongliadau digidol i'w defnyddio gan bobl anabl ledled De-orllewin Lloegr.

Yn 2020–21, cynhaliom adolygiad o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Gronfa ar draws ein gweithgareddau Llywodraethu, Gweithlu, Diwylliant a Buddsoddiadau. I gefnogi'r gwaith hwn, cynhaliom ymchwil ynglŷn â'r canfyddiadau o dreftadaeth a diwylliant ymhlith sefydliadau a grwpiau a dangynrychiolir sy'n ymwneud â ni, a'u safbwyntiau ar Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'i rôl – gan gynnwys y diffiniad o'n canlyniad cynhwysiant i 'gynnwys ystod ehangach o bobl mewn treftadaeth'. Bydd y canfyddiadau'n ein galluogi i wella ein cymorth ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir, dadlau dros ddiffiniad o dreftadaeth sy'n cynnwys ystyriaethau lles a thegwch cymdeithasol, ac ysgogi gwelliannau i'n data grant sy'n gysylltiedig â grwpiau a dangynrychiolir, gyda'r nod o ddod yn ariannwr mwy cynhwysol a theg.

## 4. Ysbrydoli plant a phobl ifanc, gan ddeffro eu diddordeb a'u cyfranogiad yn y gweithgareddau o fewn cylch gwaith achosion treftadaeth da.

Yn 2020–21, roeddem wedi canolbwyntio ar blant a phobl ifanc trwy ddwy fenter yn bennaf:

### Kick the Dust

Mae ein prif raglen fuddsoddi, sef Kick the Dust, wedi deffro diddordeb a chyfranogiad ystod eang o bobl ifanc 11–25 oed ar draws maes treftadaeth. Mae'r deuddeg prosiect ar raddfa fawr ledled y Deyrnas Unedig wedi ymgysylltu â miloedd o bobl ifanc yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gwerthusiad o'r rhaglen yn dangos bod 46% o'r cyfranogwyr ifanc yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, bod 40% yn nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd neu'n perthyn i Leiafrif Ethnig, a bod y prosiectau wedi gweithio, er enghraifft, gyda phobl ifanc ddigartref a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl. Ysbrydolwyd pobl ifanc i greu cyfryngau cymdeithasol, ffilmiau, gwyliau a digwyddiadau, ailddehongli casgliadau a safleoedd hanesyddol, ymgymryd â gwaith cadwraeth natur a defnyddio technegau crefft ac adeiladu traddodiadol. Mae'r cyfranogwyr wedi manteisio ar hyfforddeiaethau gyda thâl a chyfleoedd datblygu ehangach, ac wedi ennill sgiliau treftadaeth, digidol a gweithio mewn tîm.

Mae'r rhaglen hefyd yn cynyddu gallu tymor hir sefydliadau treftadaeth i gynnwys ac ymgysylltu â phobl ifanc y tu hwnt i gyfnod y cyllid. Mae cannoedd o aelodau staff wedi cael eu hyfforddi a'u cynorthwyo trwy brosiectau Kick the Dust hyd yma, gan ddatblygu gwybodaeth a sgiliau mewn diogelu, cynhwysiant, digidol ac ymgysylltu ag ieuenctid. Mae llawer o brosiectau wedi ymgorffori cyfranogiad ieuenctid mewn gwaith strategaeth a llywodraethu ehangach o fewn sefydliadau treftadaeth, ac mae pobl ifanc wedi dylanwadu ar bolisïau ac arferion mewnol.

### Fy Ysgol, Fy Mhlaned

Trwy ein Cronfa Argyfwng, gwnaethom gynorthwyo'r elusen addysg awyr agored Learning Through Landscapes i dreialu prosiect dysgu awr agored am dri mis yn ystod yr haf 2020 i gynorthwyo plant yn yr ardaloedd mwyaf addysgol amddifad a diwylliannol amrywiol yn y Deyrnas Unedig i ymgysylltu ag addysg gan ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored. Gweithiodd y prosiect ar draws naw o Ardaloedd Ffocws y Gronfa hefyd. Roedd llawer o blant wedi bod allan o'r ysgol am wythnosau, a chaniataodd y prosiect i addysg ddigwydd mewn amgylchedd COVID-ddiogel ac roedd yn canolbwyntio ar dreftadaeth naturiol, priddoedd a'r newid yn yr hinsawdd.

## 5. Meithrin mentrau sy'n dod â phobl ynghyd, cyfoethogi'r parth cyhoeddus a chryfhau cymunedau.

Mae rôl parciau a mannau gwyrdd cyhoeddus eraill wedi bod yn allweddol yn ystod y pandemig ac wedi galluogi cyfleoedd i wella lles yn unigol ac o fewn 'swigod' neu grwpiau bach eraill gan gadw pellter cymdeithasol. Mae'r defnydd helaeth o barciau a mannau cyhoeddus eraill a rennir wedi cyflwyno heriau i staff parciau hefyd, a oedd wedi colli gwirfoddolwyr a wynebu niferoedd uwch o lawer o ymwelwyr ar yr un pryd, gyda rhai enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn gofyn am adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r gydnabyddiaeth gyhoeddus uwch o werth parciau, gwarchodfeydd natur, camlesi ac asedau ac adnoddau gwyrdd/glas eraill wedi cyflwyno cyfleoedd, gan gynnwys cydweithrediadau traws-sector agosach, er enghraifft â'r sector iechyd a sefydliadau a arweinir gan bobl ifanc. Mae gwella tegwch wrth gael mynediad at yr asedau hyn yn cael ei gydnabod yn y cyd-destun strategol ehangach ar gyfer y sector tirwedd a natur, ac o fewn cyd-destunau ymchwil a pholisi hirsefydlog, gan gynnwys y Rhwydwaith Amgylcheddol Du, Mosiac, Natural England, Sports England a Defra yng Nghynllun 25 Mlynedd yr Amgylchedd.

Mae'r sector treftadaeth wedi bod yn addasu cyfleoedd wyneb yn wyneb, gan ddefnyddio adnoddau digidol a rhannu gwybodaeth yn ystod y pandemig COVID-19 byd-eang presennol. Mae technoleg yn offeryn a galluogwr allweddol – yn ystod y pandemig, mae defnyddio technoleg wedi golygu bod sefydliadau wedi gallu parhau i weithio a chyrraedd eu cymunedau a'r cyhoedd. Mae digidol yn cynnig ffordd gredadwy i'r sector fynd i'r afael â rhai materion yn ymwneud ag ansawdd bywyd cymunedol, yn enwedig trwy ddarparu cyfleoedd i elwa o dreftadaeth a chyfrannu ati.

Yn rhan o'n gwaith Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth, dyfarnom grantiau yn ddiweddar i wyth prosiect newydd i ganolbwyntio ar ddefnyddio technoleg i rannu adnoddau ac arbenigedd er mwyn hyrwyddo treftadaeth a darparu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â threftadaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Butterfly Conservation, a fydd yn gwella llif data cadwraeth bywyd gwyllt rhwng gwirfoddolwyr, y

rhai sy'n cadw cofnodion, ymchwilwyr a chadwraethwyr; Amgueddfa Archaeoleg Llundain, a fydd yn datblygu data cynulleidfa ar y cyd a'i ddefnyddio i brofi ffyrdd newydd o gynnwys pobl mewn gwaith archaeolegol; a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a fydd yn ychwanegu at eu Queer Heritage and Collections Network, gan ehangu mynediad at dreftadaeth LGBTQ+.

Roedd ailagor Grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth i brosiectau cydnerthedd a chynhwysiant wedi galluogi sefydliadau i gynllunio a darparu gweithgareddau sy'n dod â phobl ynghyd trwy dreftadaeth, cynnwys grwpiau amrywiol mewn treftadaeth a gwella mynediad at dreftadaeth a gweithgareddau cysylltiedig â threftadaeth.

Rydym yn parhau â'n partneriaeth gyda Historic England a Chyngor Celfyddydau Lloegr i annog pobl i ymwneud â'u strydoedd mawr trwy raglennu diwylliannol yn rhan o'r rhaglen Parth Gweithredu Treftadaeth Stryd Fawr. Mae ein buddsoddiad £3miliwn yn y Rhaglen Ddiwylliannol yn ariannu grantiau ar gyfer consortia lleol ym mhob Parth Gweithredu Treftadaeth Stryd Fawr i annog pobl i ymwneud â threftadaeth eu strydoedd mawr trwy weithgarwch diwylliannol. Mae'r rhaglen hefyd wedi comisiynu artistiaid i weithio gyda chymunedau lleol ar strydoedd mawr ledled Lloegr i gydgynhyrchu gweithiau celf sy'n ymateb i'r stryd fawr sy'n newid, ei chofnodi a'i hadlewyrchu.

Rhaglen tair blynedd ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Lloegr yw'r Cynllun Lle Gwych a gynlluniwyd i dreialu dulliau newydd o fuddsoddi'n lleol mewn celfyddydau a diwylliant. Yn ogystal â chefnogi mwy o ymgysylltiad diwylliannol, mae'r rhaglen yn meithrin effaith tymor hir mewn lleoedd, trwy annog partneriaethau traws-sector; a sicrhau bod rôl y celfyddydau a diwylliant yn weladwy i lunwyr polisïau a chymunedau lleol.

## 6. Cefnogi ac adeiladu gallu ehangder llawn y gweithlu treftadaeth, o wirfoddolwyr i weithwyr proffesiynol, i sicrhau cadwraeth treftadaeth gyda'r sgiliau priodol.

Yn ystod y pandemig, rydym wedi cefnogi gallu'r gweithlu treftadaeth trwy'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth. Roedd tri chwarter o'r derbynyddion grant a arolygwyd wedi defnyddio rhywfaint o'u grant o leiaf ar gyfer costau staff, a ganiataodd i sefydliadau helpu staff i barhau i weithio trwy'r argyfwng ac osgoi lleihau eu capasiti. Dangosodd y gwerthusiad fod y Gronfa Argyfwng Treftadaeth wedi cefnogi rhwng 2,422 a 3,094 o rolau amser llawn yn uniongyrchol, wedi galluogi rhwng 1,442 a 1,922 o staff i ddychwelyd o ffyrlo, ac wedi cefnogi rhwng 14,694 a 29,186 o rolau gwirfoddoli yn uniongyrchol, gan sicrhau y gallai gweithgareddau gweithredol hollbwysig gael eu cynnal ar hyd y cyfnodau clo a achoswyd gan y pandemig. O'r 72 y cant o dderbynyddion grant a arolygwyd a ddefnyddiodd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (a adwaenwyd hefyd fel 'ffyrlo'), defnyddiodd 47 y cant eu grant i ddod â staff yn ôl o ffyrlo a hybu eu capasiti. Heb eu grant Cronfa Argyfwng Treftadaeth, byddai rhai sefydliadau wedi bod yn gweithredu gyda chapasiti llai o lawer ac wedi gorfod cyfyngu ar eu gweithredoedd yn sylweddol a dileu nifer fawr o swyddi.

Mae Grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth 2021–22 sydd wedi'u hailagor yn blaenoriaethu'r canlyniad 'bydd pobl wedi datblygu sgiliau'. Rydym eisiau i'n buddsoddiad helpu pobl i ddatblygu sgiliau allweddol, gan helpu sefydliadau treftadaeth i ddod yn fwy cydnerth neu fentrus a sicrhau bod treftadaeth mewn cyflwr gwell. Rydym eisiau gweld ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth trwy greu hyfforddiant mwy cynhwysol, cyflogaeth lefel mynediad a chyfleoedd i gamu ymlaen, yn enwedig wrth i ni ailadeiladu ar ôl y pandemig.

Rydym yn gwybod o waith ymchwil hydredol helaeth bod amrywiaeth yn arbennig o wael yn y sectorau tirwedd a natur o ran cyflogaeth, gwirfoddoli ac ymwelwyr. I fynd i'r afael â hyn, dechreuom weithio gyda phartneriaid a chyrff allweddol yn y sector i ddatblygu cynllun i ysgogi newid. Fel cam cyntaf, comisiynom gyfres o flogiau Treftadaeth y Dyfodol, gan gynnwys, er enghraifft, pwyslais ar amrywiaeth ethnig o fewn tirweddau: www.heritagefund.org.uk/ blogs/ black-and-brown-faces-green-spaces & www.heritagefund.org.uk/blogs/black-history-month-breaking-down-barriers-nature-young-black-people.

## 7. Symbylu arloesedd a rhagoriaeth trwy annog arfer da a chyflawni safonau uchel y gellir darparu tystiolaeth ohonynt.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at fregusrwydd ariannol llawer o sefydliadau yn y sector treftadaeth a'r angen i ailosod modelau busnes a chynlluniau busnes er mwyn gweithredu'n fwy cynaliadwy yn y dyfodol, yn ogystal â chyflwyno cyfleoedd ar gyfer arloesi'n gyflym, yn enwedig wrth ddefnyddio technoleg ddigidol. Gan weithio mewn partneriaeth â Sefydliad Young, rydym yn cynnal camau 'darganfod a dylunio' prosiect i ddatblygu a modelu fframwaith arloesedd a fydd yn ein helpu i flaenoriaethu'r ymyriadau a fydd yn mynd i'r afael â rhai heriau arloesi allweddol a amlygwyd yn y sector yn y ffordd orau. Mae camau cyntaf y prosiect yn cynnwys ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid i ystyried eu hanghenion adfer allweddol, ar yr un pryd â chadw trawsffurfio a newid tymor hir mewn golwg. Bydd y canfyddiadau'n llywio datblygiad cyllid arloesi sydd i'w ddarparu yn 2021–22 gyda'r nod o gyflawni newidiadau cadarnhaol a pharhaol ar raddfa system, yn ogystal â chymell arloesi gweithredol ac o ran cynhyrchion a gwasanaethau, a galluogi syniadau arloesol i lifo'n haws ar draws a rhwng gwahanol feysydd treftadaeth.

Mae Sbarduno Parciau'r Dyfodol yn rhaglen gwerth £12.5m sy'n gweithredu mewn naw lleoliad yn Lloegr a'r Alban, sy'n gartref i fwy na phum miliwn o bobl ac yn gyfrifol am dros 20,000 hectar o ofod gwyrdd trefol sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Weinyddiaeth Tai a Llywodraeth Leol, mae Sbarduno Parciau'r Dyfodol wedi buddsoddi mewn carfan fach o awdurdodau lleol sydd â'r uchelgais, yr arweinyddiaeth, y gallu a'r parodrwydd i yrru newidiadau trawsnewidiol yn gyflym, yn ymarferol ac yn systematig ar draws eu trefi, dinasoedd a chymunedau, mewn ffyrdd y gellir eu hefelychu. A ninnau bron hanner ffordd drwy'r rhaglen bellach, rydym yn dechrau gweld canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu. Mae tystiolaeth glir o weithio ar draws awdurdodau lleol i'w gweld eisoes wrth i dimau parciau, cynllunio, iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio i gynyddu manteision lleoedd gwyrdd trefol o ansawdd da i'r eithaf o ran darparu buddion iechyd, lles, amgylcheddol a chymdeithasol i gymunedau lleol. Disgwylir i'r garfan gyntaf gwblhau ym mis Mawrth 2022 ac rydym bellach yn datblygu rhaglen waddol i ychwanegu at yr hyn a ddysgwyd a'r cyfleoedd sy'n cael eu creu.

## 8. Sicrhau y dosberthir arian ar gyfer prosiectau sy'n sy'n hybu'r budd cyhoeddus yn y tymor hir ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

Dyfernir grantiau mwy dros £100,000 y Gronfa ddim ond i sefydliadau nid er elw a phartneriaethau a arweinir gan sefydliadau nid er elw. Gall perchnogion preifat ymgeisio am grantiau gwerth hyd at £100,000 yn unig trwy ein rhaglenni agored. Mae angen i'r prosiectau hyn gyflwyno deilliannau cymdeithasol a chymunedol cadarnhaol a dangos y bydd y budd cyhoeddus yn gorbwyso unrhyw elw preifat yn sylweddol.

Trwy ein rhaglen Menter Treftadaeth, rydym yn parhau i gefnogi prosiectau sy'n sicrhau defnyddiau newydd ar gyfer adeiladau hanesyddol a danddefnyddir, sy'n adfeiliedig neu mewn perygl, gan gynnwys at ddibenion tai. Rydym yn croesawu elfennau masnachol i'r defnyddiau newydd hyn pan fyddant yn cefnogi dichonoldeb y cynllun arfaethedig yn gyffredinol. Gall y mathau hyn o brosiectau gael eu harwain gan sefydliadau er elw mewn cydweithrediad â sefydliadau nid er elw.

## 9. Hybu amcanion datblygu cynaliadwy.

O dan ein Fframwaith Ariannu Strategol presennol, rydym yn mynnu bod yr holl brosiectau'n dilyn arfer cynaliadwyedd amgylcheddol da, gan nodi y dylai pob prosiect wneud mwy i wella natur. Cryfhaom ein hymagwedd at gyfrifoldeb amgylcheddol wrth ailagor Grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth ym mis Chwefror 2021. Rydym wedi diweddaru'r canllawiau cynaliadwyedd amgylcheddol ar ein gwefan a chreu cymorth ychwanegol i'n timau asesu trwy ein Canolfan Wybodaeth fewnol i ddatblygu dealltwriaeth staff.

Rydym wedi parhau â'n memorandwm cyd-ddealltwriaeth cyfreithiol gyda Ffit ar gyfer y Dyfodol, sef rhwydwaith rhannu gwybodaeth yn

gweithredu ar draws y sector treftadaeth sy'n canolbwyntio ar wella perfformiad sefydliadau a phrosiectau treftadaeth. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn golygu y gall y sefydliadau a ariannwn ymuno â rhwydwaith o dros 120 o sefydliadau treftadaeth eraill, megis Historic England a Historic Environment Scotland, ac elwa ohono i rannu gwybodaeth a gwella perfformiad eu prosiectau.


Ym mis Mawrth 2020, cymeradwyodd ein Bwrdd gynllun tri phwynt i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, sy'n cynnwys; deall a gostwng ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain, gwella perfformiad cynaliadwyedd y prosiectau a ariannwn, ac ystyried ein rôl ni yn y dyfodol wrth ymgynnull ac arwain y sector treftadaeth i fynd i'r afael â rhai o'r problemau allweddol wrth sicrhau datblygu cynaliadwy ar yr un pryd ag ymdrin â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol. Mae'r Gronfa wedi penodi Rheolwr Newid yn yr Hinsawdd i ddatblygu data sylfaenol am ein hallyriadau ni fel sefydliad a chreu strategaeth leihau i'w mabwysiadu'n gynnar yn 2022. Mae'r Gronfa'n anelu at fod yn ddi-garbon net erbyn 2030 o leiaf. Pan gytunir ar gynllun lleihau ar gyfer ein hallyriadau ein hunain, byddwn yn archwilio adrodd am garbon a'i leihau ar gyfer ein holl weithgareddau buddsoddi.

## 10. Lleihau amddifadedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan sicrhau bod gan bob ardal o'r Deyrnas Unedig fynediad at yr arian a ddosberthir.

Canfu'r gwerthusiad o'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth fod dyfarniadau wedi'u gwasgaru ledled y Deyrnas Unedig, gyda nifer o ddyfarniadau ym mhob un o ardaloedd y Gronfa yn Lloegr a'r gwledydd ar adeg y gwerthusiad isod.

Dyfarnwyd tua thraean o'r grantiau (32 y cant) i sefydliadau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, sef degraddau 1–3 y Mynegai Amddifadedd Lluosog, a dyfarnwyd naw y cant o'r grantiau i sefydliadau mewn ardaloedd yn negradd 1 y Mynegai Amddifadedd Lluosog. Roedd gan Ogledd Iwerddon y gyfran uchaf o grantïon yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda 61 o grantïon o Ogledd Iwerddon yn negraddau 1–3 y Mynegai Amddifadedd Lluosog.

Nifer prosiectau'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth




Rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2021, dyfarnom Grantiau Cydnerthedd a Chynhwysiant i 94 o sefydliadau a ddaeth i gyfanswm o £3.27miliwn. Dyfarnwyd grantiau ledled y Deyrnas Unedig, gyda chyfrannau uchaf y cyllid yn cael eu dyfarnu yn Llundain a De Lloegr (28 y cant) a Gogledd Lloegr (27 y cant), ac yna'r Alban (22 y cant).

Mae ein gwaith mewn 'lleoedd' wedi ehangu ar hyd y flwyddyn wrth i ni ddefnyddio ymagwedd wedi'i seilio'n fwy ar leoedd at ein hymgysylltiad strategol a'n gweithgareddau ar lefel Gwlad ac Ardal. Rydym yn cefnogi ffrydiau cyllido seiliedig ar le gan y Llywodraeth, gan gynnwys y Gronfa Drefi a Phyrth Gweithredu Treftadaeth y Stryd Fawr (a ddosberthir gan Historic England). Rydym yn parhau i ddadlau dros ddiwylliant a threftadaeth

wrth adfer, ac mae cynllun gwaddol Lle Gwych (gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr) yn bwydo i mewn i ddiwylliant a threftadaeth mewn cynlluniau adfer awdurdodau lleol. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'n 13 Ardal Ffocws, fel yr amlinellir yng nghyfarwyddyd polisi 2.

## 11. Gweithio ar y cyd gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, i sicrhau effaith gadarnhaol cyllid y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys gwerthuso prosiectau a rhannu data, pan fo'n briodol.

Yn rhan o waith Fforwm y Loteri Genedlaethol, rydym wedi cynnull arweinwyr gwerthuso a data'r holl Gyrff Dosbarthu'r Loteri eraill i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o'n dulliau unigol o gasglu, rheoli ac adrodd am ddata er mwyn gwella'r ffordd rydym yn adrodd ar y cyd am effaith buddsoddiad y Loteri Genedlaethol ledled y Deyrnas Unedig a chefnogi gwaith yr Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol. Rydym wedi ymgysylltu â phrosiect a arweinir gan DCMS i ail-lansio cronfa ddata grantiau'r Loteri Genedlaethol gan ddefnyddio'r safon 360Giving ac wedi parhau i'w gweithredu ar gyfer ein data ein hunain.

Mae gennym raglen werthuso lawn o fuddsoddiadau'r gorffennol sy'n cael eu darparu. Eleni, comisiynom werthusiad cyflym o'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth. Amlinellir uchod yr effaith ar swyddi, gwirfoddoli a chapasiti sefydliadol. Dywedodd sawl sefydliad a ariannwyd trwy'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth y byddent yn sicr o fod wedi mynd yn fethdal heb y cyllid, yn enwedig y rhai hynny â chronfeydd wrth gefn isel. Roedd galluogi sefydliadau i barhau i weithredu wedi cael effeithiau cadarnhaol ar les staff a gwirfoddolwyr, drwy fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â hyfywedd ariannol y sefydliad. Yn ogystal, roedd sefydliadau'n gallu parhau i gysylltu â'u cynulleidfaoedd, naill ai trwy ddarparu ar-lein neu drwy gadw mannau awyr agored ar agor i'r cyhoedd.

Rydym yn aelodau o'r grŵp llywio ar gyfer gwaith DCMS ar Gyfalaf Diwylliant a Threftadaeth, ochr yn ochr â chyrff hyd braich a sefydliadau anllywodraethol eraill. Mae'r prosiect tymor hir hwn yn ceisio datblygu'r fethodoleg ar gyfer prisio asedau diwylliant a threftadaeth a llif y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu i'r bobl a'r busnesau sy'n ymgysylltu â nhw, fel y gellir gwneud penderfyniadau gwell sy'n rhoi ystyriaeth lawnach o gyfraniad economaidd yr asedau hyn.

## 12. Cynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

Mae'n rhaid i'r holl ddeiliaid grant gydnabod cefnogaeth gan y Loteri Genedlaethol fel amod o'r grant. Mae'n rhaid iddynt wneud hyn am gyfnod llawn y contract grant. Rydym yn darparu deunyddiau cydnabyddiaeth â'r brand arnynt ac mae'n rhaid i arwyddion sy'n dangos ein logo fod yn weladwy mewn ardaloedd cyhoeddus, ar-lein, ar ddeunyddiau hyrwyddo, hysbysebu ac mewn digwyddiadau ac rydym yn disgwyl cydnabyddiaeth mewn sylw a roddir i brosiectau yn y cyfryngau. Rydym yn mynnu cydnabyddiaeth trwy gydol y prosiect o'r cyhoeddiad hyd at ar ôl ei gwblhau. Wrth asesu cynnydd y prosiect, rydym yn chwilio am gydnabyddiaeth weledol briodol o'ch grant. Rydym wedi defnyddio'r dull hwn gyda sefydliadau a gafodd grantiau'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth.

Rydym wedi gweithio gyda theulu'r Loteri Genedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth a diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am y cyfraniad £1biliwn+ y mae'r Loteri Genedlaethol wedi'i wneud i fynd i'r afael ag effaith COVID-19 ar gymunedau lleol ledled y Deyrnas Unedig.

## 13. Mynnu elfen o gyllid partneriaeth, neu gyfraniadau mewn da o ffynonellau eraill, i'r graddau bod hyn yn rhesymol i'w gyflawni ar gyfer gwahanol fathau o ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol.

Mynnwn fod ymgeiswyr yn sicrhau isafswm lefelau o gyllid partneriaeth gan ddibynnu ar lefel y grant y maent yn ymgeisio amdano. Nid yw'n ofynnol i geisiadau am lai na £100,000 gael unrhyw gyllid partneriaeth ond gallant nodi cyfraniadau arian parod yn unig ar y ffurflen gais.

Mae'n ofynnol cael isafswm o 5% o gyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau rhwng £100,000

ac £1filiwn. Mae'n ofynnol cael isafswm o 10% o gyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau o £1filiwn a mwy. Yn achos yr isafswm gofyniad 5 a 10%, gellir darparu'r cyllid partneriaeth ar ffurf arian parod, ar ffurf nad yw'n arian parod neu amser gwirfoddolwyr.

**14. Yr angen:**
**a) i'r arian a ddosberthir gael ei gymhwyso i brosiectau dim ond at ddiben penodol gyda chyfyngiad amser;**
**b) sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r cyngor arbenigol i wneud penderfyniadau ar bob cais; ac**
**c) i ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol prosiectau.**

Atgyfnerthodd ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 ein hymagwedd at y cyfarwyddyd polisi hwn:

a) Mae'r prosiectau a gefnogwn yn rhai penodol sydd â chyfyngiad amser arnynt. Rydym yn cyfyngu ein cefnogaeth i uchafswm o bum mlynedd ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gweithgareddau.

b) Rydym yn gofyn am wybodaeth gan ymgeiswyr sy'n esbonio i ba raddau y bydd y prosiectau y maent yn eu cyflwyno'n gwneud achos cadarn dros fuddsoddi, y byddant yn cyflwyno yn erbyn ein naw canlyniad, eu bod yn ddichonol ac yn gynaliadwy yn ariannol ac yn darparu gwerth da am arian. Gall ein hasesiad gynnwys cyngor arbenigol ar agweddau allweddol ar y cais os bydd angen.

c) Rydym yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i ni i ddangos dichonoldeb ariannol eu prosiect, wedi'i rhannu'n gostau cyfalaf, gweithgareddau a chostau eraill a chan ddangos pa gyfraniad y maent yn bwriadu ei wneud o'u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion o ffynonellau eraill. Rydym yn gofyn am ragamcaniadau llif arian ac, ar gyfer prosiectau mwy o faint, incwm a gwariant am 10 mlynedd, sy'n dangos sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal y prosiect yn y tymor hir.

Yn ystod 2020–21, dosbarthom y Gronfa Argyfwng Treftadaeth i dderbynyddion presennol neu flaenorol grantiau o'r Gronfa i dalu am gostau hanfodol am hyd at bedwar mis a chefnogi adferiad tymor hwy. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr am wybodaeth am eu sefydlogrwydd ariannol cyn COVID-19 a rhagolwg llif arian. Cawsom gyngor ychwanegol gan arbenigwyr ariannol yn ein Cofrestr Gwasanaethau Cymorth.

**15. Pan geisir cyllid cyfalaf, yr angen am:**
**a) Gynllun buses clir sy'n dangos sut caiff unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw eu talu dros gyfnod rhesymol, a**
**b) Sicrhau bod arfarnu a rheoli prosiectau mawr yn adlewyrchu Safonau Adolygiad Porth yr Awdurdod Prosiectau Mawr.**

O dan ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 presennol, rydym yn mynnu bod yr holl brosiectau mawr (dyfarniadau dros £250,000) yn darparu cynllun busnes gyda'u cais cam datblygu a ddiwedderir wedyn gyda'u cais cam cyflwyno. Mae'r cynllun busnes ar gyfer y sefydliad yn hytrach na'r prosiect, gan adlewyrchu ein diddordeb mewn cydnerthedd sefydliadol a gallu'r sefydliad i gynnal buddiannau ein buddsoddiad dros y tymor hir. Rydym yn darparu set o ganllawiau i grantïon, gan gynnwys cynnal a chadw adeiladau, cynllunio cadwraeth a rheoli a chynnal a chadw tirweddau, parciau a gerddi, i helpu i gyfeirio eu cynlluniau busnes a dylanwadu arnynt. Mae'r prosiectau a ariannwyd o dan ein Fframwaith Strategol 2013–2019 yn cael eu monitro'n unol â'r wybodaeth a ddarparwyd yng nghais y Grantî, gan gynnwys unrhyw wybodaeth atodol sydd yn y cynllun gweithgareddau, rhagamcaniadau llif arian a thabl incwm a gwariant. Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gwerth dros £200,000 o waith cyfalaf, rydym yn gofyn am gynllun rheoli a chynnal a chadw sy'n manylu sut y byddai'r ymgeisydd yn talu'r costau ychwanegol ar ôl cwblhau ei brosiect.

Ar gyfer grantïon sy'n derbyn dyfarniadau gwerth dros £2filiwn, rydym yn monitro cynnydd yn erbyn cynllun busnes y prosiect a gyflwynir gyda chais y

rownd gyflwyno. At hynny, mae'n ofynnol i brosiectau sydd ag elfen gadwraeth sylweddol gynnwys cynlluniau cadarn ar gyfer cynnal a chadw'r dreftadaeth dros y tymor hir.

Mae'r holl brosiectau'n mynd trwy broses caniatâd i ddechrau sy'n darparu porth priodol ar ôl cymeradwyo ein buddsoddiad yn y prosiect. Ar gyfer prosiectau cyfalaf, rydym hefyd yn cynnwys pwyntiau adolygu ffurfiol yn ein prosesau asesu a monitro (sy'n cyfateb i gamau Cynllun Gwaith RIBA). Rydym yn cyflogi ymgynghorwyr arbenigol ar gyfran sylweddol o brosiectau sy'n derbyn buddsoddiad dros £250,000 i helpu i sicrhau bod prosiectau'n cyflawni yn erbyn y dibenion cymeradwy yn unol â'r contract, bod y risgiau i'r Gronfa'n cael eu deall a'u rheoli, y cyflawnir arfer gorau ym mhob maes critigol a bod yr adrodd a rheoli ariannol yn gadarn ac yn dryloyw.

## 16. Annog a chefnogi'r defnydd effeithiol o fodelau ariannu creadigol (benthyciadau, mentrau ariannu cymunedol, ariannu torfol ac ati) i gynyddu dichonoldeb prosiectau, cynaliadwyedd ariannol, a'r buddsoddiad cyffredinol mewn treftadaeth.

Mae ein buddsoddiadau blaenorol mewn dwy gronfa effaith, sef y Gronfa Effaith ar Dreftadaeth (gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol) a Chronfa Effaith y Celfyddydau a Diwylliant (gyda Nesta ac eraill), yn parhau i gael eu darparu yn rhan o'n strategaeth i ysgogi buddsoddiad ychwanegol yn y sector ac annog sefydliadau sy'n gweithio ym maes treftadaeth i amrywiaethu eu ffrydiau incwm, gwella cydnerthedd ac arloesi. Er gwaethaf heriau'r pandemig, ers mis Ebrill 2020, gwnaeth y ddwy gronfa ddeuddeg cynnig newydd ar gyfer buddsoddi a ddaeth i gyfanswm o £2.8miliwn, sy'n awgrymu awydd parhaus am fuddsoddiad cymdeithasol. Yn dybiannol, mae'r buddsoddiad hwn yn ysgogi o leiaf £900,000 o ffynonellau nad ydynt yn gweithredu ym maes diwylliant a threftadaeth yn draddodiadol.

Mae gan entrepreneuriaid cymdeithasol ddealltwriaeth ddyfnach o gyd-destun cymdeithasol ac economaidd eu buddiolwyr ac felly'n gallu rheoli risg mewn amgylchedd sydd wedi'i amharu. Mae buddsoddi cymdeithasol yn debygol o barhau i fod yn rhan o'r cymysgedd cyllido wrth i'r sector barhau i lywio trwy'r pandemig, ac allan ohono, gobeithio.

Ym mis Tachwedd 2020, lansiom raglen beilot o fenthyciadau Cydnerthedd ac Adfer, a oedd yn cynnig opsiwn cyllid ad-daladwy hyblyg i sefydliadau a oedd yn ceisio ailsefydlu eu gweithrediadau busnes i adfer ar ôl effeithiau'r pandemig. Gwnaethom saith benthyciad a ddaeth i gyfanswm o £758,500 sy'n ad-daladwy ar gyfradd ddi-log dros gyfnod o chwe blynedd ar y mwyaf.

Cynrychiolwyd treftadaeth naturiol, gwyddoniaeth a thechnoleg, rheilffyrdd a'r amgylchedd adeiledig yn y dyfarniadau a wnaed. Rydym yn aelodau o'r Grŵp Buddsoddwyr Effaith Gymdeithasol a gynhelir gan y Gymdeithas Sefydliadau Elusennol i gymryd rhan mewn rhannu gwybodaeth a chydweithio ar fuddsoddi i greu effaith a gweithio gyda chyllid ad-daladwy.

Ym mis Mawrth 2020, dyfarnom £4miliwn i chwe sefydliad i ddarparu dwy raglen Datblygu Menter ledled y Deyrnas Unedig, a rhaglenni cymorth busnes yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (cadarnhawyd rhaglen Cymorth Busnes arall ar gyfer Cymru ym mis Chwefror 2021). Mae'r rhain yn ychwanegu at ein rhaglenni cynyddu capasiti blaenorol o hyfforddiant a datblygiad ar gyfer sefydliadau diwylliant a threftadaeth ledled y Deyrnas Unedig a chanfyddiadau gwaith ymchwil ynglŷn â chydnerthedd yn y sector. Mae'r rhaglenni wedi cael eu haddasu i allu cael eu cyflwyno'n rhithwir a darparu cymorth hanfodol ychwanegol ar hyd y pandemig a'r cyfnod adfer. Yn ogystal, gwnaethom sicrhau £1filiwn o Gyllid Adferiad Diwylliannol i ehangu'r rhaglen cymorth busnes yn Lloegr er mwyn cynyddu nifer y sefydliadau ac unigolion sy'n gallu cymryd rhan yn y rhaglen a chynyddu eu cynaliadwyedd ariannol yng ngoleuni effaith COVID-19. Mae'r rhaglenni cymorth busnes yn cynnig hyfforddiant a datblygiad i roi'r sgiliau a'r capasiti i sefydliadau er mwyn iddynt allu amrywiaethu eu hincwm, datblygu eu cefnogwyr, eu gwirfoddolwyr a'u cynulleidfaoedd, ymateb i gyfleoedd newydd a gwrthsefyll bygythiadau, ar yr un pryd â datblygu rhwydweithiau cryfach gyda sefydliadau tebyg. Nod y rhaglenni cymorth menter yw helpu sefydliadau i fabwysiadu modelau menter gymdeithasol er mwyn lleihau eu dibyniaeth ar gymhorthdal cyhoeddus, cryfhau eu sgiliau

arweinyddiaeth strategol a chynhyrchu incwm a rhoi eu hunain mewn sefyllfa i fanteisio ar fathau o gyllid ad-daladwy.

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at nodau'r Gronfa o gynyddu capasiti a chydnerthedd a sbarduno datblygiad menter mewn sefydliadau sy'n gweithio ar draws treftadaeth y Deyrnas Unedig trwy raglen ddwy flynedd o gyllid, cydweithrediadau strategol ac arweinyddiaeth meddwl.

## 17. Cynyddu sgiliau a galluedd digidol, a'r defnydd o offer digidol, yng Nghronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r sector treftadaeth, annog cywain, defnyddio a rhannu deunyddiau treftadaeth digidol yn well ac annog arloesedd digidol.

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi ymrwymo i sicrhau bod y sector yn cael y budd mwyaf o ddigidol, ac yn deall bod technolegau digidol yn hanfodol i helpu'r sector i weithio, cyfathrebu, cysylltu ac arloesi. Mae ein cyllid yn helpu sefydliadau i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder digidol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â heriau presennol ac ar gyfer dyfodol creadigol, cydnerth. Rydym yn cefnogi digidol mewn tair ffordd ar hyn o bryd:

- Trwy ein rhaglenni dyfarnu grantiau craidd – sy'n croesawu cynigion sy'n canolbwyntio ar ddigidol neu'n defnyddio digidol
- Trwy ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth gwerth £2.6miliwn – sy'n darparu cymorth ac arweiniad uniongyrchol i'r sector
- Trwy ein gwaith mynediad agored – sy'n sicrhau bod yr allbynnau digidol o'n grantiau mor hygyrch â phosibl

Ym mis Chwefror 2020, lansiom ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth, sef menter uchelgeisiol gwerth £2.6miliwn a fydd yn cael ei chynnal tan fis Mawrth 2023, a luniwyd i gynyddu galluoedd digidol ar draws y sector treftadaeth. Mae'n hyrwyddo arweinyddiaeth a sgiliau digidol ac yn cefnogi datblygu sgiliau digidol yn uniongyrchol.

Gwnaethom sicrhau £1filiwn o Gyllid Adferiad Diwylliannol i ehangu ein cymorth i'r sector wrth ddatblygu'r sgiliau digidol sy'n angenrheidiol i ymateb yn effeithiol i'r heriau presennol a sicrhau bod sefydliadau'n barod ar gyfer y dyfodol. Mae'r grantiau a ddyfarnwyd i gefnogi'r sector yn 2021 yn canolbwyntio ar sgiliau arloesi digidol, menter a busnes i ailystyried sut mae'r sector yn gweithredu. Bydd prosiectau a ariennir yn 2021 yn esiamplau i'r sector o ran dylunio a darparu gwasanaethau digidol newydd; defnydd cydweithredol o dechnolegau i gronni adnoddau ac arbenigedd; a datblygu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli digidol newydd.

Mae ein partneriaid cyflawni wedi helpu sefydliadau ar draws y sector i fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys ymgysylltu â chynulleidfaoedd, creu cynnwys, marchnata a chyfathrebu, cyfryngau cymdeithasol, arweinyddiaeth ddigidol a chynnal gweithgareddau ar-lein.

Comisiynom y meincnod cyntaf yn y Deyrnas Unedig o sgiliau digidol yn y sector treftadaeth yn 2020 – yr arolwg Agweddau a Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth (DASH). Ymgynghorodd tîm y prosiect â 4,120 o staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr a oedd yn gweithio ar draws 281 o sefydliadau treftadaeth, rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020.

Ynghyd â'n gwaith DASH, darparodd y fenter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth gyfanswm o 8,119 o gyfleoedd datblygiad proffesiynol byw i'r sector treftadaeth (yn amrywio o gyrsiau blwyddyn o hyd, i weithdai ar-lein, i gyngor wedi'i deilwra) erbyn diwedd 2020. Wrth i sefydliadau symud ar-lein yn gyflym yn 2020, ymatebom drwy gomisiynu cyfres o bedwar canllaw hanfodol yn canolbwyntio ar hygyrchedd, e-ddysgu, diogelu, a diogelwch a phreifatrwydd. Mae'r rhain wedi cael eu gwylio 6,517 o weithiau a'u lawrlwytho 4,855 o weithiau.

Mae'r fenter wedi cynorthwyo miloedd o sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig ac ar draws pob maes treftadaeth. Mae'r holl brosiectau yn y fenter yn darparu data gwerthuso, a byddwn yn darparu adroddiadau gwerthuso ar gyfer y fenter gyfan yn yr hydref 2021 a 2022.

## 18. Cywain, deall a lledaenu data ar ymgyrhaeddiad, effaith a chynulleidfa gwaith Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a defnyddio'r ddealltwriaeth honno i wella polisïau a gweithdrefnau gwneud grantiau'r Gronfa, gan gynnwys cefnogi'r gwaith ar gyfranogiad. Dylid gwneud data mor dryloyw a hygyrch â phosibl.

Yn 2020–21, cynhaliom adolygiad o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Gronfa ar draws ein gweithgareddau Llywodraethu, Gweithlu, Diwylliant a Buddsoddiadau. I gefnogi'r gwaith hwn, a llywio gweledigaeth uchelgeisiol o effaith buddsoddiad y Gronfa yn y dyfodol, cynhaliom ymchwil ynglŷn â'r canfyddiadau o dreftadaeth a diwylliant ymhlith sefydliadau a grwpiau a dangynrychiolir sy'n ymwneud â ni, a'u safbwyntiau ar Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'i rôl – gan gynnwys y diffiniad o'n canlyniad cynhwysiant. Bydd y canfyddiadau – sy'n llywio cynllun gweithredu a gyflwynir yn 2021–22 – yn ein galluogi i wella ein polisïau a'n gweithdrefnau, gwella ein cymorth ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir, yn enwedig sefydliadau llai o faint, dadlau dros ddiffiniad o dreftadaeth sy'n cynnwys ystyriaethau lles a thegwch cymdeithasol, ac ysgogi gwelliannau i'n data grant sy'n gysylltiedig â grwpiau a dangynrychiolir, gyda'r nod o ddod yn ariannwr mwy cynhwysol a theg.

Yn y flwyddyn ariannol 2019–20, rhyddhaodd y Gronfa wybodaeth am grantiau fel data agored, gan gyhoeddi ein data grantiau FfS4 sy'n ymwneud â dyfarnu dros 10,000 o grantiau gyda gwerth o £2.2biliwn ar ein gwefan ein hunain a thrwy'r llwyfan 360 Giving GrantNav. Yn 2021–22, parhaom i weithio gyda 360 Giving yn rhan o'n hymrwymiad i wneud grantiau'n agored ac yn dryloyw. Cyhoeddom 1,031 o grantiau a wnaethom yn ystod blwyddyn ariannol 2019–20, a ddaeth i gyfanswm o £95.5miliwn o ddyfarniadau. Yn ystod 2021–22, byddwn yn cyhoeddi manylion y cyllid argyfwng a ddosbarthwyd gennym yn ystod y pandemig COVID-19, gan ddechrau gyda'n Cronfa Argyfwng Treftadaeth.

## Lloegr

1. Annog cadwraeth, cadwedigaeth, cyflwyniad, hyrwyddiad a dehongliad o dreftadaeth Lloegr, er mwyn iddi barhau i gael ei gwerthfawrogi a'i deall gan genedlaethau'r dyfodol.
2. Rhoi ystyriaeth i fuddiannau Lloegr yn gyffredinol a buddiannau rhannau gwahanol o Loegr, gan gymryd patrymau demograffig ac amgylchiadau economaidd amrywiol rhannau gwahanol o Loegr i ystyriaeth.
3. Annog cynaliadwyedd ariannol a, lle bo'n ddichonol ac yn briodol, y defnydd cymunedol o asedau treftadaeth yn Lloegr gan roi sylw arbennig i'r rhai sydd mewn perygl.
4. Cydweithio'n strategol ag eraill i fwyafu effaith arian y Loteri Genedlaethol, gan annog partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol pryd bynnag y bydd yn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer pobl a threftadaeth.

# Cyfarwyddiadau polisi

## Yr Alban

Cyfarwyddiadau a roddir i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o dan adran 26(2) fel y'i darllenir gydag adran 26A(2) (b) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, mae Gweinidogion yr Alban, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynir iddynt gan adran 26(2) fel y'i darllenir gydag adran 26A(2)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993[1], ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (yr "Ymddiriedolwyr"), trwy hyn yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn:

1. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i'r Alban yn unig ac yn ymwneud ag unrhyw ddosbarthiad a wneir gan yr Ymddiriedolwyr at ddiben nad yw'n gysylltiedig â materion a gedwir yn ôl.
2. Wrth bennu'r personau i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y maent yn cymhwyso unrhyw arian o dan adran 25(4) Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 ac ati yn yr Alban, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr gymryd y blaenoriaethau a ganlyn a materion eraill i ystyriaeth:

A. Yr angen am gefnogi Diben Llywodraeth yr Alban o greu gwlad yr Alban sy'n fwy llwyddiannus, gyda chyfleoedd i'r Alban i gyd ffynnu trwy gynyddu twf economaidd cynaliadwy.

B. Yr angen am ymgysylltu'n effeithiol â Gweinidogion yr Alban wrth ddatblygu polisi a rhaglenni ariannu cysylltiedig, fel y bo'n briodol, i fwyafu buddiannau cronnus i bobl a threftadaeth yr Alban.

C. Yr angen am hwyluso'r cyfraniadau mwyaf posibl gan y sectorau treftadaeth naturiol a diwylliannol i helpu i reoli pontio i economi carbon isel a chyflawni targedau newid yn yr hinsawdd yr Alban.

CH. Yr angen am wella ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol trwy brosiectau sy'n hybu cynhwysiad cymdeithasol ac yn mwyhau ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol.

D. Yr angen am gefnogi gweithgareddau sy'n cyfrannu at adeiladu gwlad yr Alban sy'n decach i bawb.

DD. Yr angen am sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a'r dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol ar draws yr Alban, gan ddefnyddio'r egwyddorion a ganlyn:

– Mae'n ddyletswydd arnom i ddiogelu a mwyhau ein treftadaeth naturiol a diwylliannol lewyrchus fel cydrannau hanfodol o'n heconomi, diwylliant, ffordd o fyw a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

– I fod yn iach ac yn hapus fel cenedl mae'n rhaid i ni feithrin a diogelu ein hadnoddau ac amgylcheddau lleol a phawb sy'n byw ynddynt.

E. Yr angen am gydweithio â phartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i helpu i gyflwyno canlyniadau gwell ar gyfer pobl a threftadaeth naturiol a diwylliannol yr Alban, wedi'i arwain gan y blaenoriaethau ac egwyddorion strategol sy'n sail i nifer o strategaethau cenedlaethol y maent eisoes yn gweithredu'n llwyddiannus ar draws yr Alban, gan gymryd unrhyw adnewyddiad neu adolygiad o'r strategaethau dan sylw yn y dyfodol i ystyriaeth a, lle bo'n briodol, unrhyw strategaethau newydd a ddatblygir, er enghraifft, y Strategaeth Ddiwylliant. Y strategaethau cyfredol yw:

- **Y Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol;**
- **Going Further** – Strategaeth Amgueddfeydd ac Orielau'r Alban;
- **Our Place in Time** – y Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol ar gyfer yr Alban;
- **Her 2020 ar gyfer Bioamrywiaeth yr Alban;**
- **Y Cynllun Iaith Gaeleg Cenedlaethol; y Cynllun Iaith Sgoteg;** a'r,
- **Egwyddor Lle.**

F. Yr angen am ddangos sut mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi ymateb i Gyfarwyddiadau Polisi Gweinidogion yr Alban.

## Cymru

Trwy hyn, mae Gweinidogion Cymru, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynir iddynt trwy adran 26 (2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 fel y'i trosglwyddwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ("y Gronfa") yn unol ag adran 26 (5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

Rhoi ystyriaeth i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac annog cyrff cyhoeddus i feddwl yn fwy am y tymor hir, cydweithio'n well â phobl a chymunedau a gyda'n gilydd, anelu at atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydlynol. Mae saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', a phum dull o weithio – tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogiad.

Wrth benderfynu i bwy y mae'n dosbarthu arian, at ba ddiben, ac o dan ba amodau, bydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cymryd y materion a ganlyn i ystyriaeth:

1. Annog cadwraeth, cadwedigaeth, cyflwyniad, hyrwyddiad a dehongliad pob agwedd ar dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol ac anniriaethol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
2. Rhoi ystyriaeth i fuddiannau Cymru'n gyffredinol a buddiannau rhannau gwahanol o Gymru, gan gymryd y patrymau demograffig ac amddifadedd amrywiol mewn rhannau gwahanol o Gymru i ystyriaeth.
3. Hybu a chefnogi'r iaith Gymraeg, gan adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, a gweithio'n unol â'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn holl weithgareddau'r Gronfa yng Nghymru. Gweithredu'n unol â Chynllun Iaith Gymraeg cytunedig y Gronfa, a monitro ei weithrediad yn unol â'r gweithdrefnau cytunedig.
4. Cydweithio'n strategol ag eraill i fwyafu effaith arian y Loteri Genedlaethol ar bobl a threftadaeth, gan annog partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i wneud hynny.
5. Annog cynaliadwyedd ariannol asedau treftadaeth Cymru a, lle bo'n ddichonol ac yn briodol, y defnydd cymunedol o asedau treftadaeth yng Nghymru gan roi sylw arbennig i'r rhai sydd mewn perygl.
6. Darparu cyfleoedd i bobl, yn enwedig pobl ifanc, gaffael y sgiliau y mae eu hangen ar gyfer cadwraeth, cadwedigaeth, cyflwyniad a hyrwyddiad treftadaeth Cymru.
7. Annog y defnydd o safonau proffesiynol priodol ym mhob prosiect.
8. Darparu cyfleoedd i bobl o bob oedran a chefndir o bob cwr o Gymru, yn enwedig plant a phobl ifanc, gael mynediad i dreftadaeth amrywiol Cymru, dysgu amdani a'i mwynhau a thrwy hynny, ei hyrwyddo.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

Mae'r rhestrau canlynol yn dangos cynnydd ar brosiectau sy'n ymwneud â £5miliwn neu fwy o arian Loteri hyd at 31 Mawrth 2021.

## Aberdeen Art Gallery: Inspiring Art and Music

**Gwlad neu ardal**

Yr Alban

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Aberdeen – Oriel Gelf ac Amgueddfeydd Aberdeen

**Cyfanswm cost y prosiect**

£29,737,519

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£126,200 (datblygu – mis Ebrill 2013)
£9,997,500 (cyflwyno – mis Hydref 2014)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 90%

**Adroddiad diweddaraf**

Agorodd yr Oriel gyda chlod mawr ym mis Hydref 2019. Cymeradwywyd estyniad i Ddyddiad Terfyn y Grant hyd at fis Rhagfyr 2021 i ganiatáu ar gyfer cyflwyno rhaglen helaeth o arddangosfeydd a digwyddiadau. Caeodd Oriel Gelf Aberdeen/ Neuadd Cowdray o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19 ac ailagorodd ar 26 Ebrill 2021, er hynny gyda chapasiti llai i ddechrau.

## Acquisition of the Armada Portrait of Elizabeth I

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Yr Amgueddfa Forwrol Genedlaethol

**Cyfanswm cost y prosiect**

£10,217,900

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£7,257,700 (cyflwyno – mis Medi 2016)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 96%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r portread yn cael ei arddangos yn Nhŷ'r Frenhines (sydd ar gau dros dro). Mae gweithgareddau lleol wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r prosiect wedi cael estyniad i Ddyddiad Terfyn y Grant i sicrhau y gellir cyflwyno menter allgymorth ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hyn wedi'i oedi oherwydd COVID-19, ond mae'n ymddangos y gellir rheoli'r sefyllfa.

## Alexandra Palace: Reclaiming the People's Palace

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Ymddiriedolaeth Elusennol Parc a Phalas Alexandra

**Cyfanswm cost y prosiect**

£26,737,458

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£844,800 (datblygu – mis Ebrill 2013)
£18,850,000 (cyflwyno – mis Chwefror 2017)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 97%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau ac ar gau. Mae'r ymddiriedolaeth wedi cael grant Rownd 1 gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol. Bydd yn ailagor gyda rhaglen o ddigwyddiadau newydd.

## Auckland Castle: Creating Faith in a Better Future

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Ymddiriedolaeth Castell Auckland

**Cyfanswm cost y prosiect**

£32,087,116

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£1,000,000 (datblygu – mis Ebrill 2013)
£11,400,000 (cyflwyno – mis Awst 2016)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 90%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau a disgwylir i'r castell ailagor ym mis Mehefin 2021. Yr allbwn allweddol sy'n weddill yw dylunio a gosod arddangosfa'r Amgueddfa Faith, ond mae'n parhau i fod ar y camau cynnar o ganlyniad i newid i'r dyluniad ac oedi cysylltiedig â COVID-19. Cytunwyd ar estyniad i'r grant. Mae'r sefydliad wedi cael ei ailstrwythuro'n sylweddol.

## Bath Abbey Footprint

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Eglwys Blwyfol Abaty Caerfaddon

**Cyfanswm cost y prosiect**

£19,295,270

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£389,000 (datblygu – mis Ebrill 2014)
£10,725,300 (cyflwyno – mis Mawrth 2016)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 81%

**Adroddiad diweddaraf**

Roedd gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo ac yn gwneud cynnydd da er gwaethaf darganfyddiadau archaeolegol o bwys annisgwyl o dan loriau'r Abaty. Caeodd y safle ac ataliwyd y gwaith cyfalaf o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19. Roedd y gweithgareddau'n symud ymlaen yn dda hefyd tan i'r safle gau. Dyfarnwyd cynnydd grant Cronfa Cicdanio Cyfalaf Treftadaeth o £534,000 ym mis Rhagfyr 2020.

## BCLM: Forging Ahead – creating a world-class visitor attraction in the Black Country

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Amgueddfa Fyw y Black Country

**Cyfanswm cost y prosiect**

£22,960,000

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£400,000 (datblygu – mis Ebrill 2017)
£9,400,000 (cyflwyno – mis Mawrth 2019)
£2,210,000 (cynnydd grant – mis Rhagfyr 2020)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 10%

**Adroddiad diweddaraf**

Bydd y prosiect yn ehangu ac yn gwella'r profiad ymwelwyr, trwy greu datblygiad newydd wedi'i osod yn y 1940au–60au a mynedfa ymwelwyr newydd. Mae gwaith paratoi'r tir wedi bod yn mynd rhagddo ac mae'r amgueddfa wedi bod ar gau i ymwelwyr yn ystod COVID-19. Mae cymorth gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Cicdanio Cyfalaf Treftadaeth (nid yw'r olaf wedi'i chynnwys yn y ffigurau hyn) wedi caniatáu i'r prosiect symud ymlaen.

## Brooklands Aircraft Factory and Race Track Revival

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Amgueddfa Brooklands

**Cyfanswm cost y prosiect**

£7,865,021

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£286,500 (datblygu – mis Ionawr 2015)
£5,181,800 (cyflwyno – mis Mehefin 2017)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

## Buxton Crescent & Spa

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Dosbarth High Peak

**Cyfanswm cost y prosiect**

£33,180,338

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£23,853,000 (cyflwyno – mis Gorffennaf 2006)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 99.5%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae Gwesty a Sba Buxton Crescent wedi'i gwblhau bellach ac agorodd ym mis Mai 2021. Mae'r Ystafell Bwmpio wedi'i chwblhau ac fe agorodd i'r cyhoedd fel Canolfan Groeso'r Dref ym mis Mawrth 2019. Mae Profiad Ymwelwyr y Crescent wedi cael ei oedi o ganlyniad i COVID-19.

## Cotswold Canals Connected

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Dosbarth Stroud

**Cyfanswm cost y prosiect**

£20,126,800

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£842,800 (datblygu – mis Ebrill 2018)
£8,956,200 (cyflwyno – mis Hydref 2020)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 0%

**Adroddiad diweddaraf**

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Rhagfyr 2020 a disgwylir rhoi caniatâd i ddechrau ym mis Ebrill/Mai 2021.

## Courtauld Connects

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Sefydliad Celf Courtauld

**Cyfanswm cost y prosiect**

£38,378,123

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£650,000 (datblygu – mis Ebrill 2016)
£10,350,000 (cyflwyno – mis Mawrth 2018)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 67%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect yn y cam adeiladu a disgwylir ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2021, yn dilyn oedi o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19. Mae gweithgareddau'n parhau, ond mae rhai wedi cael eu haddasu at ddibenion gwahanol ac mae'r amserlen wedi newid o ganlyniad i COVID-19. Dyfarnwyd cynnydd grant o £1,500,000 ym mis Mawrth 2021.

## Creu Hanes – Making History

**Gwlad neu ardal**

Cymru

**Ymgeisydd**

Amgueddfa-Cymru – National Museum Wales

**Cyfanswm cost y prosiect**

£26,589,054

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£450,000 (datblygu – mis Chwefror 2010)
£12,547,300 (cyflwyno – mis Tachwedd 2016)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 90%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau. Mae'r gwerthusiad yn parhau. Bydd y prosiect yn cau erbyn mis Mehefin 2021.

## Derby Silk Mill – Museum of Making

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Amgueddfeydd Derby

**Cyfanswm cost y prosiect**

£15,480,200

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£817,300 (datblygu – mis Ebrill 2015)
£8,570,400 (cyflwyno – mis Medi 2017)
£1,307,300 (cynnydd grant – mis Mehefin 2020)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 93%

**Adroddiad diweddaraf**

Effeithiodd COVID-19 ar y gwaith cyfalaf a chynigiwyd cynnydd grant i helpu i dalu am gostau ychwanegol. Cwblhawyd hyn yn llwyddiannus ac agorodd y Museum of Making ym mis Mai 2021.

## Ditherington Flax Mill Maltings – International Heritage site at the heart of the community

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Historic England

**Cyfanswm cost y prosiect**

£30,382,488

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£465,300 (datblygu – mis Mai 2012)
£20,717,500 (cyflwyno – mis Ionawr 2017)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 54%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf i'r felin yn mynd rhagddo'n dda ac mae'r prosiect wedi parhau i gael ei gyflwyno er gwaethaf yr heriau a wynebwyd trwy COVID-19. Mae Historic England yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfeillion Ditherington Flaxmill, sydd wedi darparu gweithgareddau o ansawdd uchel ac yn datblygu cynlluniau ar gyfer y ganolfan ymwelwyr.

## First Light at Jodrell Bank

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Prifysgol Manceinion

**Cyfanswm cost y prosiect**

£19,841,749

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£784,800 (datblygu – mis Mai 2015)
£11,362,400 (cyflwyno – mis Mawrth 2018

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 47%

**Adroddiad diweddaraf**

Dechreuodd y cyflwyniad cyfalaf ym mis Ionawr 2020 ac mae'r gwaith yn symud yn ei flaen yn dda. Disgwylir ei gwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2021. Mae COVID-19 wedi effeithio ar y rhaglen addysg a gweithgareddau, ond mae'n symud ymlaen yn dda bellach. Mae'r safle ehangach wedi ailagor i'r cyhoedd yn ddiweddar fel atyniad awyr agored. Mae'r prosiect yn bwriadu cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023.

## Gunnersbury Park Museum Regeneration

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Bwrdeistref Llundain Ealing

**Cyfanswm cost y prosiect**

£14,163,430

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£386,400 (datblygu – mis Gorffennaf 2012)
£4,805,000 (cyflwyno – mis Rhagfyr 2017)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 95%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau ond mae'r amgueddfa ar gau ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. Dyddiad Terfyn y Grant yw 31 Gorffennaf 2021.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

## Hartlebury Castle

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Hartlebury

**Cyfanswm cost y prosiect**

£7,239,665

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£413,700 (datblygu – mis Ebrill 2013)
£4,975,100 (cyflwyno – mis Hydref 2014)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 98%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau ac fe agorodd yn ffurfiol ym mis Mehefin 2018. Mae'r rhaglenni gweithgareddau ac addysg wedi bod yn gwneud cynnydd da. Ymunodd Cyfarwyddwr newydd yn 2019. Mae'r safle wedi bod ar gau yn ystod y pandemig, ond mae cynlluniau i ailagor yn yr haf 2021.

## HMS Caroline, Belfast

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Iwerddon

**Ymgeisydd**

Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol

**Cyfanswm cost y prosiect**

£17,800,732

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£845,600 (datblygu – mis Ebrill 2013)
£14,240,500 (cyflwyno – mis Gorffennaf 2016)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 83%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r holl waith cyfalaf wedi'i gwblhau a lansiwyd y Tŷ Pwmpio'n ffurfiol ym mis Ebrill 2018. Bu'r llong a'r Tŷ Pwmpio ar gau am y rhan fwyaf o flwyddyn 2020–21 o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19 ac roedd y staff ar ffyrlo.

## Hull: Yorkshire's Maritime City

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Hull

**Cyfanswm cost y prosiect**

£28,865,200

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£1,368,400 (datblygu – mis Mawrth 2017)
£13,631,500 (cyflwyno – mis Hydref 2019)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 7%

**Adroddiad diweddaraf**

Disgwylir i'r gwaith cyfalaf ddechrau yn 2021 tra'n aros am adolygiad o gostau ar ôl COVID-19.

## Inspiring People: Transforming Our National Portrait Gallery

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Yr Oriel Bortreadau Genedlaethol

**Cyfanswm cost y prosiect**

£33,581,972

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£900,000 (datblygu – mis Ebrill 2017)
£8,500,000 (cyflwyno – mis Medi 2019)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 11%

**Adroddiad diweddaraf**

Daethpwyd â dyddiad cau'r oriel ymlaen o fis Gorffennaf 2020 i fis Mawrth 2020 o ganlyniad i COVID-19. Dechreuodd y gwaith cyfalaf ar y safle ym mis Ionawr 2021. Mae'r gweithgareddau'n mynd rhagddynt ac mae'r amserlen wedi newid oherwydd y cyfyngiadau COVID-19.

## Kresen Kernow: A home for Cornwall's archives

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Cernyw

**Cyfanswm cost y prosiect**

£18,506,591

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£386,800 (datblygu – mis Ebrill 2013)
£11,786,500 (cyflwyno – mis Gorffennaf 2015)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 95%

**Adroddiad diweddaraf**

Agorodd yr adeilad ym mis Tachwedd 2019. Roedd cyflwyniad llwyddiannus iawn o weithgareddau ac ymgysylltu'n mynd rhagddo tan ddiwedd mis Mawrth 2020 pan gaeodd y safle a'r rhaglen gweithgareddau cyhoeddus oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. Ailagorodd y safle'n rhannol, ond bu'n rhaid iddo gau unwaith eto yn ystod y cyfnod clo arall. Mae gweithgareddau ymgysylltu, y catalog a'r wybodaeth wedi cael eu haddasu i gael eu cynnal ar-lein. Dyddiad Terfyn y Grant yw mis Mehefin 2022 bellach i alluogi cyflwyno rhaglen wirfoddoli lawn a gweddill y gweithgareddau ar ôl y cyfnod clo.

## Lincoln Cathedral Connected

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Eglwys Gadeiriol Lincoln

**Cyfanswm cost y prosiect**

£15,217,800

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£909,700 (datblygu – mis Mehefin 2015)
£11,456,100 (cyflwyno – mis Mawrth 2017)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 86%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae Eglwys Gadeiriol Lincoln wedi bod ar gau o ganlyniad i COVID-19, ond mae'r gwaith cyfalaf wedi bod yn mynd rhagddo. Cwblhawyd y ganolfan ymwelwyr ac addysg newydd ym mis Mehefin 2020 ac mae'r gwaith cadwraeth i'r Blaen Gorllewinol yn parhau. Gwnaed gwelliannau i dir y cyhoedd yn y Blaen Gorllewinol a Lawnt y Deon ac mae gwaith adnewyddu'r Hen Ddeondy wedi'i gwblhau hefyd. Mae gweithgareddau wedi parhau i gael eu cynnal, ar-lein a thrwy gadw pellter cymdeithasol yn unol â'r hyn a ganiateir gan y cyfyngiadau. Cafodd yr Eglwys Gadeiriol grant gan y Gronfa Cicdanio Cyfalaf Treftadaeth.

## Medicine Galleries Project

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Yr Amgueddfa Wyddoniaeth

**Cyfanswm cost y prosiect**

£21,585,581

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£400,000 (datblygu – mis Ebrill 2015)
£7,600,000 (cyflwyno – mis Medi 2016)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 95%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau ac mae gweithgareddau'n parhau.

## Bywyd Newydd i'r Hen Goleg New Life for Old College

**Gwlad neu ardal**

Cymru

**Ymgeisydd**

Prifysgol Aberystwyth (Yr Hen Goleg)

**Cyfanswm cost y prosiect**

£27,619,895

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£849,500 (datblygu – mis Ebrill 2017)
£9,732,300 (cyflwyno – mis Rhagfyr 2019)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 3%

**Adroddiad diweddaraf**

Nid yw'r gwaith cyfalaf wedi dechrau eto. Mae COVID-19 wedi achosi oedi a chynnydd mewn costau, ond mae'r gwaith cynllunio'n parhau.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

## Pont Gludo Casnewydd – Atgyweirio, Adfer a Dehongli

**Gwlad neu ardal**

Cymru

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Casnewydd

**Cyfanswm cost y prosiect**

£13,206,900

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£1,052,800 (datblygu – mis Ebrill 2018)
£8,756,000 (cyflwyno – mis Rhagfyr 2020)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Datblygu 43%,
Cyflwyno 0%

**Adroddiad diweddaraf**

Rhoddwyd caniatâd i ddechrau ym mis Mawrth 2021.

## Norwich Castle: Gateway to Medieval England

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Sir Norfolk

**Cyfanswm cost y prosiect**

£13,344,289

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£462,400 (datblygu – mis Ebrill 2016)
£8,756,800 (cyflwyno – mis Medi 2018)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 29%

**Adroddiad diweddaraf**

Rhoddwyd caniatâd i ddechrau ym mis Ionawr 2019. Bu oedi wrth benodi'r prif gontractwr o ganlyniad i waith dylunio ychwanegol a COVID-19, ond mae hyn wedi'i gadarnhau bellach ac mae gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo ar y safle.

## Plymouth History Centre: Plymouth's role in History and History's role in Plymouth and the South West

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Plymouth

**Cyfanswm cost y prosiect**

£33,326,900

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£940,300 (datblygu – mis Ebrill 2014)
£14,833,200 (cyflwyno – mis Gorffennaf 2016)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 90%

**Adroddiad diweddaraf**

Fe'i hailenwyd 'The Box'. Mae'r prosiect wedi'i gwblhau ac fe agorodd ym mis Medi 2020.

## Remaking Beamish

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Amgueddfa Beamish

**Cyfanswm cost y prosiect**

£17,884,275

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£603,800 (datblygu – mis Gorffennaf 2014)
£10,891,200 (cyflwyno – mis Hydref 2016)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 38%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae nifer o elfennau/adeiladau bellach wedi cael eu cwblhau ac yn weithredol. Mae Spains Field Farm hefyd wedi'i gwblhau i raddau helaeth ac mae gwaith ar Deras Stryd Flaen y 1950au, Tai'r Heddlu a'r Cartref Hen Lowyr yn parhau ar ôl oedi a achoswyd gan y cyfyngiadau COVID-19. Roedd yr holl weithgarwch dysgu a chyfranogiad yn symud yn ei flaen yn dda, fodd bynnag, caewyd safle cyfan Beamish o ganlyniad i COVID-19, felly bydd pwyslais yn cael ei roi ar hyn ar ôl ailagor yn 2021. Cafodd y cynllun gymorth grant o £975,500 gan y Gronfa Cicdanio Cyfalaf Treftadaeth ym mis Rhagfyr 2020 (nid yw'r swm wedi'i gynnwys yn y crynodeb hwn).

## Revisioning Nottingham Castle – 1,000 years of History

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Nottingham

**Cyfanswm cost y prosiect**

£29,358,400

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£599,500 (datblygu – mis Ebrill 2014
£13,883,400 (cyflwyno – mis Rhagfyr 2016)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 93%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf i'r Palas Dugaidd, y ganolfan ymwelwyr newydd a'r tirweddu wedi'i gwblhau bellach a disgwylir i'r Castell agor i ymwelwyr ym mis Mehefin 2021. Bydd y gwaith cyfalaf i'r Iard Brewhouse yn cael ei gwblhau erbyn yr hydref 2021 i hwyluso dehongli a mynediad ychwanegol.

## Silverstone Heritage Experience and Collections and Research Centre

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Silverstone Heritage Ltd

**Cyfanswm cost y prosiect**

£21,599,651

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£446,000 (datblygu – mis Ebrill 2013)
£9,964,500 (cyflwyno – mis Ionawr 2017)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 99%

**Adroddiad diweddaraf**

Cwblhawyd y gwaith cyfalaf yn 2019 ac agorwyd y Profiad yn ffurfiol ym mis Mawrth 2020. Yna, caeodd y safle yn ystod y pandemig. Mae Silverstone Heritage Ltd wedi cael cymorth COVID-19 argyfwng gan y Gronfa Treftadaeth a phartneriaid eraill. Maen nhw'n bwriadu agor fel 'Silverstone Interactive Museum' ym mis Mai 2021.

## Tees-Swale: naturally connected

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Partneriaeth AHNE Gogledd y Penwynion

**Cyfanswm cost y prosiect**

£8,688,051

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£414,200 (datblygu – mis Mai 2018)
£5,723,700 (cyflwyno – mis Mehefin 2020)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Datblygu 42%,
Cyflwyno 0.7%

**Adroddiad diweddaraf**

Dyfarnwyd grant cam datblygu o £5,723,700 gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2020. Rhoddwyd caniatâd i ddechrau ym mis Medi 2020 ac mae cam cychwynnol y gwaith wedi canolbwyntio'n bennaf ar recriwtio staff a hyfforddeion ar gyfer y prosiect. Mae'r holl staff yn eu swyddi bellach a disgwylir i waith ar y tir ddechrau yn y gwanwyn 2021.

## The Burrell Collection Refurbishment Project

**Gwlad neu ardal**

Yr Alban

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Glasgow

**Cyfanswm cost y prosiect**

£58,125,549

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£1,000,000 (datblygu – mis Mai 2015)
£14,000,000 (cyflwyno – mis Hydref 2017)
£1,500,000 (cynnydd grant – mis Tachwedd 2020)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 77%

**Adroddiad diweddaraf**

Disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau ar 18 Mehefin 2021. Disgwylir i waith trefnu'r arddangosfa gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2021 a'r gwaith gosod erbyn mis Ionawr 2022 cyn agor i'r cyhoedd yn y gwanwyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar fynediad a gwelliannau i'r parc ehangach, ac mae gwaith ar weithgareddau ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

## The Canterbury Journey

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Eglwys Gadeiriol Caergaint

**Cyfanswm cost y prosiect**

£24,892,659

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£930,400 (datblygu – mis Ebrill 2014)
£12,849,500 (cyflwyno – mis Medi 2016)
Cynnydd grant o £975,800 ym mis Mai 2021 i wneud cyfanswm grant newydd o £13,825,300

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 87%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi parhau er gwaethaf heriau difrifol COVID-19. Bu'n rhaid i'r gwaith gael ei atal ym mis Mawrth 2020, ond ailddechreuodd o dan amodau COVID-ddiogel ym mis Mai 2020. Cymeradwywyd cynnydd grant ym mis Mai 2021, i dalu am ran o'r costau uwch o ganlyniad i oedi oherwydd COVID-19.

## The Citizens Theatre redevelopment

**Gwlad neu ardal**

Yr Alban

**Ymgeisydd**

Citizens Theatre

**Cyfanswm cost y prosiect**

£18,030,148

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£500,000 (datblygu – mis Mehefin 2014)
£4,795,000 (cyflwyno – mis Rhagfyr 2017)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 14%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno. Mae'r rhaglen adeiladu a risgiau'n parhau i gael eu monitro.

## "The Hold": A Suffolk Archives Service for the 21st Century

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Sir Suffolk

**Cyfanswm cost y prosiect**

£19,736,843

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£538,100 (datblygu – mis Ebrill 2016)
£10,363,700 (cyflwyno – mis Mawrth 2018)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 85%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith adeiladu ar adeilad archifau newydd ar Lannau Ipswich wedi'i gwblhau bellach ac mae arddangosfeydd newydd wedi cael eu gosod. Gohiriwyd ei agor oherwydd COVID-19, ond mae hyn wedi'i gynllunio ar gyfer yr haf 2021 bellach. Mae gweithgareddau wedi parhau'n ddigidol a bydd y rhain yn parhau tan yr hydref 2022.

## The North's greatest 'Cathedral of Commerce' Rochdale Town Hall: from Co-operation to Common Wealth

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Bwrdeistref Rochdale

**Cyfanswm cost y prosiect**

£14,620,178

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£688,700 (datblygu – mis Mai 2018)
£8,256,700 (cyflwyno – mis Medi 2020)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 0%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect yn y camau cyflwyno cynnar, ar ôl cael caniatâd i ddechrau ym mis Ionawr 2021. Mae pecynnau gwaith adfer ar fin cael eu tendro. Disgwylir i'r adeilad ailagor yn 2023..

## The Piece Hall – Halifax Heritage

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Calderdale

**Cyfanswm cost y prosiect**

£10,770,888

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£239,700 (datblygu – mis Chwefror 2010)
£7,000,000 (cyflwyno – mis Gorffennaf 2012)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 95%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r Piece Hall wedi rhagori 56% ar ei thargedau ar gyfer ymwelwyr. Mae'r rhaglen weithgareddau yn parhau i gael ei chyflwyno'n dda.

## The Renewal of Pitzhanger Manor

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Ealing

**Cyfanswm cost y prosiect**

£11,224,399

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£275,200 (datblygu – mis Mai 2014)
£5,078,600 (cyflwyno – mis Mawrth 2017)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 97%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi ei gwblhau ac mae gweddill y gweithgareddau'n cael eu hailystyried/eu haildrefnu gan fod y Tŷ a'r Oriel ar gau ar hyn o bryd oherwydd COVID-19.

## David Livingstone's Birthplace

**Gwlad neu ardal**

Yr Alban

**Ymgeisydd**

Ymddiriedolaeth Cofeb Genedlaethol yr Alban i David Livingstone

**Cyfanswm cost y prosiect**

£9,079,186

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£334,200 (datblygu – mis Mehefin 2015)
£6,280,900 (cyflwyno – mis Mawrth 2017)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 69%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae COVID-19 wedi effeithio ar y gwaith cyfalaf a gohiriwyd yr agoriad tan fis Gorffennaf 2021.

## The Sill: Unspoilt Landscapes, Inspiring People

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Northumberland

**Cyfanswm cost y prosiect**

£13,593,300

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£399,200 (datblygu – mis Ebrill 2012)
£7,748,000 (cyflwyno – mis Ionawr 2015)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Agorodd yr adeilad ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'r holl waith cyfalaf a dehongli wedi cael ei gwblhau. Mae elfennau terfynol y rhaglen weithgareddau wedi cael eu cyflwyno bellach, yn dilyn oedi o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19, a disgwylir i'r adroddiad a'r gwerthusiad terfynol gael eu cyflwyno'n fuan.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

## The Temperate House Project

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Yr Ardd Fotaneg Frenhinol, Kew

**Cyfanswm cost y prosiect**

£34,250,148

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£890,900 (datblygu – mis Ebrill 2011)
£15,650,600 (cyflwyno – mis Gorffennaf 2014)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 90%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau a'r gweithgareddau'n parhau, er y bu oedi o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud ac effaith COVID-19. Estynnwyd Dyddiad Terfyn y Grant tan 30 Medi 2021.

## Tomorrow's Museum for Dorset: Re-Imagining Dorset County Museum

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cymdeithas Hanes Naturiol ac Archaeolegol Dorset

**Cyfanswm cost y prosiect**

£15,409,625

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£483,900 (datblygu – mis Mai 2015)
£11,349,200 (cyflwyno – mis Hydref 2017)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 91%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf oddeutu ar ei hanner ac mae'r contractwyr ar y safle o hyd. Mae'r amgueddfa ar gau i'r cyhoedd ar hyn o bryd a disgwylir y bydd oedi wrth ailagor o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19. Dyfarnwyd cynnydd grant o £979,000 gan y Gronfa Cicdanio Cyfalaf Treftadaeth ym mis Medi 2020.

## Unlocking the Geffrye

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Ymddiriedolaeth Amgueddfa Geffrye

**Cyfanswm cost y prosiect**

£17,630,633

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£425,300 (datblygu – mis Ebrill 2015)
£11,941,900 (cyflwyno – mis Mawrth 2017)

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 95%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau a disgwylir i'r amgueddfa, a ailenwyd yn Museum of the Home, agor ar 12 Mehefin 2021. Bu oedi o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19. Dyfarnwyd cynnydd grant o £692,000 gan y Gronfa Cicdanio Cyfalaf Treftadaeth ym mis Rhagfyr 2020 (nid yw'r swm wedi'i gynnwys yn y crynodeb hwn). Mae'r gweithgareddau'n parhau, ond wedi'u lleihau a'u hoedi o ganlyniad i'r cyfyngiadau. Efallai y bydd angen estyniad i'r Dyddiad Terfyn Grant o 31 Rhagfyr 2021.

## Unlocking the Severn for People and Wildlife

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

**Cyfanswm cost y prosiect**

£18,889,350

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£233,100 (datblygu – mis Ebrill 2016)
£10,577,200 (cyflwyno – mis Gorffennaf 2018)
Cynnydd grant o £590,000 ym mis Rhagfyr 2020 i wneud cyfanswm grant newydd o £11,167,200

**Statws y prosiect a % y grant a dalwyd**

Cyflwyno 78%

### Adroddiad diweddaraf

Cymeradwywyd caniatâd i ddechrau ym mis Tachwedd 2018. Roedd y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo'n dda hyd nes i safleoedd y pedair cored gau ym mis Mawrth 2020 o ganlyniad i COVID-19 am gyfnod o chwe wythnos. Ailagorodd y safleoedd ym mis Mai 2020. Cwblhawyd ac agorwyd ysgol bysgod Bevere ym mis Awst 2020. Caewyd y safleoedd yng Nghoredau Diglis, Lindcomb a Holt ym mis Tachwedd 2020 o ganlyniad i lawiad trwm a arweiniodd at lifogydd yn yr holl safleoedd a mynediad gwael. Ailagorodd Coredau Diglis a Lindcomb ym mis Ionawr 2021 i ganiatáu i'r gwaith adeiladu barhau, a disgwylir i ysgolion pysgod gael eu cwblhau erbyn mis Ebrill 2021. Mae'r gwaith adnewyddu mewnol a'r gwaith ailaddurno'r gweithdy wedi cael eu cwblhau. Bydd y gwaith adeiladu yng Nghored Holt yn ailgychwyn ym mis Ebrill 2021 a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2021. Mae rhaglen o weithgareddau ac ymgysylltu wedi parhau ar-lein

## Unlocking the UK's Sound Heritage

### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

Y Llyfrgell Brydeinig

### Cyfanswm cost y prosiect

£18,847,834

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£215,900 (datblygu – mis Ebrill 2015)
£9,353,000 (darparu – mis Mawrth 2017)

### Statws y prosiect a % y grant a dalwyd

Cyflwyno 31%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen yn dda ac roedd cynnydd yn dda hyd at yr argyfwng COVID-19. Mae'r mwyafrif o gostau'r prosiect ar gyfer staff, mae tua 70 wedi'u cyflogi, ac oherwydd y cyfarpar angenrheidiol ni allant weithio o gartref, felly fe allai fod rhywfaint o effaith ar yr allbynnau terfynol.

## V&A at Dundee

### Gwlad neu ardal

Yr Alban

### Ymgeisydd

Adran Datblygu'r Ddinas Cyngor Dinas Dundee

### Cyfanswm cost y prosiect

£84,358,156

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£200,000 (datblygu – mis Ebrill 2012)
£13,900,000 (cyflwyno – mis Ionawr 2015)

### Statws y prosiect a % y grant a dalwyd

Cyflwyno 100%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r prosiect bellach wedi'i gwblhau a gwnaed y taliad terfynol ym mis Ebrill 2020.

## Windermere Steamboat Museum

### Gwlad neu ardal

Gogledd Lloegr

### Ymgeisydd

Lakeland Arts

### Cyfanswm cost y prosiect

£12,675,245

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£494,000 (datblygu – mis Ebrill 2011)
£12,076,400 (cyflwyno – mis Gorffennaf 2015)

### Statws y prosiect a % y grant a dalwyd

Cyflwyno 100%

### Adroddiad diweddaraf

Agorodd yr amgueddfa i'r cyhoedd ym mis Mawrth 2019. Mae COVID-19 wedi bod yn heriol, ond mae dyfarniadau gan y Gronfa Argyfwng Treftadaeth a'r Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi helpu'r amgueddfa i ailagor ym mis Mai 2021 gyda phrofiad ffisegol a digidol gwell.

CCS0621773442
978-1-5286-2734-4